# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** | **Fay Bowen** |
| Dyddiad: Dydd Llun, 3 Ebrill 2017 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 13.45 | 0300 200 6565 |
| | SeneddArchwilio@cynulliad.cymru |

## (Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod 13.45 - 14.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(14.00 - 14.05) (Tudalennau 1 - 7)

**Adolygiad o Lywodraethiant Llyfrgell Genedlaethol: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (20 Mawrth 2017)**

(Tudalen 8)

## 3 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2015-16

(14.05 - 15.15) (Tudalennau 9 - 40)

Briff Ymchwil
PAC(5)-12-17 Papur 1 - Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2015-16

Shan Morgan - Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru
David Richards - Cyfarwyddwr Llywodraethu, Llywodraeth Cymru
Gawain Evans - Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(15.15)

Eitemau 5, 6, 7 & 8

**(15.15 - 15.25 Egwyl)**

## 5 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2015-16: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(15.25 - 15.45)

## 6 Trosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

(15.45 - 16.00) (Tudalennau 41 - 140)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil
PAC(5)-12-17 Papur 2 – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru
PAC(5)-12-17 Papur 3 - Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

## 7 Diwygio llywodraeth Leol: Cadernid ac adnewyddiad: Trafod ymateb y Pwyllgor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

(16.400- 16.30)

PAC(5)-12-17 Papur 4 – Drafft llythyr

## 8 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Trafod y materion allweddol

(16.30 - 17.00) (Tudalennau 141 - 158)

PAC(5)-12-17 Papur 5 – Prif faterion

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2017

Amser: 09.09 - 10.53

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4271

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Mark Reckless AC (yn lle Neil Hamilton AC)<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Dr Emyr Roberts, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Kevin Ingram, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Derwyn Owen<br>David Rees |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyfoeth Naturiol Cymru: Sesiwn friffio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru

1.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac fe drafodwyd materion cyfrinachol cyfredol.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC. Dirprwyodd Mark Reckless AC ar ei ran.

1.3 Datganodd Mark Reckless AC fuddiant fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

## 3 Cyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar Gyfrifon Blynyddol 2015-16

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Dr Emyr Roberts, y Prif Weithredwr, a Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Cyfrifon Cyfoeth Naturiol Blynyddol Cymru 2015-16.

3.2 Cytunodd Dr Roberts i:

- Roi eglurhad am yr amrywiad yn y pris a dalwyd am goed yng Nghymru, ynghyd â phrisiau cyfredol y farchnad
- Darparu cost y cyngor cyfreithiol mewn perthynas ag adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol
- Paratoi nodyn ar yr arfer da a fabwysiadwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli salwch staff

3.3 Yn ogystal, nododd y Pwyllgor ei fod am gael gweld yr adroddiad sydd ar ddod gan Reolwr Archwilio Mewnol a Sicrwydd Risg Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr adolygiad o risgiau rheoli ynghyd â chopi o'r achos busnes a baratowyd ar gyfer y contract i ymateb i ledaeniad y clefyd coed *P. ramorum*.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyfoeth Naturiol Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/3916) yn:

http://senedd.tv/cy/3916

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Mawrth 2017

Amser: 14.00 - 16.49

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Arweiniol (Dinas a Sir Caerdydd) Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSC)<br>Mark Campion, Estyn<br>Simon Brown, Cyfarwyddwr Strategol, Estyn<br>Debbie Harteveld, Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De-ddwyrain Cymru (EAS)<br>Dermot McChrystal, Cyfarwyddwr Arweiniol (Cyngor Torfaen) Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De-ddwyrain Cymru (EAS)<br>Betsan O'Connor, Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)<br>Barry Rees, Is-Cyfarwyddwr Arweiniol, Ein Rhanbarth ar |

| | |
|---|---|
| | Waith (ERW)<br>Clive Phillips, Estyn<br>Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE)<br>Hannah Woodhouse, Consortiwm Canol De Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Gareth Jones<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike Hedges AC. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.
1.3 Datganodd Neil McEvoy fuddiant fel Cynghorydd ar Gyngor Dinas Caerdydd.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (9 Mawrth 2017)

2.2 Rheoli Meddyginiaethau: Llythyr oddi wrth Boots (9 Mawrth 2017)

## 3 Consortia Addysg Rhanbarthol: Sesiwn Dystiolaeth 1

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Hannah Woodhouse, Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSC); Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Arweiniol (Dinas a Sir Caerdydd) Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSC); Debbie Harteveld, Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De-ddwyrain Cymru (EAS); Dermot McChrysta, Cyfarwyddwr Arweiniol (Cyngor Torfaen) Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De-ddwyrain Cymru (EAS); Betsan O'Connor, Rheolwr Gyfarwyddwr, Ein Rhanbarth ar Waith (ERW); Barry Rees, Is-Gyfarwyddwr Arweiniol (Ceredigion), Ein Rhanbarth ar Waith (ERW); ac Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE)

fel rhan o'i ymchwiliad i Gonsortia Addysg Rhanbarthol.

## 4 Consortia Addysg Rhanbarthol: Sesiwn Dystiolaeth 2

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Simon Brown, Cyfarwyddwr Strategol, Clive Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol a Mark Campion, Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn, fel rhan o'i ymchwiliad i Gonsortia Addysg Rhanbarthol.

4.2 Cytunodd Simon Brown i anfon copi o'r arolwg canfyddiad presennol y mae Estyn yn ymgymryd ag ef ynghyd â dadansoddiad o'r canlyniadau pan fyddant ar gael.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Consortia Addysg Rhanbarthol: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a dderbyniwyd.

# Eitem 2.1

Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol • Deputy Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

SeneddPAC@Assembly.Wales

20 Mawrth 2017

Annwyl Nick Ramsay

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru: *Adroddiad ar yr Adolygiad Llywodraethu***
Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Chwefror 2017 ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar weithdrefn lywodraethu Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rwyf wedi ymateb isod i'r ddau ymholiad penodol yn eich llythyr.

***Dogfen Fframwaith***
Mae gan y Llyfrgell Genedlaethol Ddogfen Fframwaith sydd bellach angen ei hadolygu. Bydd yr adolygiad yn ystyried y gwelliannau a wneir yn fwy cyffredinol i Ddogfennau Fframwaith ar gyfer Cyrff Hyd Braich ar draws grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol. Rwy'n rhagweld y bydd Dogfen Fframwaith y Llyfrgell Genedlaethol yn cael ei chwblhau erbyn yr hydref.

***Y prosesau cyfreithiol yn dilyn tân yn y Llyfrgell Genedlaethol yn 2013***
Cadarnhaodd ein hymateb cynharach i'r Archwilydd Cyffredinol fod y Llyfrgell Genedlaethol wedi gofyn inni am arweiniad ychydig o amser yn ôl ynghylch ymgyfreitha yn erbyn partïon eraill o ran y tân, ac ein bod wedi gweithio ar y cyd â'r Llyfrgell a'i chynghorwyr cyfreithiol ar y mater hwn.

Mae'r mater hwn yn un sensitif, gan fod hawliadau posibl yn cael eu harchwilio ar hyn y bryd. Awgrymwn, felly, ein bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fo'r materion hyn wedi eu penderfynu. Rydym yn disgwyl i hynny ddigwydd yn nes ymlaen eleni.

Nodaf fwriad y Pwyllgor i graffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer 2016-17 yn nhymor yr hydref.

Yn gywir,

**James Price**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
Pontypridd, CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 025 6646
james.price@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau

2016



OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG31345 ISBN digidol 978 1 4734 9129 8

**ADRAN 1: CYFLWYNIAD** **2**

**ADRAN 2: GWELLIANNAU O RAN RHEOLI GRANTIAU**

**(i) Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau** **3**

**(a) Cyfathrebu** **4**
**(b) Diwydrwydd Dyladwy** **4**
**(c) Hyfforddiant** **5**
**(d) Llywodraethiant** **5**
**(e) Gweithio gydag eraill** **7**
**(f) Mesur Cydymffurfiaeth** **7**

**(ii) Ardystio Archwiliadau Awdurdodau Lleol** **8**

**(iii) Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)** **9**

**ADRAN 3: CYLLID**

**(i) Cyllid gan Lywodraeth Cymru** **11**
**(ii) Cyllid gan WEFO** **12**

**ADRAN 4: CAMAU NESAF AR GYFER RHEOLI GRANTIAU**

**(i) Camau nesaf Llywodraeth Cymru** **13**
**(ii) WEFO: Brexit a’r Camau nesaf ar gyfer Rheoli Grantiau** **13**

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

1.0. Mae Adroddiad Blynyddol 2016 yn nodi'r cynnydd a wnaed i wella'r prosesau rheoli grantiau ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi manylion am y cyllid a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a hefyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

1.1. Diffiniad Llywodraeth Cymru o grant yw'r "holl daliadau heb eu caffael i gyrff allanol neu unigolion am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion polisi neu rwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru". Rhennir grantiau yn ddau gategori penodol. Grantiau heb eu neilltuo yw'r taliadau a ddarperir i gyrff iechyd lleol a llywodraeth leol, ac mae'r rhain yn cyfri am £11 biliwn o'r cyfanswm o £13.6 biliwn. Grantiau wedi'u neilltuo yw taliadau sy'n cynnwys targedau a meini prawf clir o ran diben y grantiau, ac mae'r rhain yn cyfri am y £2.6 biliwn o'r cyllid sy'n weddill. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y grantiau wedi'u neilltuo.

1.2. Mae cyllid grant Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i amrywiaeth eang o sefydliadau, busnesau a phrosiectau ledled Cymru. Trwy ddarparu cyllid wedi'i neilltuo i gyflenwi gweithgareddau penodol, ceir cysylltiad amlwg rhwng taliadau ac amcanion. Mae hyn yn cynnwys y gallu i reoli lefel y gwariant yn ystod cylch oes y grant. Dyma enghreifftiau o'r amrywiaeth eang o grantiau wedi'u neilltuo a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru:

- Y rhaglen Cefnogi Pobl. Nod y rhaglen yw helpu pobl i chwilio am gartref a chadw'r cartref hwnnw, ac i fyw mor annibynnol â phosib. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth hanfodol i bobl sydd mewn amgylchiadau anodd iawn, yn enwedig pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Yn ogystal ag atal digartrefedd, mae'r rhaglen yn darparu cymorth sy'n ymwneud â thai i grwpiau amrywiol, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, angen iechyd meddwl a menywod sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. Mae hyn yn helpu i leihau'r galw ar wasanaethau eraill, megis Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn ôl gwybodaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer 2015/16, roedd mwy na 67,000 o bobl wedi'u cefnogi gan y rhaglen.
- y grant Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg. Cyflwynwyd hon yn 2015-16 er mwyn cefnogi prosiectau penodol a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu neu fabwysiadu technoleg newydd o fewn y GIG a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Yn ystod 2015-16, darparwyd gwerth £5.5 miliwn o grantiau wedi'u neilltuo i GIG Cymru ar gyfer prosiectau a ddewiswyd fel rhan o broses galw grantiau cystadleuol.
- Mae SMARTCymru yn darparu cyllid grant i fusnesau fel y gallant gyflawni prosiectau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi. Nod SMARTCymru yw cynyddu gallu cwmnïau yng Nghymru i drosi prosesau ymchwil ac arloesi yn

gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell. Yn ystod 2015/16, dyfarnwyd 40 o grantiau dan gynllun SMARTCymru a oedd yn werth cyfanswm o £2.22 miliwn.

1.3. Caiff y rhan fwyaf o'r cyllid grant i lywodraeth leol eisoes ei ddarparu trwy grantiau wedi'u neilltuo. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i chwilio am gyfleoedd i bontio unrhyw gyllid grant wedi'i neilltuo sydd ar ôl i mewn i'r setliad llywodraeth leol ehangach hwn. Mae hyn yn lleihau'r costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru ac i'r awdurdodau lleol. Mae oddeutu £194 miliwn o grantiau wedi'u neilltuo wedi'u trosglwyddo i'r setliad ers 2011-12.

1.4. Yn ystod 2015-16 cafodd tri chynllun grant wedi'i neilltuo - gwerth cyfanswm o £13 miliwn – eu trosglwyddo i'r setliad. Hyd yn hyn yn ystod 2016-17, mae un cynllun arall gwerth £31 miliwn hefyd wedi'i drosglwyddo i'r setliad. Mae gwaith ar droed i adolygu'r holl grantiau wedi'u neilltuo sydd ar ôl sy'n werth llai nag £1 miliwn, yn ogystal â gwaith penodol ar grantiau mwy o faint, megis y Grant Amgylchedd Sengl a Grant y Gronfa Byw'n Annibynnol. Canolbwynt sylfaenol y gwaith hwn yw sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni'r canlyniadau dymunol o fewn fframwaith cyllido cytunedig sy'n galluogi i ganlyniadau gael eu cyflawni yn y modd mwyaf effeithlon, economaidd ac effeithiol.

## ADRAN 2: GWELLIANNAU O RAN RHEOLI GRANTIAU

### (i) Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau

2.0. Sefydlwyd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn 2011 fel rhan o'r prosiect Rheoli Grantiau ehangach. Mae'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo polisïau a chanllawiau i'w defnyddio ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru er mwyn gwella'r safonau o ran Rheoli Grantiau. Mae'r tîm yn arwain gwelliannau mewn polisïau rheoli grantiau ac yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a mabwysiadu arferion da, yn benodol trwy wneud gwell defnydd o dechnoleg. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cydweithio ag adrannau ar draws Llywodraeth Cymru ac yn llywio'r gwaith o gyflawni prosesau grantiau effeithlon sy'n effeithiol a chydymffurfiol. Mae hefyd yn darparu pwynt cyswllt cyntaf i unrhyw gwestiynau o fewn y sefydliad. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ymdriniwyd â mwy nag 1,500 o ymholiadau, yn ogystal ag ymgysylltu'n eang â rheolwyr grantiau, yn bersonol ac ar y ffôn.

2.1. Yn ystod 2016, bu'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn canolbwyntio ar chwe maes allweddol:

- **Cyfathrebu;**
- **Diwydrwydd Dyladwy;**

- **Hyfforddiant;**
- **Llywodraethiant;**
- **Gweithio gydag eraill; a**
- **Mesur cydymffurfiaeth.**

**a) Cyfathrebu**

2.2. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r tîm wedi datblygu strategaeth gyfathrebu ffurfiol gyda chymorth adborth a gafwyd gan gwsmeriaid a thrwy ymarferiad mapio. Mae hyn yn golygu y gall y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau dargedu a gwella'r gwaith o  gefnogi a chodi ymwybyddiaeth trwy fecanweithiau fel y gymuned ymarfer. Mae hefyd wedi arwain at welliannau i bresenoldeb ar-lein y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, gan gynnwys cyhoeddi nodiadau canllawiau mwy cryno ar bynciau pwysig fel diwydrwydd dyladwy.

2.3. Hefyd, ailgychwynnwyd y cylchlythyr sy'n amlygu'r gwelliannau, y gwersi a ddysgwyd a'r cyfleoedd hyfforddi. Fe'i cyhoeddir bob chwarter. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn ymgysylltu â'r Uned Cymorth Gwladwriaethol ac â'r tîm Llywodraethiant a Sicrwydd i sicrhau bod y cylchlythyr yn drawsbynciol.

**b) Diwydrwydd Dyladwy**

2.4. Dylid cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy bob amser cyn dyfarnu cyllid ac mae gennym systemau, canllawiau a hyfforddiant ar waith i alluogi staff i rannu canlyniadau'r gwiriadau hyn, gan gynnwys pan fydd pryderon am sefydliad. Yn ystod 2015-16, cyflwynodd Llywodraeth Cymru offeryn o'r enw'r canolbwynt Diwydrwydd Dyladwy i'r system reoli grantiau. Mae hwn yn caniatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru rannu ac adolygu gwybodaeth gorfforaethol am Gyrff Allanol a rhaid i swyddogion gyfeirio ato pryd bynnag y caiff grantiau eu dyfarnu neu daliadau eu gwneud. Mae'r canolbwynt Diwydrwydd Dyladwy yn hysbysu swyddogion o bwy gyflawnodd y gweithgareddau diwydrwydd dyladwy diweddaraf, pryd y cafodd ei gyflawni, lefel y cyllid a gytunwyd a'r cyngor ar gysylltu. Mae'r canolbwynt yn gwbl weithredol ac mae hyfforddiant eang wedi'i gynnig ar amrywiaeth o wahanol fformatau, gan gynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb, canllawiau ysgrifenedig a sesiynau galw heibio.

2.5. Yn ôl adolygiad diweddar o'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod 2016, cafodd mwy na 5,000 o gofnodion eu hychwanegu at y canolbwynt Diwydrwydd Dyladwy. Mae'r maes hwn yn parhau i gael ei flaenoriaethu a bydd mwy o hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth yn cael eu cynnig yn ystod 2017.

## c) Hyfforddiant

2.6. Yn y blynyddoedd a aeth heibio, rhoddwyd pwyslais ar gyflwyno hyfforddiant ‘wyneb yn wyneb’ ar draws Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio’n benodol ar ddefnyddio’r system PayGrants.

2.7. Yn fwy diweddar, mae’r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi adolygu’r holl ddeunydd hyfforddi y mae’n ei ddarparu a hefyd yn cynnig hyfforddiant penodol i adrannau ar eu busnes eu hunain, yn ôl y gofyn. Mae’r tîm yn monitro’r cofnod o geisiadau hyfforddi ac yn mynd ati i drefnu hyfforddiant yn ôl yr angen.

2.8. Roedd angen aildendro ar gyfer contract darparwr hyfforddiant ehangach Llywodraeth Cymru ar ddiwedd 2016. Cafodd gofynion hyfforddiant y dyfodol o ran grantiau eu hystyried yn llawn fel rhan o’r ymarferiad hwn. Bydd parhad darpariaeth modiwlau Hyfforddiant ar Gyfrifiaduron (CBT) a throsglwyddo i safle letyol newydd o bwys penodol.

2.9. Wrth edrych ar y galw presennol, mae’r hyfforddiant yr holir amdano fynychaf yn ymwneud â Diwydrwydd Dyladwy, defnyddio’r canolbwynt Diwydrwydd Dyladwy ac ystyriaethau o ran Grantiau yn erbyn Caffael. Mae’r hyfforddiant diweddaraf yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar bob un o’r rhain a bydd yn cael ei gyflwyno yn ystod yr haf. Mae hyfforddiant wyneb yn wyneb hefyd ar y gweill ar bwysigrwydd y llythyr dyfarnu a thelerau ac amodau’r cyllid.

## d) Llywodraethiant

### Y Panel Sicrwydd Allanol

2.10. Mae’r Panel Sicrwydd Allanol yn mynd i’r afael â materion neu bryderon sy’n cael eu codi gan unigolion neu grwpiau mewnol ac allanol, yn ymwneud â defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru. Mae’r pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â sut mae ein partneriaid cyflenwi a buddiolwyr ein cynlluniau grant wedi ymdrin â chyllid Llywodraeth Cymru.

2.11. Mae’r panel yn cynnwys uwch-swyddogion o wahanol rannau o Lywodraeth Cymru, sy’n darparu arbenigedd o’u meysydd priodol, a chaiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant. Mae’r Panel wedi rhoi cymorth i staff i ymdrin yn effeithiol â phryderon ac i nodi materion ar draws Llywodraeth Cymru fel y gellir rhannu a dysgu gwersi. Mae’n helpu swyddogion trwy ddarparu ymateb cyson, cymesur a phriodol i bryderon a godir.

### Y Grŵp Llywodraethiant Da

2.12. Mae'r Grŵp Llywodraethiant Da yn cynnwys cyllidwyr grant allweddol a chyrff eraill, fel y Loteri Fawr, y Comisiwn Elusennau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Mae'r grŵp wedi parhau i weithredu yn ystod 2016. Caiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru erbyn hyn. Mae'r grŵp yn gweithredu'n effeithiol fel fforwm rhithwir ar gyfer rhannu gwybodaeth a materion. Yn ogystal â hyn, mae'r grŵp yn cwrdd o dro i dro i rannu arbenigedd ar feysydd pwnc penodol, gan gynnwys gwrth-dwyll.

### Y Gweithgor Grantiau

2.13. Mae'r Gweithgor Grantiau yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'n bwydo i'r broses o ddatblygu polisïau sy'n ymwneud â grantiau ac yn helpu â'r gwaith o fabwysiadu arferion da. Mae hyn nid yn unig yn caniatáu i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau gael cysylltiadau uniongyrchol â phob adran, ond mae hefyd yn sicrhau bod materion cyffredin yn cael eu codi a'u trafod. Mae'r Grŵp yn cyfarfod yn ôl y gofyn, ond gofynnir iddo'n aml i rannu ei farn ar agweddau penodol ar reoli grantiau, megis materion sefydlu cynlluniau grant neu daliadau diwedd blwyddyn.

### Gwrth-dwyll

2.14. Mae Llywodraeth Cymru yn trin achosion posibl o dwyll yn ddifrifol iawn. Er bod yr achosion o dwyll yn gymharol fach o'u cymharu â'r pecyn cyffredinol o gyllid a roddir, nid yw hyn yn tynnu oddi ar ddifrifoldeb unrhyw dwyll yn erbyn Llywodraeth Cymru ac rydym yn ceisio dysgu a gwella o'r achosion hyn yn gyson. Agorwyd saith archwiliad newydd yn ystod 2015-16 gan Bennaeth Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru.

2.15. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Pennaeth Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw Pwyllgorau Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru at feysydd yn ymwneud â llywodraethiant a rheolaeth fewnol y mae angen eu gwella er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o atal twyll. Mae'r meysydd sydd angen sylw yn cynnwys sicrhau bod y rhagamodau ar gyfer grantiau yn briodol ac yn effeithiol ac yn cael eu cymhwyso neu eu gorfodi'n ddigonol cyn y caiff taliadau eu gwneud. Yn unol â'r argymhellion hyn, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi bod yn canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth a sgiliau staff ym maes diwydrwydd dyladwy a monitro grantiau.

2.16. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried sut y gall helpu byrddau llywodraethu'r cyrff a noddir ganddi i gyflawni eu dyletswyddau gwrth-dwyll eu hunain.

2.17. Mae'r adolygiad blynyddol o lythyr dyfarnu grant safonol a thelerau ac amodau Llywodraeth Cymru ar waith ar hyn o bryd. Nod hwn yw sicrhau ein bod yn gwella ein prosesau a'n gweithdrefnau yn barhaus, ac mae'n cynnwys mewnbwn gan swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwyr Grant a'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Mae'n rhaid i bob cynllun grant gael ei gefnogi gan gytundeb cyllido priodol sy'n nodi swyddi a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r corff allanol. Mae'r llythyr dyfarnu safonol a'r telerau ac amodau wedi'u profi'n llym gan achosion diweddar. O ganlyniad, nodwyd bod angen cryfhau, ac egluro'n well, y cymalau sy'n ymdrin â hawliau mynediad i archwilio, a storio cofnodion.

2.18. Mae meysydd polisi o fewn Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiadau o wersi a ddysgwyd ac wedi ymgysylltu â'r Pennaeth Gwrth-dwyll; er mwyn dysgu, nodi a gwella diwydrwydd dyladwy a rheolaethau mewnol. Rhoddwyd mwy o ystyriaeth i fesurau ataliol er mwyn atal twyll a gwella'r sylw a roddir i nodi risgiau twyll, lleihau'r risg trwy reolaethau ar lefelau amrywiol, ac adolygu a chofnodi'r rhain yn rheolaidd mewn asesiadau risg Twyll a Llygredd.

## e) Gweithio gydag Eraill

### Llywodraeth y DU

2.19. Yn ystod 2016 aethpwyd ati'n benodol i ymgysylltu â Llywodraeth y DU, Swyddfa'r Cabinet a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae Llywodraeth Cymru wedi gallu rhannu gwybodaeth am ddatblygu systemau grantiau ac am y camau a gymerwyd i wella llywodraethiant a diwydrwydd dyladwy.

2.20. Cafwyd cynigion i gysgodi swyddi ac mae'r rhain yn cael eu dilyn. Mae'n bwysig rhannu arferion da ein gilydd, ac mae mentrau fel hyn yn ddull rhagorol o gyflawni hyn.

### Gweinyddiaethau Datganoledig

2.21. Bydd datblygu gwaith ymgysylltu â gweinyddiaethau datganoledig eraill yn flaenoriaeth yn 2017.

## f) Mesur Cydymffurfiaeth ar gyfer y Trydydd Sector

2.22. Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, mae'r Uned Trydydd Sector, gyda chymorth y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, wedi profi cydymffurfiaeth â gofynion y Cod Ymarfer ar Ariannu'r Trydydd Sector. Caiff tair o'r 17 egwyddor eu profi pob blwyddyn, ynghyd â phedwaredd egwyddor sefydlog, 'Penderfyniadau Amserol'.

2.23. Ar gyfer 2016-17 profwyd tair egwyddor ychwanegol:

- (iii) Deialog Cynnar ac Adeiladol
- (x) Taliadau
- (xvi) Llywodraethiant Da a Diwydrwydd Dyladwy

2.24. Cafodd canlyniadau'r ymarferiad profi cydymffurfiaeth eu hadrodd i is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ym mis Hydref 2016.

2.25. O'r 43 o reolwyr grant a ymatebodd, canfuwyd un achos o anghydymffurfio ag egwyddor (iv) Penderfyniadau Amserol, oherwydd bod y cyllid wedi'i ddyfarnu'n hwyrach nag yr oedd y sefydliad wedi'i ragweld. Wedi ymchwilio'n bellach i'r sefyllfa, daeth yn amlwg bod yr anghydymffurfio wedi'i liniaru gan y cyfathrebu glir a ddigwyddodd â'r sawl oedd yn ceisio am y grant, ac ni ddaeth unrhyw gŵyn i law. Nid argymhellwyd unrhyw gamau pellach. Ystyrir hyn yn doriad eithriadol, yn hytrach nag yn fater systemig.

2.26. Ni thynnwyd sylw Llywodraeth Cymru at unrhyw gwynion ffurfiol o ran cyllid a gynigiwyd neu a derfynwyd ar gyfer 2016/17.

### (ii) Ardystio Archwiliadau Awdurdodau Lleol

2.27. Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2014 ar Reoli Grantiau, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn adolygu'r modd y caiff cyllid grant i Awdurdodau Lleol ei archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO). Mae Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal cydadolygiad lefel uchel o'r broses bresennol ac wedi nodi bod cryn le i wella'r sicrwydd a'r gwerth am arian trwy ganolbwyntio o'r newydd ar resymeg archwilio a lleihau'r baich ar bawb sy'n gysylltiedig â'r broses.

2.28. Fel rhan o'r adolygiad, nodwyd nifer o fanteision cyflym a fyddai'n fuddiol i Awdurdodau Lleol, a chafodd y rhain eu rhoi ar waith ar gyfer archwiliadau 2014-15 a gynhaliwyd yn ystod hydref 2015, sef:

- Rheol de minimis o £10,000 at ddibenion adrodd ar ardystiadau, gan leihau nifer y 'cymwysterau' a'r llwyth gwaith ychwanegol a gynhyrchir yn sgil hynny; a
- fformat adrodd safonol wedi'i ailddylunio a ddefnyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae hwn yn darparu crynodeb byr o'r prif negeseuon, sy'n gwella eglurder yr adrodd, a chaiff manylion unrhyw faterion mawr eu darparu o fewn prif gorff yr adroddiad.

2.29. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi parhau i drafod y ffordd orau o ganolbwyntio o'r newydd ar y broses o ardystio grantiau. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd â phartïon â buddiant. Mae hyn wedi arwain at beilota proses newydd ddrafft gydag Awdurdodau Lleol Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam ar gyfer archwiliadau grant 2015-16. Y nod cyffredinol yw ychwanegu mwy o werth i'r broses heb ychwanegu at faich a chostau Awdurdodau Lleol.

2.30. Y cynnig cyfredol yw canolbwyntio o'r newydd ar archwiliadau lefel drafodiadol trwy gyflawni rhaglen dreigl o waith yn hytrach na phrofi pob grant, bob blwyddyn ym mhob Awdurdod Lleol. Bydd hefyd elfen o brofi allbynnau/canlyniadau, yn unol â gofynion cynlluniau grant penodol ac offer adrodd cysylltiedig.

2.31. Bydd y gwersi a ddysgir o'r cynllun peilot yn cael eu defnyddio i loywi'r broses a'r canllawiau yn ystod gwanwyn 2017, a bydd y rhain yn cael eu rhannu â phob Awdurdod Lleol yn fuan wedi hynny, mewn da bryd ar gyfer y rownd nesaf o archwiliadau yn y flwyddyn ddilynol.

## Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

### Adolygiad Archwilio o Raglen Cronfeydd Strwythurol Cymru

2.32. Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau gan Lys Archwilwyr Ewrop, y Comisiwn Ewropeaidd (DG Regio a DG Employ) na'r Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) yn ystod 2015/16 na chawsant ganlyniadau llai na boddhaol. Mae WEFO yn cofnodi pob mater archwilio a godir ac yn monitro'r gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hynny trwy ei Phwyllgor Rhaglen Rheoli Risg.

2.33. Cyfradd y gwallau a adroddwyd gan EFAT i'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei Adroddiad Rheolaeth Blynyddol ar gyfer 2015 oedd 1.9%. Mae "gwall" yn y cyd-destun hwn yn golygu unrhyw beth a nodwyd fel cyllid UE na ddylai fod wedi'i nodi. Gall hyn ddigwydd am amrywiaeth eang o resymau technegol ac nid yw'n awgrymu twyll nac unrhyw wariant amhriodol arall.

2.34. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd drothwy o 2% - uwchlaw'r trothwy hwnnw mae'n ei gwneud yn ofynnol i ymchwilio ymhellach i achos y gwallau. Yn 2015, sef y flwyddyn ddiwethaf y mae gennym ddata ar ei chyfer, cofnododd oddeutu 37% o raglenni ar draws yr UE gyfraddau gwallau oedd yn uwch na 2%.

2.35. Erbyn diwedd mis Mawrth 2017, bydd yr hawliadau terfynol wedi'u cyflwyno ar gyfer rhaglenni 2007 - 2013, sy'n golygu y bydd cyfanswm yr hawliadau wedi cyrraedd y cyfanswm o £1.8 biliwn a a neilltuwyd i Gymru ar ddechrau'r rownd gyllido. Mae'r cyllid hwn wedi ysgogi buddsoddiad o £3.4 biliwn i gyd, ac mae'r rhaglenni wedi rhagori ar fwyafrif eu targedau. Mae hyn yn cynnwys cyflawni

mwy na dwbl y targedau ar gyfer helpu pobl i gael gwaith, ennill cymwysterau a chreu busnesau newydd.

2.36. Mae’r gwaith o gyflawni rhaglenni 2014 - 2020 yn mynd rhagddo’n dda. Mae mwy na 65% o werth disgwyliedig y rhaglenni wedi’i glustnodi i brosiectau ledled Cymru. Mae’r prosiectau wedi’u sefydlu ac mae arian o’r cronfeydd yn llifo i Gymru. Mewn cyfarfod rhyngddynt ym mis Mawrth eleni, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd dros Bolisi Rhanbarthol a Threfol wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol mai 27% yn unig yw’r lefel ymrwymo ar draws yr UE ar gyfartaledd. Rydym yn deall bod ein rhaglenni ni ymhlith y rhai sydd fwyaf ar y blaen yn y DU.

2.37. Mae’r Comisiwn Ewropeaidd wedi derbyn yr Adroddiad Rheolaeth Blynyddol ac nid ydynt wedi gofyn am unrhyw gamau unioni. Er bod cyfradd y gwallau yn uwch nag y byddem yn ei dymuno, roedd llawer ohono o ganlyniad i newid yn null yr archwilwyr o allosod gwallau a ganfuwyd yn y sampl, ac ni nodwyd unrhyw faterion gwaelodol arwyddocaol.

2.38. Gyda chyngor gan y Cynulliad Cenedlaethol, Swyddfa Archwilio Cymru, y Pwyllgor Monitro Rhaglen a noddwyr y prosiect, aeth WEFO ati i adolygu pob un o’i phrosesau rheoli grantiau yn barod ar gyfer rownd gyllido 2014 – 2020. Ym mis Rhagfyr 2014, llwyddodd Cymru i fod yr Awdurdod Rheoli cyntaf yn y DU i ddechrau cymeradwyo prosiectau yn rownd gyllido 2014 – 2020, ac mae wedi parhau i fod ar gam cymharol uwch o weithredu’r rhaglen ers hynny.

2.39. Yn ystod 2015/16, adolygodd WEFO ei holl weithdrefnau monitro a rheoli, gan gynhyrchu fersiwn diwygiedig o’i Ddatganiad Rheoli a Rheoleiddio (MCS). Mae’r ddogfen ffurfiol hon yn nodi’r holl reolaethau y bydd WEFO yn eu cymhwyso i sicrhau bod grantiau a delir ond yn cael eu gwneud i gefnogi gwariant cymwys a’u gwario ar gyflawni’r allbynnau cytunedig, a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.

2.40. Seiliwyd yr MCS ar gyfer y rownd gyllido newydd i raddau helaeth ar fframwaith rheolaeth 2007 – 2013. Roedd hyn yn cydnabod yr argymhelliad yn adroddiad Dr Guilford y dylem gadw’r hyn sy’n gweithio’n dda. Mae hefyd yn adlewyrchu’r gwelliannau a wnaed yn ystod y rownd ddiwethaf a chadernid y fframwaith sydd bellach ar waith. Gwnaed rhai addasiadau i adlewyrchu’r newidiadau yn rheoliadau’r UE, ac mae WEFO wedi sicrhau bod y cam o brofi’r eitemau allweddol yn digwydd cyn gynted ag y bo modd, er mwyn nodi problemau posibl yn ystod oes pob prosiect.

2.41. Mae EFAT wedi adolygu a chymeradwyo’r ddogfen; talwyd sylw i nifer o’r gwelliannau a awgrymwyd ganddynt yn ystod y broses honno. Hwn oedd cam olaf “Dynodi” WEFO yn ffurfiol yn Awdurdod Rheoli ar gyfer Cymru, gan

ganiatáu i geisiadau gael eu gwneud i'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cyllid 2014 - 2020. Mae archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd wedi adolygu'r MCS hefyd ac ni chodwyd unrhyw faterion. Unwaith eto, mae Cymru gryn dipyn ar y blaen i Awdurdodau Rheoli eraill yn y DU yn hyn o beth.

## ADRAN 3: CYLLID

Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar y cyllid cyffredinol a manylion am y grantiau i'r sectorau amrywiol ledled Cymru. Mae'r cyllid a ddaw yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnwys yn adran (i), a chan WEFO yn (ii).

### (i) Cyllid gan Lywodraeth Cymru

3.0. Gwnaed rhagor o waith yn ystod y 12 mis diwethaf ar wella cywirdeb adrodd data ar grantiau. Yn bwysig iawn, mae hyn wedi cynnwys gwaith ar alinio'r codau enwol, sef y codau lefel uchel hynny sy'n disgrifio'r hyn y caiff arian Llywodraeth Cymru ei wario arno megis Grantiau i Awdurdodau Lleol, ag allweddi diwydiant.

3.1. Datblygwyd y system o 'allweddi diwydiant' er mwyn gallu nodi'r cyllid i wahanol sectorau, yn dilyn pryder am ddiffyg eglurder o ran y gallu i ddarparu darlun clir o'r cyllid i'r Trydydd Sector.

3.2. Mae Ffigur 1 yn dangos cyfanswm y grantiau a ddarparwyd gydol y pedair blynedd ariannol ddiwethaf. Mae'r ffigurau hyn yn deillio o grantiau wedi'u neilltuo a grantiau heb eu neilltuo, ac yn dangos gostyngiad o 1% yn y cyllid oddi ar 2014/15, ond yn mynd yn ôl i'r un ffigur â 2013/14.

**Ffigur 1: Cyfanswm Cyllid Grant Llywodraeth Cymru yn ôl Blwyddyn Ariannol**

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | % Newid 2014/15 i 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Grant a ddarparwyd (£bn)** | 13.2 | 13.6 | 13.7 | 13.6 | -1% |

**Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru**

3.3. Mae cyfanswm o 418 o gynlluniau grant wedi gwneud cynigion newydd yn ystod 2015/16, gyda 354 o'r rhain yn grantiau wedi'u neilltuo a 64 ohonynt heb eu neilltuo. Mewn cymhariaeth, noda'r wybodaeth am grantiau a gyhoeddwyd yn 2014/15 fod oddeutu 375 ohonynt wedi'u neilltuo a 71 arall heb eu neilltuo.

3.4. Mae Ffigur 2 yn dangos lefelau'r cyllid grant wedi'u neilltuo a ddarparwyd i bob sector (ar sail allweddi diwydiant) yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf:

**Ffigur 2: Cyllid Grant wedi'i neilltuo yn ôl Sector a Blwyddyn Ariannol**

| Cyllid wedi'i neilltuo - £m | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 1,339 | 1,327 | 1,339 |
| Y GIG | 22 | 11 | 14 |
| Y Llywodraeth Ganolog a Chorfforaethau Cyhoeddus | 48 | 43 | 37 |
| Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 19 | 42 | 53 |
| Cyllid i Addysg | 489 | 412 | 448 |
| Y Sector Preifat | 524 | 614 | 676 |
| Y Trydydd Sector | 240 | 208 | 248 |

**Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru**

**(ii) Cyllid gan WEFO**

3.5. Mae'r adran hon yn ymdrin â chyllid a ddarparwyd yn uniongyrchol i sefydliadau gan WEFO. Erbyn dechrau 2015/16, roedd y gwaith o gymeradwyo prosiectau ar gyfer rownd gyllido 2014 – 2020 wedi hen ddechrau, gyda'r pwyslais pennaf ar y prosiectau allweddol a fydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r allbynnau yr ydym wedi ymrwymo i'w cyflawni yn y Rhaglenni Gweithredol y cytunwyd arnynt â'r Comisiwn Ewropeaidd.

**Ffigur 3: Gwariant Grant UE yn ôl sector ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16**

| Sector | £m |
|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 41.1 |
| Addysg Bellach ac Uwch | 35.6 |
| Preifat | 2.2 |
| Cyhoeddus Arall | 2.1 |
| Trydydd | 6.5 |
| Llywodraeth Cymru | 184.4 |
| **Cyfanswm** | **271.9** |

**Ffynhonnell: WEFO 5/8/16**

3.6. Mae'n bwysig cofio mai taliadau i'r sectorau fel arfer yw'r cam cyntaf ctbdosbarthu'r cyllid i sectorau eraill (gan gynnwys y sector preifat), oherwydd y set o sgiliau sydd eu hangen a'r ffaith bod cyrff a gynhwysir trwy gaffael yn hytrach nag fel noddwyr yn cael gwneud elw fel rhan o'u hymgysylltiad â'r prosiect.

## ADRAN 4: Y CAMAU NESAF AR GYFER RHEOLI GRANTIAU

### (i) Llywodraeth Cymru

4.0. Ers symud i'r Adran Gyllid ar ddechrau 2016, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi canolbwyntio ar annog gwelliannau mewn arferion da a symleiddio prosesau.

4.1. Bydd y pwyslais hwn yn parhau, gan roi sylw penodol i resymoli cynlluniau grant ymhellach er mwyn hybu effeithlonrwydd a chysondeb o ran prosesau.

4.2. Yn ystod 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiad o'r manteision y gellid ei sicrhau trwy symud at ddefnyddio 'dull cydwasanaethau' o gyflawni agweddau trafodiadol ar weinyddu grantiau. Er bod manteision sylweddol yn bosibl o ran effeithlonrwydd y broses a rhannu gwybodaeth, dangosodd yr asesiad hwn, o ystyried nifer a gwerth arwyddocaol y grantiau ar draws Llywodraeth Cymru, fod dull graddol yn golygu bod modd lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid mor sylweddol yn y ffordd y caiff grantiau eu rheoli. Felly, bydd y pwyslais cychwynnol yn cael ei roi ar ddatblygu arbenigedd ymhlith nifer llai a mwy penodol o staff o fewn grwpiau unigol. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn rhan annatod o'r gwaith hwn, gan sicrhau dull cyson ar draws yr holl sefydliad. Yn yr adroddiad nesaf darperir diweddariad pellach ar yr amserlen bontio tuag at drefn lle bydd un tîm gweinyddu grantiau ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

4.3. Er mwyn symleiddio'r gwaith o gysoni'r wybodaeth ariannol a hwyluso'r gwaith o groesgyfeirio data, y bwriad o 2017 ymlaen yw bod yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau yn digwydd yr un pryd â chyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Llywodraeth Cymru. Gan gymryd fod hyn yn dderbyniol i'r pwyllgor, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diweddariad i'r adroddiad cyfredol; a fydd yn cynnwys newidiadau i adran 3 – cyllid, yn bennaf, ac yn cyhoeddi'r adroddiad llawn nesaf ym mis Gorffennaf 2018.

### (ii) WEFO: Brexit a'r Camau Nesaf ar gyfer Rheoli Grantiau

4.4. Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn a oedd yn amlinellu buddiannau a blaenoriaethau strategol allweddol Cymru wrth i'r DU baratoi i adael yr UE. Mae hefyd yn disgrifio'r prif faterion a nodwyd fel rhai hanfodol i Gymru, gan gynnwys Cyllid a Buddsoddi yn y dyfodol.

4.5. Mae cyllid yr UE yn bwysig aruthrol i Gymru o ran hybu twf economaidd a swyddi; mae hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ennill adnoddau ychwanegol gan ffynonellau cyhoeddus a phreifat. Mae Llywodraeth Cymru, felly, yn ymrwymedig i sicrhau bod y cyllid newydd a geir gan ffynonellau o'r

DU yn adlewyrchu'r cyllid presennol gan yr UE ar gyfer datblygiad economaidd rhanbarthol yng Nghymru, amaethyddiaeth a chefn gwlad.

4.6. Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod Cymru yn manteisio i'r eithaf ar gyllid yr UE tra ei fod ar gael. Bydd WEFO yn gweithio'n agos â noddwyr, yn awr ac yn ystod y blynyddoedd nesaf, i sicrhau bod prosiectau yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad a bod pontio llyfn yn digwydd i ba bynnag drefniadau cyllido amgen a sicrheir maes o law.

4.7. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i bawb sy'n ymwneud â phrosiectau a ariennir gan yr UE sylweddoli bod yr holl ofynion arferol ar gyfer prosiectau a reolir yn effeithiol yn parhau i fod ar waith. Bydd sicrhau nad yw pobl yn colli golwg ar hyn yn rhan fawr o'n gwaith.

4.8. Rhagwelir y bydd mwy o waith craffu o bosibl ar ein rhaglenni gan y Comisiwn Ewropeaidd yn y blynyddoedd i ddod gan fod y posibilrwydd o Brydain yn gadael yr UE yn sicr o godi risgiau o'u safbwynt hwy. Mae WEFO yn hyderus fod ei reolaethau'n gadarn ac na fyddai mwy o ymweliadau archwilio yn fygythiad i'r rhaglen gyffredinol.

4.9. Wrth inni gychwyn ar gyfnod o bontio i ba bynnag drefniadau a ddaw, mae WEFO yn cynnig tîm profiadol o reolwyr rhaglenni a phrosiectau sydd â hanes a phrofiad o gyflawni canlyniadau mewn amgylchedd sy'n mynnu safonau uchel cyson.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

28 Chwefror 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Steve Ashcroft, Sophie Knott, Stephen Martin a Ben Robertson oedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru, o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock. Cynorthwywyd tîm yr astudiaeth gan staff o Grant Thornton


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Adroddiad cryno 6

Crynodeb 6

Argymhellion 18

1 Mae Llywodraeth Cymru wedi torri cyllid grant i'r sector, ac er bod trefniadau dyrannu a goruchwylio cyllid yn gadarn yn gyffredinol, byddent yn elwa o ddull mwy integredig a hirdymor 20

Mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau ei gyllid grant ond wedi diogelu darpariaeth amser llawn a dysgu seiliedig ar waith 21

Ar y cyfan, mae'r sector wedi croesawu diwygiadau i'r ffordd y caiff cyllid craidd ei ddyrannu i bob coleg, ond byddai'n well ganddo weld gorwelion cyllid mwy hirdymor, ac nid yw dyraniadau yn cymryd newidiadau lleol i angen i ystyriaeth 28

Nid oes unrhyw strategaeth unedig ar gyfer y sector addysg bellach nac ar gyfer addysg ôl-16, ac er bod cydweithrediad a gweithio ar y cyd yn gadarn yn gyffredinol, mae'r berthynas rhwng colegau ac ysgolion yn peri pryder mewn rhai ardaloedd 34

Mae monitro ariannol Llywodraeth Cymru yn effeithiol ond nid oes unrhyw gyfres gyfunol o ddangosyddion i asesu perfformiad 42

Mae Llywodraeth Cymru ar gam cynnar o ran ystyried sut y bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn effeithio ar ei chyfeiriad, ei chyllid a'i throsolwg o addysg bellach 51

2 Mewn ymateb i lai o gyllid, mae colegau wedi torri darpariaeth a chostau rhan-amser, mae iechyd ariannol yn amrywio ar draws y sector ac nid yw'r effaith ar ansawdd a chanlyniadau yn eglur eto 54

Er bod colegau yn sefydlog yn ariannol yn y byrdymor, mae eu hiechyd ariannol yn amrywio, ac mae colegau yn pryderu am gostau cynyddol ac ariannu buddsoddiad cyfalaf yn yr ystâd addysg bellach 55

Mae rheolaeth ariannol yn gadarn yn gyffredinol, ond mae colegau o'r farn na fyddant yn gallu parhau i ddiogelu pobl 16 i 19 mlwydd oed os caiff rhagor o doriadau eu gwneud, os bydd cynnydd o ran datblygu incwm nad yw ar ffurf grantiau yn newidiol, ac nad yw cynllunio ariannol tymor canolig wedi ei ddatblygu'n dda 64

Bwriadwyd i achosion o uno colegau sicrhau cydnerthedd ariannol ac ansawdd y ddarpariaeth, ac er mai prin fu'r gwerthuso ffurfiol, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y manteision hynny wedi cael eu gwireddu 74

Bu gostyngiad mawr i nifer y dysgwyr, yn bennaf oherwydd toriadau i ddarpariaeth ran-amser, ac er bod y sector wedi cynnal ei berfformiad o ran dangosyddion ansawdd a chanlyniadau hyd yn hyn, nid yw effaith gostyngiadau mwy diweddar i gyllid yn eglur eto 76

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 84

Atodiad 2 – Llywodraethiad colegau addysg bellach a swyddogaeth Llywodraeth Cymru 86

Atodiad 3 – Achosion o uno colegau fesul ardal awdurdod lleol 88

Atodiad 4 – Data allweddol colegau addysg bellach 90

Atodiad 5 – Categorïau iechyd ariannol ar gyfer colegau 91

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Darpariaeth addysg a hyfforddiant ffurfiol yw addysg bellach, i bobl 16 oed a hŷn yn bennaf ond ac eithrio darpariaeth mewn prifysgolion. Mae gan y sector addysg bellach swyddogaeth arwyddocaol i'w chyflawni o ran galluogi pobl ifanc ac oedolion i wireddu eu potensial ac o ran darparu gweithlu medrus. Mewn rhai rhannau o Gymru, mae colegau addysg bellach yn darparu'r holl ddarpariaeth addysg i bobl 16 i 18 mlwydd oed. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae dosbarthiadau chwech mewn ysgolion hefyd yn cynnig addysg safon Uwch, yn ogystal â rhai cymwysterau galwedigaethol.

2 Mae mwyafrif y cymwysterau galwedigaethol a gynigir gan golegau ar lefelau 1 i 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, ond mae llawer o golegau yn cynnig cymwysterau lefel uwch hyd at lefel gradd. Mae'r Fframwaith yn dosbarthu cymwysterau o lefel mynediad (sgiliau sylfaenol) i lefel 8 (gradd ddoethurol neu radd ôl-raddedig gyfatebol). Er enghraifft, mae TGAU gradd A* i C ar lefel 2, mae safon Uwch neu safon UG ar lefel 3, mae Tystysgrif Genedlaethol Uwch ar lefel 4, mae Diploma Cenedlaethol Uwch ar lefel 5, ac mae gradd anrhydedd israddedig ar lefel 6.

3 Mae colegau addysg bellach yn gyrff ymreolaethol sydd y tu allan i'r sector cyhoeddus. Maent yn sefydliadau dielw a reoleiddir o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, a sefydlodd eu statws cyfredol gan gynyddu eu hannibyniaeth ar Lywodraeth Cymru.[1] Mae Atodiad 2 yn nodi statws a llywodraethiad colegau. Mae ColegauCymru, corff a arweinir gan aelodau, yn cynrychioli pob coleg yng Nghymru.

4 Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r fframwaith polisi cyffredinol ar gyfer addysg bellach, ac yn darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid i golegau (Ffigur 1). Mae Llywodraeth Cymru wedi gostwng lefelau cyllid i'r sector dros y pum mlynedd diwethaf. Tua £449 miliwn oedd cyfanswm incwm y sector yn 2015/16.

1 Ceir 14 o sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ar hyn o bryd: deg corfforaeth addysg bellach, sy'n elusennau wedi'u heithrio o dreth a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992; tri chwmni cyfyngedig trwy warant, sy'n rhan o sefydliadau addysg uwch; ac un sefydliad a neilltuwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru, a ailenwyd yn Addysg Oedolion Cymru yn ddiweddar, sy'n gweithredu ledled Cymru). Yn ymarferol, mae gan y sefydliadau hyn yr un swyddogaethau a lefel ymreolaeth ac rydym yn cyfeirio atynt fel colegau trwy gydol yr adroddiad hwn.

Ffigur 1 – Ffynonellau incwm y sector addysg bellach 2015/16




Sylwer: Mae 'grantiau Llywodraeth Cymru' yn cynnwys rhywfaint o gyllid cyfalaf a dalwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol sydd wedi cael ei drin fel incwm, i gyd-fynd â dibrisiant yr asedau iddo eu hariannu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol gan golegau i Lywodraeth Cymru

## Defnydd o ddata yn yr adroddiad hwn

### Esboniad o flynyddoedd academaidd ac ariannol


Rydym yn cyfeirio trwy gydol yr adroddiad hwn at wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn seiliedig ar flynyddoedd academaidd colegau, sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf, sef eu cyfnodau cyfrifyddu hefyd (a ddangosir yn y fformat '2016/17'). Mae Llywodraeth Cymru yn pennu blaenoriaethau a chyllid ar gyfer colegau ar sail y flwyddyn academaidd, ond yn cyllidebu ar gyfer ei gwariant ei hun ar sail flynyddol hyd at 31 Mawrth (a ddangosir yn y fformat '2016-17').

### Esboniad o amserlenni

Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth fwyaf cyfredol sydd ar gael trwy gydol yr adroddiad hwn. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer dyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17. Mae ein dadansoddiad ariannol o incwm y sector yn seiliedig ar ffigurau archwiliedig ar gyfer 2015/16. Mae niferoedd dysgwyr yn seiliedig ar ffigurau dros dro ar gyfer 2015/16 (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016) a ffigurau gwirioneddol ar gyfer 2015/16 (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017) yw mesurau canlyniadau.

5 Mae Llywodraeth Cymru yn monitro iechyd a pherfformiad ariannol colegau. Mae tua hanner y colegau hefyd yn destun cyfrifoldebau trosolwg Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)[2], naill ai oherwydd eu bod yn rhan o sefydliadau addysg uwch, neu oherwydd eu bod yn cynnig darpariaeth addysg uwch sy'n cael ei rheoleiddio'n uniongyrchol gan CCAUC o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru). Cyhoeddwyd adroddiad ar gyllid addysg uwch gennym ddiwedd 2013[3].

6 Yn seiliedig ar ddata dros dro, roedd tua 131,000 o ddysgwyr mewn colegau yn ystod 2015/16. O'r rhain, roedd tua 48,000 (37%) yn astudio'n amser llawn, roedd 67,000 (51%) yn astudio'n rhan-amser ac roedd 16,000 (12%) yn astudio trwy ddysgu seiliedig ar waith. Yn seiliedig ar ddata 2015/16:





7 Mae achosion o uno wedi bod yn nodwedd allweddol o'r sector addysg bellach yng Nghymru a gostyngodd nifer y colegau yng Nghymru o 25 i 14 rhwng mis Medi 2008 a mis Awst 2015 (Atodiad 3). Mae Ffigur 2 yn dangos lleoliad y prif gampws ym mhob coleg, er y gallai fod gan golegau sawl campws. Mae colegau yn gwasanaethu dalgylchoedd sy'n dilyn ffiniau awdurdodau lleol yn gyffredinol, ac eithrio Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru (Addysg Oedolion Cymru), sy'n gweithredu ar draws Cymru gyfan. Mae dysgwyr sy'n byw yng Nghymru yn rhydd i wneud cais am le ar gyrsiau mewn unrhyw goleg ac mae niferoedd sylweddol o ddysgwyr yn astudio mewn colegau gwahanol i'r un sydd fel rheol yn darparu ar gyfer eu dalgylch lleol. Mae colegau yn amrywio o ran maint a strwythur. Roedd nifer y dysgwyr yn 2015/16[4] mewn colegau unigol yn amrywio o 21,500 yng Ngrŵp Llandrillo Menai i ychydig dros 1,000 yng Ngholeg Ceredigion.

2 Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn rheoleiddio lefelau ffioedd mewn prufysgolion, yn sicrhau bod fframwaith ar waith ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch ac yn craffu ar berfformiad prifysgolion a darparwyr dynodedig eraill.
3 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Cyllid addysg uwch**, Tachwedd 2013.
4 Nid yw'n cynnwys cyrsiau addysg uwch na dysgu oedolion yn y gymuned.

Ffigur 2 – Colegau addysg bellach yng Nghymru (prif leoliadau campws)

Ar 1 Awst 2015, y 14 Coleg oedd:

1 Coleg Gwent
2 Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant
3 Coleg Caerdydd a'r Fro
4 Coleg y Cymoedd
5 Coleg Merthyr Tudful
6 Coleg Penybont
7 Grŵp Colegau NPTC
8 Coleg Gŵyr Abertawe
9 Coleg Sir Gâr
10 Coleg Sir Benfro
11 Coleg Ceredigion
12 Grŵp Llandrillo Menai
13 Coleg Cambria
14 Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru




Sylwer: ailenwyd Coleg Cymunedol WEA YMCA yn Addysg Oedolion Cymru ar 5 Tachwedd 2016.

Ffynhonnell: ColegauCymru

8 Ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio a yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei swyddogaeth drosolwg yn effeithiol er mwyn sicrhau, er gwaethaf cyfyngiadau ariannol, bod colegau addysg bellach mewn sefyllfa dda yn ariannol i fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Archwiliwyd y canlynol gennym yn benodol:

- Pa un a oes gan Lywodraeth Cymru ddull eglur ac effeithiol o bennu cyfeiriad a chyllid ar gyfer y sector, ac o oruchwylio ei sefyllfa ariannol a'i berfformiad; a
- Sut y mae colegau wedi ymateb i heriau ariannol, cydnerthedd ariannol y sector, ac effaith gostyngiadau cyllido ar golegau ac ar ganlyniadau dysgwyr.

9 Roedd ein hadolygiad yn cynnwys yr 14 coleg yng Nghymru sy'n bodoli'n benodol i ddarparu addysg bellach. Ni chafodd ysgolion sy'n cynnig addysgu chweched dosbarth, darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac eithrio colegau, na darparwyr addysg preifat eu cynnwys. Ni chynhaliwyd adolygiad manwl o drefniadau rheoli ariannol colegau unigol gennym. Penodwyd y cwmni archwilio Grant Thornton gennym i'n cynorthwyo gyda'r adolygiad. Mae Atodiad 1 yn cynnig rhagor o fanylion am gwmpas ein gwaith a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gasglu tystiolaeth.

10 Daethpwyd i'r casgliad, **er eu bod yn gyffredinol gadarn, byddai trefniadau ariannu a throsolwg Llywodraeth Cymru yn elwa o ddull mwy hirdymor a mwy integredig. Mewn ymateb i lai o gyllid, mae colegau wedi torri darpariaeth a chostau rhan-amser yn sylweddol ac maent yn ceisio datblygu eu gweithrediadau masnachol i gynyddu refeniw. Adroddodd y sector yn ei gyfanrwydd ddiffygion ym mhob un o'r tair blynedd hyd at fis Gorffennaf 2016 ar ôl sawl blwyddyn o wargedau. Mae iechyd ariannol yn amrywio ar draws y sector ond mae pwysau costau sylweddol yn parhau i golegau. Nid yw effaith llai o gyllid ar ansawdd a chanlyniadau yn eglur eto, ond mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn nodi bod y sector wedi cynnal ei berfformiad hyd yn hyn.**

## Mae Llywodraeth Cymru wedi torri cyllid grant ar gyfer y sector, ac er bod trefniadau dyrannu a goruchwylio cyllid yn gadarn yn gyffredinol, byddent yn elwa o ddull mwy integredig a hirdymor

11 Mae Llywodraeth Cymru wedi torri cyllid grant refeniw ar gyfer y sector o £22 miliwn rhwng 2011/12 a 2016/17, gostyngiad o 7% mewn termau arian parod a 13% mewn termau real. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer darpariaeth amser llawn wedi cynyddu 3% mewn termau real tra bod cyllid ar gyfer cyrsiau rhan-amser wedi gostwng 71%, gan adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu ei dyletswydd statudol i wneud darpariaeth resymol ddigonol ar gyfer pobl 16-19 mlwydd oed.[5] Mae cyllid ar gyfer dysgu seiliedig ar waith (prentisiaethau a hyfforddeiaethau) wedi cael ei gynnal hefyd. Mae Llywodraethau'r DU a'r Alban wedi dilyn dulliau tebyg i ariannu addysg bellach yn y blynyddoedd diwethaf.

5 Ysgogwyd y penderfyniad i leihau cyllid ar gyfer colegau addysg bellach rhwng 2013/14 a 2015/16 gan leihad i'r grant bloc gan Lywodraeth y DU ac mae'n cynyddu'r cyllid sydd ar gael i'r GIG yng Nghymru.

12 Mewn ymateb i'r pwysau ar gyllid cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i gyflogwyr gael mwy o ddylanwad ar y ddarpariaeth o sgiliau a chymryd mwy o gyfran o'r costau. Fodd bynnag, mae gan Ardoll Brentisiaethau newydd Llywodraeth y DU oblygiadau pwysig i'r polisi 'cyd-fuddsoddi' hwn.

13 Nid yw Llywodraeth Cymru yn gweithredu cyllideb gyfalaf benodol ar gyfer y sector, ond gall colegau wneud cais am gyllid trwy'r Rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Targedwyd y rhaglen ar gyfer ysgolion, ond mae pump o golegau wedi sicrhau £38 miliwn o gyllid ar gyfer prosiectau seilwaith. Darparodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn ar gyfer prosiectau cyfalaf graddfa fach yn gynharach yn 2016-17 hefyd, ar ôl i gyllid ddod ar gael ar fyr-rybudd. Croesawyd y cyllid ychwanegol hwn gan golegau, ond mae'r byr-rybudd a therfyn amser gwario Mawrth 2017 wedi cyfyngu'r mathau o brosiectau y gellid eu darparu.

14 Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddiwygiadau sylweddol i'r fframwaith ariannu ar gyfer addysg ôl-16 yn 2014/15. Nid yw cyllid craidd yn cael ei ddyrannu ar sail unedau bach o weithgarwch mwyach, a oedd yn caniatáu i golegau ymrestru disgyblion ar gyrsiau atodol i gynhyrchu incwm ychwanegol. Mae'r fframwaith newydd yn neilltuo gwerth penodol i raglen ddysgu gyflawn ar gyfer pob dysgwr, sydd â'r bwriad o ddarparu pecyn cynhwysfawr o gymorth. Mae colegau yn derbyn dyraniad blynyddol sefydlog y maent yn ei dynnu i lawr yn ôl gwerth y rhaglennu dysgu y maent yn eu darparu.[6] Y consensws cyffredinol oedd bod y diwygiadau hyn wedi symleiddio a gwella cyllid, wedi creu pwyslais cryfach ar anghenion dysgwyr ac wedi osgoi darpariaeth ddiangen gan gynnig rhywfaint o sicrwydd i golegau. Fodd bynnag, nid yw'r dull presennol yn caniatáu i newidiadau lleol i angen - o ganlyniad i newid demograffig, er enghraifft - gael eu hadlewyrchu mewn dyraniadau cyllid, a byddai'n well gan y sector gorwelion ariannu mwy hirdymor.

15 Nid oes un strategaeth unedig ar gyfer addysg bellach nac ar gyfer addysg ôl-16 yn gyffredinol, a daw'r cyfeiriad polisi o dair prif strategaeth.[7] Daeth adolygiad 'Hazelkorn' o drefniadau trosolwg ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru i'r casgliad bod diffyg gweledigaeth gyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer system, ac roedd diffyg meddwl strategol a gweithio ar y cyd rhwng cyrff cyhoeddus.[8] Argymhellodd yr adroddiad y dylid sefydlu un corff cyhoeddus ymreolaethol i oruchwylio'r system gyfan, wedi'i ategu gan weledigaeth gyffredin wedi'i phennu gan lywodraeth yn pwysleisio cysylltiadau agosach rhwng polisi, darparwyr a nodau cymdeithasol ac economaidd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017 y byddai'n ymgynghori ar sefydlu awdurdod strategol hyd braich newydd i oruchwylio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

6 Ceir ymgodiadau ar gyfer ardaloedd o amddifadedd ac ardaloedd gwledig lle mae'r gost ddarparu yn uwch (er i ddau goleg gwledig ein hysbysu bod hyn yn annigonnol i dalu'r gost ychwanegol).
7 Llywodraeth Cymru, **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** (2013), **Datganiad Polisi ar Sgiliau** (2014) a **Cymwys am Oes** (2014)
8 Yr Athro Ellen Hazelkorn (ar ran Llywodraeth Cymru), **Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru**, Mawrth 2016

16 Mae gan golegau berthynas dda gyda swyddogion yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am oruchwylio'r sector, wedi'u cynorthwyo gan faint bach y sector yng Nghymru a pharhad staff yn Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o golegau hefyd yn darparu rhywfaint o addysg uwch, ac mae cysylltiadau â phrifysgolion yn gyffredinol dda hefyd, er bod rhai pryderon am gystadleuaeth am gyrsiau galwedigaethol lefel uwch.

17 Roedd y berthynas ag ysgolion yn fwy amrywiol. Roedd enghreifftiau o gydweithio da ar lefel leol, ond adroddwyd perthynas anodd gan golegau gyda rhai ysgolion. Mae'r sector o'r farn bod dosbarthiadau chwech mwy neu ddarpariaeth mewn colegau addysg bellach (model 'trydyddol') yn cynnig mwy o effeithlonrwydd, mwy o ddewis pynciau i ddysgwyr, ansawdd addysgu gwell a gwell canlyniadau yn y pen draw. Dywedodd colegau wrthym hefyd bod cyfuno o'r fath yn lleihau'r risg o ddosbarthiadau chwech yn derbyn croes-gymhorthdal gan addysgu cyn-16 ysgol. Fodd bynnag, canfu adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ddiffyg tystiolaeth gadarn nad oedd dosbarthiadau chwech yn hyfyw, ac nad mabwysiadu model trydyddol ledled Cymru oedd yr opsiwn mwyaf ymarferol, ond yn hytrach datblygu atebion wedi'u teilwra'n lleol. Ni chanfu gwaith ymchwil dilynol a gyhoeddwyd yn 2016 unrhyw berthynas rhwng maint chweched dosbarth ysgol a chanlyniadau safon Uwch, ac eithrio cysylltiad eglur rhwng dosbarthiadau chwech mwy a gwell cyflawniad o ran y graddau uchaf (tair gradd A* i A).

18 Mae Llywodraeth Cymru yn pennu canllawiau blynyddol eglur ar ffurf llythyr cylch gwaith i bob coleg gan y Gweinidog perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau wedi'u gwreiddio mewn strategaeth sector hirdymor ac mae blaenoriaethau wedi amrywio i ryw raddau o flwyddyn i flwyddyn, a chyflwynodd llythyr 2016/17 lawer o ofynion newydd, yr oedd colegau o'r farn ei bod yn anodd eu cynnwys yn eu cynlluniau cyflawni ac nad oeddent yn gwneud 'blaenoriaethau gwirioneddol' yn ddigon eglur. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r pryderon hyn trwy gyflwyno llythyr cylch gwaith â mwy o bwyslais ar gyfer 2017/18. Roedd gan golegau rai pryderon hefyd am agweddau penodol ar y canllawiau, ac yn benodol, y pwyslais ar fabwysiadu Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol, y gost o gymhwyso polisi Llywodraeth Cymru o ailsefyll gorfodol TGAU mewn Mathemateg a Saesneg ar gyfer dysgwyr penodol, a mwy o bwyslais ar sgiliau lefel uwch.

19 Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau effeithiol i fonitro iechyd ariannol y sector. Mae colegau yn cwblhau datganiadau ariannol manwl dair gwaith y flwyddyn, a rhoddir gradd Ai D ar gyfer iechyd ariannol colegau wedyn (Atodiad 5). Mae'n ofynnol i golegau yng nghategorïau C a D baratoi cynllun adfer sy'n cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ragolygon blynyddol ar gyfer blwyddyn i'r dyfodol yn unig, ond mae wedi ymestyn hyn i dair blynedd yn ddiweddar, a ddylai gefnogi asesiad hirdymor o gydnerthedd ariannol. Roedd rhai colegau eisoes wedi bod yn paratoi rhagolygon tymor hirach, fel rheol i gyfrannu at y rhagolygon tymor hirach y mae CCAUC yn gofyn amdanynt gan brifysgolion (sy'n berchen ar rai colegau addysg bellach yng Nghymru).

20 Mae swyddogion yn monitro cynnydd yn erbyn cynllun cyflawni blynyddol a gytunwyd pob coleg yn barhaus, ac yn cyhoeddi ystadegau ar gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant y dysgwyr yn flynyddol. Cynhaliwyd arolygon barn dysgwyr ar draws y sector bob blwyddyn rhwng 2013 a 2015, ac mae gwaith arolygu Estyn ac adroddiadau hunanasesu'r colegau eu hunain yn cynnig gwybodaeth ychwanegol am ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn cyfuno'r data sydd ar gael fel set gyflawn o ddangosyddion perfformiad. Mae'n ofynnol i golegau yn Lloegr a'r Alban, a phrifysgolion yng Nghymru, adrodd yn erbyn amrywiaeth eangach o dargedau a dangosyddion perfformiad i'w cyrff ariannu a goruchwylio priodol.

21 Mae swyddogion yn cynnig camau amrywiol i gryfhau'r broses monitro canlyniadau. Bydd mesurau newydd o gadw a chyrhaeddiad dysgwyr (gan gynnwys graddau pan fo hynny'n briodol) yn galluogi cymariaethau gyda dosbarthiadau chwech mewn ysgolion am y tro cyntaf. Mae mesur gwerth ychwanegol addysgol newydd yn cael ei ddatblygu, ac mae swyddogion yn gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i baru Llywodraeth Cymru gyda data cyflogaeth ac enillion, fel y gellir olrhain lle mae dysgwyr yn mynd yn y pen draw a defnyddio'r wybodaeth i hysbysu'r gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth.

22 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllawiau eglur ar atebolrwydd drwy'r Memorandwm Ariannol ar gyfer colegau ac wedi cynorthwyo ColegauCymru i ddatblygu ei god llywodraethu ei hun ar gyfer y sector. Mae swyddogion yn dibynnu ar adolygiadau o gyfrifon blynyddol colegau ac adroddiadau swyddogol eraill i nodi unrhyw broblemau llywodraethu mawr. Mae CCAUC yn cynnal adolygiad risg mwy trylwyr ar gyfer sefydliadau addysg uwch, ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu ei adolygiad sefydliadol ei hun bellach, a fydd yn dod â'r wybodaeth sydd ar gael am iechyd ariannol, canlyniadau, ansawdd, ystadau ac unrhyw faterion pwysig eraill ynghyd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ac ymgynghori i gynorthwyo'r sector.

23 Mae Llywodraeth Cymru ar gam cynnar o ran ystyried sut y bydd y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn effeithio ar ei chyfarwyddyd, ei chyllid a'i throsolwg o addysg bellach. Nid yw Colegau wedi'u rhwymo o dan y Ddeddf, ond mae ColegauCymru wedi comisiynu prosiect ymchwil ar arfer datblygu cynaliadwy cyfredol y sector a goblygiadau'r Ddeddf.

## Mewn ymateb i lai o gyllid, mae colegau wedi torri darpariaeth a chostau rhan-amser, mae iechyd ariannol yn amrywio ar draws y sector ac nid yw'r effaith ar ansawdd a chanlyniadau yn eglur eto

24 Er bod colegau yn sefydlog yn ariannol yn y byrdymor, mae eu hiechyd ariannol yn amrywio ac mae'r gostyngiadau i gyllid Llywodraeth Cymru ers 2011/12 wedi arwain at rywfaint o ddirywiad i sefyllfa ariannol y sector. Mae incwm wedi gostwng tua 11% mewn termau real a chofnodwyd diffygion gweithredu ym mhob un o'r tair blynedd hyd at fis Gorffennaf 2016, tra bod cyfraniadau a diffygion pensiwn cynyddol yn debygol o leihau gwargedau net a adroddir o 2016/17. Mae cynnydd mawr mewn diffygion pensiwn yn 2015/16 yn dilyn gwerthusiad actiwaraidd yn golygu bod gan dri choleg gronfeydd wrth gefn negyddol bellach, ac mae'r holl golegau yn wynebu cyfraniadau pensiwn cynyddol o fis Ebrill 2017. Serch hynny, mae'r sector wedi dangos cydnerthedd, gan gynnal cronfeydd arian parod wrth gefn a hylifedd a chynhyrchu gwargedau sylfaenol (cyn addasu ar gyfer costau ailstrwythuro unigol ac ailbrisio pensiynau) bob blwyddyn. Mae gan ddau goleg gynlluniau adfer i roi sylw i bryderon penodol, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod o'r farn eu bod mewn perygl ariannol.

25 Mae ansawdd yr ystâd addysg bellach yn amrywio'n sylweddol ac mae colegau o'r farn bod buddsoddiad cyfalaf yn risg busnes allweddol. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod tua 29% o'r ystâd mewn cyflwr gwael neu ofnadwy, ac amcangyfrifodd colegau y byddai'n costio tua £192 miliwn i adfer yr ystâd gyfan i gyflwr da. Roedd y colegau'n pryderu bod lefelau cyllid presennol yn annigonol i ddisodli seilwaith sy'n heneiddio a chadw'r ystâd mewn cyflwr da. Yn gyffredinol, mae cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi gwariant cyfalaf y sector wedi gostwng o gyfartaledd o £34 miliwn y flwyddyn yn y ddwy flynedd hyd at fis Gorffennaf 2011 i £17 miliwn y flwyddyn yn ystod y cyfnod pum mlynedd dilynol, ac mae colegau wedi dibynnu'n gynyddol ar eu cronfeydd wrth gefn ac ar fenthyg allanol i ariannu buddsoddiad cyfalaf. Gall rhai colegau werthu safleoedd nad oes eu hangen arnynt neu fenthyg i ariannu buddsoddiad, ond nid oes gan lawer ddiogelwch ac incwm digonol i fenthyg ar raddfa sylweddol, yn enwedig o ystyried y cynnydd diweddar mewn diffygion pensiwn.

26 Mae rheolaeth ariannol mewn colegau yn gadarn yn gyffredinol gydag adrodd rheolaidd a gwybodaeth ariannol o ansawdd rhesymol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio ariannol tymor canolig wedi ei ddatblygu'n dda, ac mae colegau yn cyfeirio at ansicrwydd ynghylch ffrydiau incwm fel rheswm am beidio â gwneud mwy i fodelu senarios a chynllunio cyllid dros y tymor hwy.

27 Mae colegau wedi ymateb yn effeithiol i setliadau ariannu llai trwy dorri costau a newid y ddarpariaeth o gyrsiau, ond maent o'r farn bod ganddynt gwmpas cyfyngedig i wneud arbedion pellach heb dorri darpariaeth i'r grŵp oedran 16 i 19 oed. Mae pwysau am i fyny ar gostau wedi niwtraleiddio enillion arbedion yn rhannol. Yn fwyaf nodedig yn hyn o beth yw cynnydd i gyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn cyflogwr, a hawliau cytundebol o dan y Contract Cyflogaeth Cyffredin. Mae toriadau i wariant wedi arwain at ostyngiadau mawr yn y gweithlu a chyfrifoldebau ehangach neu wahanol i lawer o'r staff sy'n weddill. Gostyngodd cyfanswm y staff cyfwerth ag amser llawn 16.9% rhwng 2012/13 a 2015/16, gan gynnwys gostyngiad o 11.5% mewn swyddi addysgu.

28 Nid yw'r sector yn ei gyfanrwydd wedi gallu disodli incwm grant is Llywodraeth Cymru gydag incwm o ffynonellau eraill. Mae incwm net o gontractau dysgu seiliedig ar waith wedi cynyddu rhyw fymryn, ond mae incwm o ffioedd dysgu, grantiau eraill a chontractau hyfforddi gyda chyrff sector cyhoeddus eraill wedi dirywio'n sylweddol gyda'r dirywiad i niferoedd dysgwyr rhan-amser a gostyngiadau i gyllidebau sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae sawl coleg wedi sefydlu timau datblygu busnes i ddatblygu incwm masnachol newydd, ac mae incwm o'r ffynonellau hyn wedi cynyddu'n sylweddol o sail isel. Colegau mewn dinasoedd ac ardaloedd â chyflogwyr mawr ag anghenion hyfforddi arbenigol sydd yn y sefyllfa orau i fanteisio ar gyfleoedd masnachol.

29 Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) wedi bod yn ffynhonnell sylweddol o incwm ar gyfer y sector a rhagamcannir y bydd yn cynyddu dros y tair blynedd nesaf, ond byddai'n dod i ben pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth y DU wedi gwarantu arian ar gyfer yr holl brosiectau a gymeradwywyd cyn y dyddiad tynnu allan, ond mae cwmpas a swm unrhyw gyllid amgen yn ansicr yn anorfod ar hyn o bryd.

30 Bwriadwyd i achosion o uno sicrhau cydnerthedd ariannol ac ansawdd y ddarpariaeth, ac er mai prin fu'r gwerthuso ffurfiol, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y manteision hyn wedi cael eu gwireddu. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at welliant i gydnerthedd ariannol, yn enwedig i golegau bach sy'n uno gyda rhai mwy. Mae colegau wedi gallu sicrhau rhai arbedion effeithlonrwydd trwy gyfuno cyrsiau a champysau, a rhannu gwasanaethau canolog. Cyfeiriodd colegau a unodd â phrifysgolion at welliant i symudiad myfyrwyr i addysg uwch fel mantais, ond hysbyswyd manteision ariannol mwy cyfyngedig ganddynt.

31 Bu gostyngiad sydyn i niferoedd myfyrwyr ers 2010/11 o ganlyniad i ostyngiadau cyllid Llywodraeth Cymru. Mae nifer y dysgwyr amser llawn wedi cynyddu rhyw fymryn, ond mae nifer y dysgwyr rhan-amser wedi gostwng 47%. Mae colegau hefyd wedi tynnu llawer o gyrsiau rhan-amser yn ôl ac mae cyrsiau amser llawn wedi cael eu tynnu'n ôl hefyd mewn rhai achosion, neu wedi cael eu cyfyngu i nifer fach o gampysau i arbed arian. Mae hyn wedi bod yn arbennig o anodd mewn ardaloedd gwledig lle mae'r amseroedd teithio rhwng campysau yn sylweddol.

32 Amlygodd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb gan Lywodraeth Cymru effaith negyddol debygol cyfyngiadau ariannu ar bobl dros 18 oed (sy'n astudio'n rhan-amser yn bennaf) a menywod. Amlygodd colegau hefyd yr effaith ar oedolion ar incymau is, yn enwedig menywod, sy'n fwy tebygol o astudio'n rhan-amser mewn lleoliadau cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu sawl prosiect a ariennir gan yr UE i helpu grwpiau difreintiedig i gael mynediad at y farchnad lafur, ond mae i ba raddau y mae'r prosiectau hyn yn cymryd lle cyllid a gollwyd ar gyfer darpariaeth ran-amser yn aneglur.

33 Mae'r sector wedi cynnal ei berfformiad o ran dangosyddion ansawdd a chanlyniadau dros y tair blynedd hyd at 2014/15. Nododd arolygon lleisiau dysgwyr yn 2013, 2014 a 2015 bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn parhau i ddweud bod agweddau allweddol ar eu haddysg a'u profiad dysgu cyffredinol yn 'dda' neu'n 'dda iawn', ac roedd cyfraddau fwy neu lai yr un fath dros y cyfnod. Mae canlyniadau dysgwyr (ar ffurf cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a chwblhau'n llwyddiannus) wedi gwella rhyw fymryn dros y cyfnod, gan barhau tueddiad am i fyny sy'n amlwg ers 2006/07. Mae Estyn yn adrodd hanes cryf o ran ansawdd yn y tri choleg y mae wedi eu harolygu yn 2015 a 2016. Mae'r canlyniadau hyn yn galonogol, ond mae'n debyg ei bod yn rhy gynnar i werthuso effaith y gostyngiad cyllid ar safonau a chanlyniadau yn llawn. Mae'r sector wedi dechrau nodi opsiynau, trwy'r rhaglen Datrysiadau Creadigol, ar gyfer darparu gwasanaethau yn fwy effeithlon gan gynnal ansawdd a hybu amcanion Llywodraeth Cymru o gynyddu sgiliau'r gweithlu. Mae'r rhagolwg ariannol yn dal i fod yn ansicr a bydd angen i golegau gynnal y dull rhagweithiol hwn i wynebu'r prif heriau sydd i ddod (gweler isod).

| Rhai heriau allweddol sy'n wynebu'r sector addysg bellach yng Nghymru | |
|---|---|
| **Galw sy'n newid** | • **Nifer y bobl 16 i 18 mlwydd oed yn gostwng**: mae'r galw am addysg bellach amser llawn yn y grŵp craidd hwn – prif gynheiliaid gwasanaethau a chyllid colegau – yn debygol o ostwng, a bydd yn gostwng mewn rhai colegau mwy nag eraill.<br>• **Y farchnad lafur sy'n newid**: mae'r galw lleol am addysg a sgiliau yn newid yn barhaus mewn ymateb i dueddiadau demograffig, amodau economaidd a newid technolegol, ymhlith ffactorau eraill.<br>• **Polisi sy'n esblygu**: mae angen i'r sector addasu i ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno Bagloriaeth Cymru, y pwyslais ar lythrennedd a rhifedd a'r pwyslais ar gymwysterau lefel uwch. |
| **Cyfyngiadau ariannol parhaus** | • **Effeithlonrwydd cost**: mae'r rhagolwg o ran cyllid Llywodraeth Cymru a chyllid Ewropeaidd yn ansicr ac mae angen i golegau gynllunio ar gyfer yr ansicrwydd hwn ac ar gyfer cyfyngiadau ariannol parhaus. Ceir pwysau am i fyny ar gostau, mae llawer o'r ystad mewn cyflwr gwael a bydd arbedion cost yn y dyfodol yn dod yn gynyddol anodd heb dorri'r ddarpariaeth. Bydd llawer o'r opsiynau ar gyfer lleihau costau, fel mwy o ddefnydd o e-ddysgu neu leihau gofynion achrediad ffurfiol, yn golygu newidiadau polisi neu fuddsoddiad ymlaen llaw.<br>• **Cynnal ansawdd**: roedd colegau wedi cynnal neu wella ansawdd eu darpariaeth hyd at 2015 ond mae angen iddynt gynnal yr hanes hwn yn wyneb cyllidebau is a gofynion ar eu gwasanaethau sy'n newid.<br>• **Datblygu ffynonellau incwm eraill**: mae pob coleg yn ceisio cynyddu eu refeniw i wneud iawn am y gostyngiad i gyllid sector cyhoeddus. Mae cyfleoedd yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru a bu cynnydd cymysg hyd yn hyn. |
| **Pennu cyfeiriad strategol eglur** | • **Gweledigaeth a throsolwg**: mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei hymateb i Adolygiad Hazelkorn, sy'n argymell dull mwy integredig o ymdrin ag addysg ôl-16 gydag un weledigaeth a chorff trosolwg.<br>• **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**: er nad yw colegau wedi'u rhwymo o dan y Ddeddf, mae'r ymateb i Adolygiad Hazelkorn yn cynnig cyfle i ail-bennu polisi a chanllawiau yng nghyd-destun strategaeth fwy hirdymor ar gyfer y sector, a chyda chysylltiadau priodol i amcanion polisi yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.<br>• **Cydweithrediad**: mae angen i'r sector weithio gyda chyflogwyr, ysgolion ac awdurdodau lleol ymhlith eraill i gynllunio ei ddarpariaeth a darparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bydd angen gwella'r berthynas gydag ysgolion yn benodol mewn rhai ardaloedd. |

## Argymhellion

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Financial planning** | |
| A1 | Bwriadwyd i system cyllid refeniw ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ddarparu setliadau ariannol tair blynedd ar gyfer colegau (gyda'r ddwy flynedd olaf yn ddyraniadau dangosol yn unig) i gynorthwyo cynllunio ariannol. Fodd bynnag, mae'r angen i dorri'r gyllideb ar fyr-rybudd yn 2013 wedi arwain at wneud dyraniadau cyllid refeniw flwyddyn yn unig ymlaen llaw. Mae gorwelion ariannol mor fyr, ynghyd â newidiadau na ellid eu rhagweld i gyllid refeniw, wedi ei gwneud yn anoddach i golegau gynllunio'n effeithiol. **Er ein bod yn cydnabod yr ansicrwydd sy'n wynebu refeniw Llywodraeth Cymru ei hun, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailgyflwyno setliadau ariannu tair blynedd cyn gynted â phosibl i gynorthwyo colegau gyda'u cynllunio ariannol.** |
| A2 | Croesawodd colegau gyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mân-wariant cyfalaf yn 2016/17, ond roeddent yn nodi iddo gael ei gynnig yn unol ag amserlen amhriodol o dynn i geisiadau gael eu paratoi ac i brosiectau a gymeradwywyd gael eu darparu; ac o ganlyniad, dim ond prosiectau syml ellid eu cynnig. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried, yn rhan o'i phroses adolygu sefydliadol, mewn sefyllfa pa mor dda y mae colegau i ymateb os bydd cyllid cyfalaf yn dod ar gael o fewn amserlenni tynn.** |
| A3 | Ar adeg ein gwaith maes, roedd mwyafrif y colegau yn rhagweld ar gyfer un flwyddyn yn unig i'r dyfodol ac nid oedd cynlluniau ariannol tymor canolig wedi eu datblygu'n dda, yn rhannol oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn pennu dyraniadau cyllid yn flynyddol a bod colegau yn ansicr am refeniw yn y dyfodol. Byddai cynllunio ariannol tymor canolig yn hysbysu cynllunio tymor hwy Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector, ac yn ei alluogi i ddeall effaith newidiadau cyllidebol yn well. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i golegau baratoi cynlluniau ariannol tymor canolig, gan gynnwys rhagolygon ariannol mwy hirdymor, ac yn cynnig canllawiau a chymorth priodol, gan weithio gyda'r sector i drafod unrhyw dybiaethau sylfaenol allweddol.** |
| **Cyllid sy'n ymateb i alw** | |
| A4 | Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid craidd i golegau yn seiliedig yn bennaf ar setliadau cyllid hanesyddol, gan gymhwyso ymgodiad unffurf ar ddyraniadau blynyddoedd cynt. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd newidiadau i nifer y bobl 16 i 18 mlwydd oed yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru dros y 10 mlynedd nesaf, ac mae niferoedd dysgwyr yn debygol o amrywio o goleg i goleg yn unol â hynny. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu mecanwaith sy'n cysylltu cyllid yn agosach â galw tebygol am addysg bellach ym mhob ardal, gan gydnabod yr angen i wneud newidiadau sylweddol yn raddol, er mwyn rheoli'r effaith ariannol ar golegau unigol.** |

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Adolygiadau sefydliadol** | |
| R5 | Mae Llywodraeth Cymru yn monitro amrywiaeth o ddangosyddion yn ymwneud â chanlyniadau dysgwyr ac iechyd ariannol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi cael eu cyfuno mewn fframwaith perfformiad ffurfiol ar gyfer y sector, ac nid yw targedau penodol yn berthnasol i golegau, ac eithrio darparu lefel y ddarpariaeth ddysgu a gyllidebwyd. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ei fframwaith adolygu sefydliadol i gynnig asesiad cynhwysfawr o berfformiad a risgiau bob coleg, ac i adrodd yn gyhoeddus ar brif ganfyddiadau'r adolygiadau hyn bob blwyddyn.** |
| **Canllawiau strategol** | |
| A6 | Argymhellodd Adolygiad Hazelkorn ar ddyfodol addysg ôl-16 yng Nghymru y dylid datblygu un strategaeth gyffredin ar gyfer addysg ôl-16. Mae canllawiau blynyddol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, a chyflwynwyd gofynion newydd helaeth yn 2016/17 yr oedd colegau o'r farn oedd yn anodd eu hymgorffori yn eu cynlluniau cyflawni, er bod mwy o bwyslais penodol yng nghanllawiau 2017/18. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau blynyddol â phwyslais penodol i golegau, wedi'u gosod yng nghyd-destun canllawiau strategol mwy hirdymor ar gyfer y sector cyfan.** |
| **Asesu effaith** | |
| A7 | Gwnaed y toriadau mwyaf i gyllid ar gyfer colegau yn 2015/16, ond nid yw data canlyniadau dysgwyr ar gael ar gyfer y flwyddyn honno eto. Nododd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer dyraniadau cyllid blaenorol risgiau o dorri darpariaeth ran-amser a fyddai'n cael ei monitro a'i lliniaru os oedd angen, ond ni wnaed unrhyw waith gwerthuso pellach. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso effaith gostyngiadau i gyllid ar ddysgwyr (gan gynnwys yr effaith ar gydraddoldeb) pan fydd y data hyn yn barod ac yn defnyddio'r canlyniadau i hysbysu penderfyniadau ynghylch polisi a chyllid yn y dyfodol.** |

## Rhan 1

# Mae Llywodraeth Cymru wedi torri cyllid grant i'r sector, ac er bod trefniadau dyrannu a goruchwylio cyllid yn gadarn yn gyffredinol, byddent yn elwa o ddull mwy integredig a hirdymor



1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i ymdrin ag addysg bellach. Rydym yn ystyried yn benodol cyfeiriad a chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector a sut y mae'n goruchwylio sefyllfa ariannol, perfformiad a llywodraethiad colegau.


## Mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau ei gyllid grant ond wedi diogelu darpariaeth amser llawn a dysgu seiliedig ar waith

### Gostyngodd Llywodraeth Cymru gyfanswm y cyllid grant ar gyfer y sector 13% mewn termau real rhwng 2011/12 a 2016/17, gyda chyllid craidd ar gyfer darpariaeth amser llawn yn cynyddu 2.9% ond cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ar gyfer rhaglenni a mentrau penodol yn gostwng yn sylweddol

1.2 Grantiau Llywodraeth Cymru yw'r brif ffynhonnell o incwm i golegau, ac maent yn ddwy ran o dair o incwm y sector. Mae cyllid grant refeniw Llywodraeth Cymru wedi gostwng o £303 miliwn yn 2011/12 i £281 miliwn yn 2016/17, gostyngiad o £22 miliwn, neu 7% mewn termau arian parod a 13% mewn termau real.

1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant trwy grant refeniw cyffredinol (y cyfeirir ato fel 'cyllid craidd') yn bennaf. Rhwng 2011/12 a 2016/17, mae cyllid craidd Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 0.5% mewn termau arian parod ond wedi gostwng 6.1% mewn termau real (Ffigur 3).

Ffigur 3 – Dyraniadau cyllid refeniw craidd i'r sector addysg bellach mewn termau arian parod a thermau real, 2011/12 i 2016/17




Sylwer: Ffigurau termau real wedi'u cyfrifo o ddatchwyddydd CMC a gyhoeddwyd ar wefan Trysorlys Ei Mawrhydi, gan gymryd Mehefin 2016 fel y sail.


Ffynhonnell: Llythyrau dyrannu cyllid Llywodraeth Cymru

1.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio diogelu darpariaeth amser llawn i bobl ifanc yn y grŵp oedran 16 i 19 oed, ac wedi targedu gostyngiadau i gyllid craidd ar gyfer darpariaeth ran-amser. Mae'r rhan fwyaf (89%) o ddysgwyr rhan-amser yn hŷn na 19 oed. O ganlyniad, rhwng 2011/12 a 2016/17:

- Mae cyllid craidd ar gyfer darpariaeth amser llawn wedi cynyddu 2.9% mewn termau real; ac
- Mae cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser wedi gostwng 70.8% mewn termau real, gyda'r prif doriadau yn dod yn 2014/15 a 2015/16 (37.5% a 50% mewn termau arian parod, yn eu trefn). Mae darpariaeth ran-amser wedi bod yn gyfran gymharol fach o gyllid craidd, yn gostwng o 12% yn 2011/12 i 4% yn 2016/17.

Adlewyrchir y diogelu o ddarpariaeth amser llawn ar gyfer pobl ifanc yn y grŵp oedran 16 i 19 yn y patrwm o newid o gyllid grant (Ffigur 4).

Ffigur 4 – Newidiadau i gyllid grant rhwng 2011/12 a 2016/17 (arian parod)




Ffynhonnell: Llythyrau dyrannu cyllid Llywodraeth Cymru

1.5 Hefyd, gall Llywodraeth Cymru ddarparu grantiau sydd wedi'u clustnodi at ddibenion penodol (Blwch 1). Dros amser, mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwared ar y rhan fwyaf o grantiau a glustnodir neu wedi'u hymgorffori mewn cyllid craidd. £25.6 miliwn oedd cyfanswm gwerth y grantiau hyn yn 2011/12, a chynyddodd rhyw fymryn i £26.2 miliwn yn 2012/13 cyn gostwng yn ystod y ddwy flynedd ganlynol. Ar gyfer 2016/17, nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gyllid grant wedi'i glustnodi ac eithrio £2.0 filiwn ar gyfer y Rhaglen Peirianneg Uwch (sydd wedi'i gynnwys yn rhan o gyllid craidd erbyn hyn) a £1.8 miliwn o gyllid newydd ar gyfer prosiectau peilot sydd â'r bwriad o brofi ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a gynigir gan y sector o dan y rhaglen 'Datrysiadau Creadigol'.[9]

9 Sefydlwyd y gweithgor Datrysiadau Creadigol, a awgrymwyd gan Weinidogion Cymru, gan ColegauCymru ym mis Gorffennaf 2015 i ddatblygu cynigion a fwriadwyd i greu arbedion effeithlonrwydd tra'n cynnal neu'n gwella profiad dysgwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y rhan fwyaf o argymhellion y gweithgor a dechreuwyd eu rhoi ar waith yn 2016.

**Blwch 1: Grantiau wedi'u clustnodi Llywodraeth Cymru ers 2011/12**

**Llwybrau i brentisiaethau**

Lansiwyd y rhaglen yn 2009 i gynnig llwybr hyblyg i bobl ifanc gaffael y wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen i gwblhau prentisiaeth lawn yn llwyddiannus. Darparodd y rhaglen gwrs dwys blwyddyn o hyd, gan gynnwys lleoliad gwaith, i'w paratoi ar gyfer prentisiaeth ar lefel 3. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £25.8 miliwn rhwng 2011/12 a 2013/14 ar gyfer y rhaglen hon. Canfu gwerthusiad yn 2014 nad oedd y rhaglen, ar y cyfan, wedi bodloni ei amcanion. Cafodd y rhaglen ei dirwyn i ben o 2014/15, ac eithrio ar gyfer y llwybr peirianneg a barhaodd fel rhaglen wedi'i chlustnodi ar wahân (gweler isod).

**Rhaglen peirianneg uwch**

Deilliodd y rhaglen o'r rhaglen llwybrau i brentisiaethau, lle cafodd y llwybr peirianneg ganlyniadau gwella o ran cyfraddau cynnydd ac adborth gan ddysgwyr, colegau a chyflogwyr. Darparodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £3.9 miliwn ar gyfer y rhaglen hon dros ddwy flynedd (2014/15 a 2015/16). Yn ei hail flwyddyn, cynigiwyd rhaglen ddysgu fwy i nifer fach o ddysgwyr peirianneg. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddyrannu cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer y rhaglen peirianneg uwch, ond mae'n cael ei dalu yn rhan o'r dyraniad cyllid craidd erbyn hyn.

**Cyllid blaenoriaeth sgiliau**

Roedd y cyllid hwn i golegau ddarparu rhaglenni o hyfforddiant arloesol a oedd yn gallu cynyddu ac ehangu sgiliau galwedigaethol cyflogeion, yn unol â galw a chyfleoedd marchnadoedd llafur lleol/rhanbarthol. Darparodd hyfforddiant rhan-amser ar gyfer cymwysterau achrededig er mwyn helpu i ddatblygu gweithlu cyffredinol cyflogwr ac i gynorthwyo cynnydd unigolion o fewn y gweithlu. Dyrannwyd cyfanswm o £12.5 miliwn ar gyfer 2015/16 yn unig.

**Sgiliau oedolion**

Darparodd Llywodraeth Cymru £51.8 miliwn rhwng 2011/12 a 2013/14 ar gyfer sgiliau oedolion cyffredinol a ddarparwyd trwy gyrsiau rhan-amser.

**Ailsefyll TGAU**

Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid untro o £1.4 miliwn yn 2015/16 fel cyfraniad tuag at y gost o gymhwyso ei pholisi ar ailsefyll TGAU. Mae'r polisi'n amlinellu y dylai pawb sy'n gadael yr ysgol sy'n ymrestru ar gwrs addysg bellach blwyddyn o hyd, ac a gafodd radd D mewn TGAU Saesneg neu Fathemateg, astudio ac ailsefyll yr arholiad perthnasol gyda'r nod o ennill gradd C neu uwch. O ran cyrsiau dwy flynedd, mae'r polisi hefyd yn berthnasol i ddysgwyr a gafodd radd E mewn Saesneg neu Fathemateg.

1.6 Ysgogwyd y penderfyniad i leihau cyllid ar gyfer colegau addysg bellach rhwng 2013/14 a 2015/16 gan ostyngiad i'r grant bloc gan Lywodraeth y DU a chynnydd i'r cyllid a wnaed ar gael i'r GIG yng Nghymru. Yn y grŵp gwariant ar Addysg a Sgiliau, mae Gweinidogion wedi blaenoriaethu addysg cyn-16 (a'r blynyddoedd cynnar yn benodol) dros addysg ôl-16. Mae cyllid addysg bellach wedi cael ei dargedu at addysg amser lawn ar gyfer pobl 16 i 19 mlwydd oed yng ngoleuni ymrwymiad statudol Llywodraeth Cymru i sicrhau cyfleusterau priodol i ddarpar addysg ar gyfer y grŵp hwnnw, sy'n golygu bod y ddarpariaeth ran-amser i ddysgwyr hŷn wedi dioddef fwyaf yn sgil toriadau i'r gyllideb.

1.7 Amlygodd adroddiadau diweddar ar addysg bellach gan Audit Scotland a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ostyngiadau i gyllid tebyg i raddau helaeth yn Lloegr a'r Alban.[10] Mae pwyslais tebyg wedi bod hefyd ar flaenoriaethu darpariaeth amser llawn (yn bennaf ar gyfer dysgwyr iau), gan arwain at ddirywiad sylweddol yn nifer y dysgwyr hŷn rhan-amser.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal lefel cyllid termau real ar gyfer dysgu seiliedig ar waith ers 2011/12 gyda cholegau yn sicrhau swm sylweddol o'r cyllid a oedd ar gael

1.8 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid ar gyfer dysgu seiliedig ar waith. Ceir amrywiaeth o raglenni seiliedig ar waith, gan gynnwys prentisiaethau a hyfforddeiaethau, sy'n cynorthwyo tua 54,000 o unigolion yng Nghymru i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ymuno â'r farchnad lafur neu i ddysgu sgiliau sy'n gysylltiedig â swyddi tra'n cael eu cyflogi. Cyflwynir contractau dysgu seiliedig ar waith gan Lywodraeth Cymru yn dilyn proses gaffael gystadleuol sydd ar gael i golegau, darparwyr preifat a thrydydd sector. £135.5 miliwn yw cyfanswm cyllid dysgu seiliedig ar waith Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17, ac mae tua 40% (£54.1 miliwn) o hwn ar gyfer contractau a arweinir gan golegau.[11]

1.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyllid ar gyfer contractau dysgu seiliedig ar waith, wrth i gyfanswm y cyllid gynyddu 7.5% mewn termau arian parod a 0.4% mewn termau real rhwng 2011/12 a 2016/17. Adroddodd y sector incwm net o £35 miliwn o gontractau yn 2015/16 ar ôl is-gontractio £15 miliwn i ddarparwyr o'r tu allan i'r sector. Mae 'Rhaglen Lywodraethu'[12] bresennol Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau pob oedran o ansawdd uchel yn ystod y tymor Cynulliad presennol, ac o ganlyniad gallai gwariant ar ddysgu seiliedig ar waith gynnig cyfle ariannol i'r sector.

10 Amlygodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (**Overseeing financial sustainability in the further education sector**, Gorffennaf 2015) ostyngiad o 11% i gyllid y Llywodraeth mewn termau arian parod rhwng 2010/11 a 2014/15. Amlygodd adroddiad Audit Scotland (**Scotland's Colleges 2016**, Awst 2016) ostyngiad o 12.3% i gyllid termau real rhwng 2011/12 a 2016/17.
11 Ar sail flynyddol: dyrannwyd y cyllid ar gyfer y contractau ar gyfer 16 mis, felly tri chwarter y swm a ddyrannwyd yw'r ffigur blynyddol.
12 Llywodraeth Cymru, **Symud Cymru Ymlaen**, 2016-21, Medi 2016.

### Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu y bydd gan gyflogwyr fwy o ddylanwad dros y ddarpariaeth o sgiliau ac yn cymryd cyfrifoldeb am gyfran fwy o gostau, er bod gan Ardoll Brentisiaethau newydd Llywodraeth y DU oblygiadau pwysig i'r polisi cyd-fuddsoddi hwn

1.10 Mewn ymateb i'r pwysau ar gyllid cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid y pwyslais o ddull a arweinir gan lywodraeth o fuddsoddi mewn sgiliau i system sy'n cael ei dylanwadu a'i harwain gan gyflogwyr. Y nod yw cynnwys busnesau yn agosach yn y broses o nodi angen a chynllunio darpariaeth sgiliau. Byddai cyflogwyr yn cymryd cyfrifoldeb am gyfran fwy o'r gost. Cyd-fuddsoddi yw'r enw ar y polisi hwn (Blwch 2).

**Blwch 2: Esboniad o gyd-fuddsoddi**

**Mae'r polisi cyd-fuddsoddi yn blaenoriaethu adnoddau fel a ganlyn:**

- Bydd buddsoddiad a arweinir gan lywodraeth yn canolbwyntio ar feysydd o ddychweliad economaidd a chymdeithasol lle gall llywodraeth gymryd swyddogaeth flaenllaw a chefnogi'r pwyslais ar swyddi, twf a mynd i'r afael â thlodi. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys prentisiaethau (a phrentisiaethau lefel uwch yn arbennig), sgiliau hanfodol a Chymraeg i oedolion.

- Bydd unrhyw adnoddau ychwanegol sy'n dod ar gael yn cael eu defnyddio i ariannu camau ar y cyd â chyflogwyr. Bydd hyn yn digwydd pan fydd blaenoriaethau cyflogwyr a Llywodraeth Cymru yn alinio a phan ellir ariannu prosiectau defnyddiol â chyfyngiad amser. Bwriedir i'r prosiectau hyn ddatblygu'r cyflenwad darpariaeth sgiliau ac ehangu'r galw amdani, a gwella ansawdd buddsoddiad mewn sgiliau.

- Bydd disgwyl i gyflogwyr gefnogi eu hanghenion gweithlu eu hunain ac i ariannu prentisiaethau hyd at lefel 3. Byddent hefyd yn ariannu hyfforddiant penodol i gyflogwyr arall ar gyfer y rhai sy'n 19 oed a hŷn. Nid yw'n eglur eto sut y mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu 100,000 o brentisiaethau ansad uchel yn cysylltu â'r agenda cyd-fuddsoddi.

1.11 Mae mwy o gyd-fuddsoddi yn cynnig cyfle i'r sector ddatblygu darpariaeth wedi'i theilwra i anghenion cyflogwyr, a fyddai'n cynhyrchu refeniw ychwanegol ac yn cyfrannu at y costau o redeg colegau. Dywedodd colegau wrthym fod gan gyd-fuddsoddi botensial sylweddol ond y byddai'n cymryd blynyddoedd lawer iddynt ddatblygu gweithrediadau busnes masnachol yn llawn i'r graddau y byddent yn gwneud cyfraniad sylweddol at eu cyllid, gan wneud buddsoddiad cychwynnol yn ofynnol ar gyfer marchnata, cyfalaf gweithio neu gaffael cwmnïau presennol. Pwysleisiodd colegau hefyd yr angen am newid agwedd ymhlith mentrau bach a chanolig eu maint, a oedd yn teimlo eu bod wedi dod i arfer â darpariaeth â chymhorthdal (yn enwedig o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn y gorllewin a'r cymoedd), ac felly roeddent yn amharod iawn i wneud unrhyw gyfraniad ariannol tuag at y gost o hyfforddi staff.

1.12 Mae gan gyflwyniad yr Ardoll Brentisiaethau gan Lywodraeth y DU o 2017 oblygiadau pwysig i'r polisi cyd-fuddsoddi. Bydd yr ardoll yn daladwy gan bob cyflogwr mawr ar gyfradd o 0.5% o'i bil cyflogau dros £3 miliwn y flwyddyn a bwriedir iddi ysgogi cyflogwyr i fuddsoddi mewn addysgu a hyfforddi eu gweithluoedd. Bydd yr ardoll yn cael ei chasglu gan gyflogwyr Cymru yn yr un modd â mannau eraill o'r DU ac yn cael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru trwy addasu'r grant bloc, ond mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd yr incwm hwn yn cael ei fantoli gan effaith newidiadau amrywiol eraill, heb unrhyw gynnydd i gyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru yn gyffredinol.

1.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnal y gyllideb ar gyfer dysgu seiliedig ar waith, ond nid yw'n dymuno diwygio ei pholisi presennol o dargedu darpariaeth at sectorau penodol, felly ni all y rhai sy'n talu'r ardoll fod yn sicr o dderbyn hyfforddiant seiliedig ar waith wedi'i ariannu gan y cyhoedd hyd at werth yr ardoll y maent wedi ei thalu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd y sefyllfa hon yn lleihau parodrwydd cyflogwyr mawr i gyd-fuddsoddi yn natblygiad y gweithlu. Ni fydd cwmniau â bil cyflogau o lai na £3 miliwn y flwyddyn yn cael eu heffeithio, ond mae cyflogwyr llai yn tueddu i fod yn llai parod i wario ar addysg a hyfforddiant. Mae llythyr cylch gwaith Gweinidogol blynyddol 2017/18 i golegau yn annog y sector i barhau ag ymdrechion i annog cyd-fuddsoddi. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaeth prentisiaethau yn digwydd mewn busnesau llai na fydd yn ddarostynedig i'r Ardoll.

## Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw raglen cyllid cyfalaf craidd benodol ar gyfer y sector, er bod rhai colegau wedi cael cymorth i brosiectau trwy raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif

1.14 Nid yw Llywodraeth Cymru yn gweithredu cyllideb gyfalaf reolaidd ar gyfer y sector addysg bellach yn unig, ond mae ganddi gyllideb gyfalaf ar gyfer yr holl seilwaith addysgol a weinyddir trwy Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif. Mae'r rhaglen yn darparu grantiau ar gyfer 50% o gost adeiladau newydd neu waith uwchraddio mawr[13] ac yn cael ei chynnal dros nifer o gamau, neu fandiau buddsoddiad.

1.15 Roedd rownd gyntaf cyllid Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif ar gyfer prosiectau a oedd i gael eu cwblhau rhwng 2014 a 2019. Roedd y rownd gyllid hon yn canolbwyntio ar ysgolion yn bennaf, oherwydd cyflwr gwael llawer o adeiladau, a'r angen i ad-drefnu'r ystad ysgolion i ymdrin â chapasiti dros ben. Dyrannwyd 94% o'r £1.4 biliwn a roddwyd o'r neilltu ar gyfer rownd gyntaf y rhaglen i ysgolion. Serch hynny, mae'r sector addysg bellach wedi elwa hefyd, wrth i grant gwerth £37.9 miliwn gael ei gymeradwyo ar gyfer pum prosiect â chyfanswm buddsoddi o £79.7 miliwn mewn prosiectau. Un o'r prosiectau hyn – ar gyfer campws canol y ddinas Coleg Caerdydd a'r Fro – yw'r ail fwyaf yn y rhaglen gyfan, gyda grant o £20 miliwn tuag at gyfanswm cost o £44 miliwn.

13 Ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad ar wahân o Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif ar hyn o bryd.

1.16 Bydd colegau yn gallu ymgeisio yn ail rownd Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif yn fuan, ar gyfer y cyfnod o 2019 i 2024. Nid y cyfanswm y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, y cyfraniad cymesur gan y sector a'r dull cyllido wedi eu cadarnhau eto. Mae colegau wedi darparu data arolwg cyflwr wedi'u diweddaru ar gyfer eu hystadau yn ddiweddar i gefnogi eu penderfyniadau nhw a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

1.17 Ers dechrau Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyllid cyfalaf pwrpasol ar gael i golegau ar un achlysur. Ym mis Mawrth 2016, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gwneud tua £22 miliwn ar gael mewn cyllid grant ar gyfer prosiectau cyfalaf graddfa fach ar ôl i gyllid ddod ar gael ar fyr-rybudd (Blwch 3). Roedd y cyllid ar gyfer offer TG, offer hyfforddi a phrosiectau adeiladu graddfa fach. Gwnaeth colegau geisiadau am £38.2 miliwn a chymeradwyodd Llywodraeth Cymru geisiadau am £23.3 miliwn o grantiau. Derbyniodd colegau unigol rhwng 50% o'r cyllid yr ymgeisiwyd amdano ar gyfer prosiectau adeiladu cyfalaf a 100% o'r cyllid yr ymgeisiwyd amdano ar gyfer offer TG a sgiliau.

**Blwch 3: Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf graddfa fach yn 2016-17**

Ym mis Mawrth 2016, hysbyswyd swyddogion sy'n gyfrifol am gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru y gellid gwneud £22 miliwn ar gael o gyllideb 2016-17 ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y sector addysg bellach. Fodd bynnag, byddai'n rhaid cwblhau'r prosiectau a thalu'r grantiau cyn 31 Mawrth 2017. Gwahoddwyd colegau i ymgeisio ym mis Ebrill 2016 am grantiau o dair cronfa (£5 miliwn ar gyfer offer TG, £5 miliwn ar gyfer offer hyfforddi, a £12 miliwn ar gyfer prosiectau adeiladu graddfa fach y gellid eu cwblhau cyn diwedd mis Mawrth 2017). Cymeradwywyd grantiau gan Lywodraeth Cymru wedyn ar gyfer gwerth £12.7 miliwn o brosiectau adeiladu graddfa fach, £5.5 miliwn ar gyfer offer hyfforddi, a £5.1 miliwn ar gyfer offer TG.

O ystyried yr amserlen dynn, diwygiwyd y broses werthuso arferol ar gyfer prosiectau cyfalaf gan swyddogion i werthuso ceisiadau'n gyflymach, a dyfarnwyd y rhan fwyaf o grantiau ym mis Gorffennaf 2016, gyda rhai prosiectau adeiladu yn cael eu cymeradwyo'n fuan wedyn. Serch hynny, roedd y colegau i ni ymweld â nhw yn nodi bod yr amserlenni'n dyn iawn ac na fyddai'n bosibl gwneud gwaith adeiladu yn yr haf (yr adeg fwyaf addas o'r flwyddyn). Dywedasant hefyd bod y byr-rybudd – pythefnos – ar gyfer cwblhau ceisiadau yn golygu mai dim ond prosiectau syml y gellid eu cynnig.

Cydnabuwyd y pryderon hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru ond ymatebasant fod rhaid iddynt weithio'n unol â disgyblaethau proses gyllidebu flynyddol Llywodraeth Cymru, a'u bod wedi rhedeg y broses mor effeithlon a chyflym â phosibl er mwyn sicrhau bod cymaint o amser â phosibl ar gael i golegau gyflawni eu prosiectau. Nid ydym wedi adolygu manylion gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r cyllid grant hwn.

## Ar y cyfan, mae'r sector wedi croesawu diwygiadau i'r ffordd y caiff cyllid craidd ei ddyrannu i bob coleg, ond byddai'n well ganddo weld gorwelion cyllid mwy hirdymor, ac nid yw dyraniadau yn cymryd newidiadau lleol i angen i ystyriaeth

### Caiff diwygiadau i'r ffordd y dyrennir cyllid i golegau eu croesawu gan y sector yn gyffredinol

1.18 Ers 2014/15, ac mewn ymateb i gais gan golegau am fwy o sicrwydd ynghylch lefelau ariannu blynyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r un dyraniadau sylfaen i gyfrifo dyraniadau dangosol ar gyfer pob coleg. Mae'r dyraniad sylfaen ar gyfer pob coleg fel rheol yn cynyddu neu'n gostwng o'r un gyfran, oni bai fod angen ariannu trosglwyddiad darpariaeth penodol (rhwng ysgolion a cholegau ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth, er enghraifft).

1.19 Mae pob coleg yn datblygu cynllun cyflawni blynyddol ar gyfer math a chyfanswm y ddarpariaeth ddysgu y mae coleg yn disgwyl ei darparu yn ystod y flwyddyn academaidd ddilynol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar asesiad y coleg ei hun o anghenion dysgu yn ei ardal yng nghyd-destun gwybodaeth sydd ar gael am y farchnad lafur a pholisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar sgiliau ac addysg bellach. Mae fersiwn derfynol y cynllun blynyddol yn cael ei baratoi yn y gwanwyn pan fydd y coleg wedi cael cadarnhad o'i ddyraniadau cyllid terfynol ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol, ym mis Ionawr fel rheol.

1.20 Mae Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â'r sector, wedi datblygu fframwaith cynllunio ac ariannu newydd sy'n newid y ffordd y mae colegau yn cynllunio eu darpariaeth ac yn tynnu eu dyraniadau cyllid i lawr. Daeth i fframwaith newydd i rym o 2014/15. Roedd y system flaenorol yn dyfarnu swm penodol ar gyfer pob uned gyfwerth â chredyd, ac roedd pob elfen ddarparu werth nifer benodol o gredydau. O ganlyniad, roedd colegau'n gallu cynyddu eu credydau a'r incwm yr oeddent yn ei dynnu i lawr wedyn trwy ymrestru dysgwyr ar gyrsiau atodol neu weithgareddau eraill. Mae'r fframwaith newydd yn neilltuo gwerth penodol i raglen ddysgu gyflawn ar gyfer pob dysgwr. Bwriedir i bob rhaglen gynnig pecyn cynhwysfawr o gymorth i'r dysgwr (Blwch 4).

**Blwch 4: Esboniad o'r rhaglen ddysgu gyflawn**

Mae rhaglen ddysgu gyflawn yn cynnwys:

- **Y craidd**: datblygiad sgiliau hanfodol a gweithgareddau cymorth a chyfoethogi i helpu dysgwyr i ennill eu prif gymhwyster, a mynd yn eu blaenau i gyflogaeth neu addysg uwch. Mae'n seiliedig ar graidd y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru presennol.
- **Y prif gymhwyster**: addysgu ar gyfer cymhwyster galwedigaethol neu addysgol cyffredinol cymeradwy.
- **Pwyslais ar y gymuned, y dysgwr, diwydiant**: darpariaeth ychwanegol i deilwra'r rhaglen i anghenion penodol y gymuned, y dysgwr neu ddiwydiant penodol. Gallai hyn gynnwys ailsefyll TGAU neu dystysgrif iechyd a diogelwch orfodol, er enghraifft.
- **Profiad seiliedig ar waith**: unrhyw brofiad gwaith ychwanegol sy'n ofynnol i gwblhau'r rhaglen ddysgu, sy'n ychwanegol i'r 30 awr a nodir yng nghraidd Bagloriaeth Cymru.

Mae gan ddysgwr un rhaglen ddysgu ar unrhyw un adeg yn bron i bob achos.

1.21 Mae nifer a gwerth rhaglenni dysgu a ddarperir mewn gwirionedd yn penderfynu cyfanswm yr incwm y gall coleg ei dynnu i lawr o'r dyraniad ariannol a wnaed ar gael gan Lywodraeth Cymru. Ceir rhywfaint o hyblygrwydd gan fod colegau yn gallu tynnu eu dyraniadau llawn i lawr, cyn belled ag y bo gwerth y rhaglenni dysgu a ddarperir mewn gwirionedd o fewn 2.5% i'r dyraniad ariannol.

1.22 Bwriedir i'r fframwaith cynllunio ac ariannu newydd sicrhau nad oes gan golegau unrhyw gymhelliad ariannol i ddarparu gweithgareddau diangen. Mae'r fframwaith newydd yn cynnwys nifer o newidiadau eraill a fwriedir i wella gwerth am arian:

- Cyfyngu rhaglenni dysgu cymeradwy o'r rhai sy'n debygol o ychwanegu gwerth o ran cyfleoedd bywyd dysgwr. Mae'n rhaid i raglenni arwain at gymhwyster cymeradwy a chynnig rhaglen ddysgu gydlynol a sylweddol ac ni fydd, er enghraifft, rhaglen sy'n seiliedig ar un safon Uwch yn gymwys ar gyfer cyllid.
- Mae cyfraddau ariannu yn seiliedig ar y dybiaeth bod colegau'n sicrhau cyfradd cwblhau llwyddiannus gyfartalog o 81%.
- Ni ariennir rhaglenni yn ymwneud ag ymadawyr cynnar (dysgwyr sy'n gadael y cwrs llai nag wyth wythnos ar ôl iddo gychwyn), ac nid ydynt yn cael eu cyfrif mewn ystadegau perfformiad chwaith. Mae'r dull hwn yn cymell colegau i osgoi ymadawyr cynnar gan beidio â'u cosbi trwy gyfrif ymadawyr cynnar wrth gyfrifo cyfraddau llwyddiant a chwblhau.

1.23 Er mwyn adlewyrchu'r gost uwch o ddarparu gwasanaethau, mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymgodiadau ar gyfer yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf ac ar gyfer ardaloedd prin eu poblogaeth. £13.6 miliwn yw cyfanswm y dyraniad ar gyfer amddifadedd ar gyfer 2016/17. Mae ymgodiadau prin o boblogaeth yn seiliedig ar faint y coleg a nifer y dysgwyr sy'n dod o ardaloedd gwledig, a dyrannwyd tua £3.6 miliwn yn 2016/17. Adolygwyd y cyfraddau ymgodiad gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r fframwaith cynllunio ac ariannu newydd, ond penderfynodd eu gadael fel yr oeddent, ac mae wedi addasu'r ymgodiadau yn unol â'r dyraniad cyffredinol ers hynny.

1.24 Roedd mwyafrif y colegau i ni ymweld â nhw yn cefnogi'r fframwaith cynllunio ac ariannu newydd. Roeddent o'r farn ei fod wedi symleiddio a gwella cyllid, wedi creu pwyslais cryfach ar anghenion dysgwyr ac wedi osgoi darpariaeth ddiangen. Roedd eu safbwyntiau yn cyd-fynd â rhai swyddogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dywedodd Coleg Ceredigion a Grŵp Llandrillo Menai nad oedd yr ymgodiad prin o boblogaeth yn talu'n llawn y gost ychwanegol o ddarparu gwasanaethau hygyrch mewn ardaloedd gwledig.


1.25 Mae'r fframwaith cynllunio ac ariannu newydd hefyd yn berthnasol i ddarpariaeth safon Uwch a galwedigaethol mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion a ariennir gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, gan fod ysgolion uwchradd awdurdod lleol hefyd yn derbyn cyllid ar wahân ar gyfer darpariaeth TGAU (11 i 16 oed), mae'n bosibl iddynt ddarparu croes-gymhorthdal ar gyfer y ddarpariaeth chweched dosbarth. Cydnabuwyd y perygl hwn mewn adolygiad o ddarpariaeth chweched dosbarth yn 2016, a daeth i'r casgliad ei fod yn cyfiawnhau asesiad pellach (paragraff 1.46), ond roedd y cwestiwn a oedd achosion o groes-gymhorthdal yn digwydd mewn gwirionedd y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn.

## Nid yw'r dull presennol yn galluogi newidiadau lleol i angen gael eu hadlewyrchu mewn dyraniadau cyllid a byddai'n well gan y sector weld gorwelion ariannu mwy hirdymor

1.26 Mae'r ffordd newydd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo dyraniadau cyllid a gyflwynwyd yn 2014/15 yn seiliedig ar ymgodiad canran unffurf i setliadau blaenorol (paragraff 1.18). Er efallai fod y dull hwn yn cynnig rhywfaint o sicrwydd i golegau, mae'n golygu na all dyraniadau cyllid adlewyrchu newidiadau i lefel yr angen ledled Cymru, fel yn y boblogaeth dysgwyr ifanc, er enghraifft. Un penderfynydd allweddol o'r angen am gyrsiau amser llawn yw nifer y bobl 16-18 mlwydd oed, gan fod addysg bellach wedi'i thargedu at y grŵp hwn. Bydd ffactorau eraill yn dylanwadu ar yr angen am gyrsiau amser llawn, a'r dewisiadau a wneir gan bobl ifanc yn fwyaf nodedig. Ond mae lefel yr angen am ddarpariaeth ar draws colegau yn debygol o fod yn sensitif i newidiadau sylweddol i faint poblogaeth y grŵp oedran hwn.

1.27 Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16 i 18 mlwydd oed yn parhau i ostwng yng Nghymru tan 2020, a rhagwelir y bydd gostyngiad o 11.6% rhwng 2014 a 2020, cyn gwella i lefel 2014 yn 2026 (Ffigur 5). Gwelir yr un patrwm cyffredinol mewn amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer yr Alban a Lloegr, er bod y gostyngiad i nifer y bobl 16 i 18 mlwydd oed yn cyrraedd ei lefel isaf yn gynharach yn y rhannau hyn o'r DU. Cynyddodd nifer y dysgwyr addysg bellach amser llawn yng Nghymru rhyw fymryn rhwng 2011 a 2015, er gwaethaf gostyngiad o 4.9% i nifer y bobl 16 i 18 mlwydd oed, gan adlewyrchu'n rhannol trosglwyddiad rhywfaint o ddarpariaeth chweched dosbarth i'r sector o ysgolion. Fodd bynnag, gallai'r gostyngiadau parhaus a ragwelir i faint y grŵp oedran hwn leihau'r angen am gyrsiau amser llawn.


Ffigur 5 – Niferoedd rhagamcanol o bobl 16 i 18 mlwydd oed yng Nghymru, 2014 i 2026




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Lywodraeth Cymru (StatsCymru), **Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (sail-2014), 2014-2039**, Medi 2016

1.28 Rhwng 2014 a 2020, rhagwelir y bydd niferoedd y bobl 16 i 18 mlwydd oed yn gostwng ym mhob ardal awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae maint y gostyngiadau rhagamcanol yn amrywio o 6.2% yn Wrecsam i 20.4% yn Nhorfaen (Ffigur 6). Mae effaith ariannol bosibl unrhyw ostyngiad i'r angen am ddarpariaeth amser llawn yn debygol o amrywio o goleg i goleg felly. Yn unol â'r dull presennol, ni ellir adlewyrchir newidiadau rhagamcanol hyn a'u heffaith debygol ar angen yn y dyraniadau unigol i golegau.

Ffigur 6 – Newid rhagamcanol i nifer y bobl 16 i 18 mlwydd oed fesul awdurdod lleol, 2014-2020




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Lywodraeth Cymru (StatsCymru), **Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (sail-2014), 2014-2039**, Medi 2016

Tudalen y pecyn 76

1.29 Hoffai colegau i Lywodraeth Cymru sefydlu gorwelion ariannu mwy hirdymor. Byddai hyn yn cynnig mwy o sicrwydd i golegau ynghylch eu lefelau incwm a chynorthwyo eu gwaith cynllunio busnes. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyraniadau ariannol tair blynedd o flwyddyn academaidd 2011/12, gyda'r flwyddyn gyntaf yn ddyraniad pendant a'r ddwy flynedd ganlynol yn ddangosol yn unig. Croesawyd y dull hwn gan golegau ac roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gynnal o dan y fframwaith cynllunio ac ariannu newydd. Fodd bynnag, ar ôl cadarnhau dyraniad 2013/14 ym mis Ionawr 2013, roedd newidiadau annisgwyl i grant bloc Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU. O ganlyniad, torrwyd dyraniadau 2013/14 gan Lywodraeth Cymru fis yn unig cyn dechrau'r flwyddyn.

1.30 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod materion o'r fath yn codi amheuon am ddibynadwyedd amcangyfrifon cyllid dangosol, a dychwelodd i gyllidebu blynyddol o 2015/16 o ganlyniad. Mae canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd wedi creu mwy o ansicrwydd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar gyllideb un flwyddyn ar gyfer 2017-18 heb unrhyw ymrwymiadau ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan swyddogion y byddai'n well ganddynt gynnig dyraniadau tair blynedd pe bai hyn yn dod yn ymarferol yn y dyfodol.

1.31 Beirniadwyd dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chyllid cyfalaf gan y colegau i ni ymweld â nhw hefyd. Maent yn gweld cyllid cyfalaf yn cael ei wneud ar gael ar fyr-rybudd ac ar sail ad hoc, yn hytrach nag yn rhan o ddull hirdymor wedi'i gynllunio o ymdrin â gofynion cyfalaf (paragraffau 1.14 i 1.17 a Blwch 3).

## Nid oes unrhyw strategaeth unedig ar gyfer y sector addysg bellach nac ar gyfer addysg ôl-16, ac er bod cydweithrediad a gweithio ar y cyd yn gadarn yn gyffredinol, mae'r berthynas rhwng colegau ac ysgolion yn peri pryder mewn rhai ardaloedd

### Nid oes unrhyw strategaeth unedig ar gyfer y sector nac ar gyfer addysg ôl-16 yn gyffredinol

1.32 Nid oes gan Lywodraeth Cymru un strategaeth unedig ar gyfer y sector addysg bellach nac ar gyfer addysg ôl-16 yn gyffredinol. Dyma'r tair prif strategaeth sy'n effeithio ar y sector addysg bellach:

- **Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013 – sydd â'r nod o leihau nifer y bobl ifanc 11 i 25 oed nad ydynt yn mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant[14];
- Y **Datganiad Polisi ar Sgiliau** a wnaed ym mis Ionawr 2014, wedi'i ategu gan y **Cynllun Gweithredu Sgiliau** a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014 – sy'n trafod polisi sgiliau a chyflogaeth ôl-19; a
- Strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg i bobl 3-19 mlwydd oed, **Cymwys am Oes**, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014 – sy'n cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer darparu addysg ar draws pob darparwr.

1.33 Mae'r dogfennau polisi hyn ar gyfer y sector addysg ôl-16 cyfan, ac ar gyfer yr holl system addysg ar gyfer pobl 3-19 mlwydd oed yn achos **Cymwys am Oes**. Ac eithrio rhai, nid yw'r camau sydd wedi eu cynnwys ynddynt yn benodol i golegau. Serch hynny, mae cyfraniad y sector addysg bellach yn weddol eglur yn y rhan fwyaf o achosion.

1.34 Comisiynwyd 'Adolygiad Hazelkorn'[15] gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r trefniadau trosolwg ar gyfer y system addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Cyhoeddwyd adroddiad Adolygiad Hazelkorn ym mis Mawrth 2016 a daeth i'r casgliad bod:

- gan Lywodraeth Cymru ddiffyg gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system addysg ôl-orfodol sy'n cyd-fynd ag anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru; a
- bod diffyg meddwl strategol a chydweithio rhwng sefydliadau cyhoeddus, yn arwain at gydweithrediad annigonol, diffyg màs critigol, a gormod o gystadleuaeth am adnoddau prin gyda fawr ddim budd i Gymru.

14 Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol o fis Gorffennaf 2014, **Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**, fod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i helpu pobl 16-18 mlwydd oed ond nad yw'r Fframwaith yn ddigon eglur ynghylch cymorth i bobl 19-24 mlwydd oed.

15 Yr Athro Ellen Hazelkorn (ar ran Llywodraeth Cymru), **Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru**, Mawrth 2016.

1.35 Argymhellodd Adolygiad Hazelkorn y dylid datblygu un weledigaeth gyffredin ar gyfer addysg ôl-16, yn seiliedig ar egwyddorion arweiniol penodol a chysylltiadau agosach rhwng polisi, darparwyr a nodau cymdeithasol ac economaidd. Argymhellodd yr Athro Hazelkorn hefyd y dylid sefydlu un asiantaeth ymreolaethol i gydgysylltu a goruchwylio'r sector ac i ddarparu'r weledigaeth. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ymgynghori ar sefydlu awdurdod strategol hyd braich newydd i oruchwylio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Byddai'r corff newydd yn gyfrifol am gynllunio, ariannu, contractio, sicrhau ansawdd, monitor ariannol ac adolygu perfformiad a risg.

1.36 Byddai angen i unrhyw strategaeth sydd ar gyfer y sector addysg bellach yn benodol gael ei hintegreiddio â'r weledigaeth gyffredin a argymhellwyd gan yr Athro Hazelkorn ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16. Gallai strategaeth benodol i'r sector bennu blaenoriaethau mwy hirdymor ar gyfer a sector ac esbonio'n fwy llawn sut y disgwylir i'r sector gyfrannu at amcanion polisi perthnasol. Dywedodd arweinwyr colegau ac uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru wrthym y byddent yn cefnogi datblygiad strategaeth o'r fath, er nad oeddent yn credu fod ei absenoldeb wedi atal colegau unigol rhag datblygu darpariaeth briodol yn eu hardaloedd.

## Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas dda gyda'r sector, mae cydweithrediad a gweithio ar y cyd yn gadarn yn gyffredinol, ond mae'r berthynas rhwng colegau ac ysgolion yn destun pryder i golegau mewn rhai ardaloedd

1.37 Tan 2015, un adran o Lywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am addysg bellach ac ysgolion, a chyfrifoldeb un Dirprwy Weinidog wedi'i wasanaethu gan yr Adran honno oedd cyllid addysg bellach a pholisi sgiliau tan 2016. Fodd bynnag, mae newidiadau diweddar wedi creu gwahanol linellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd:

- Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes sy'n gyfrifol am ariannu addysg bellach a sgiliau galwedigaethol, ac sy'n cyflwyno'r llythyr cylch gwaith Gweinidogol – ond Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg sy'n cymeradwyo'r gyllideb addysg bellach, a'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth (yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith) sy'n gyfrifol am ddysgu seiliedig ar waith, sgiliau sector, cyflogadwyedd ieuenctid ac oedolion. Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol sy'n parhau i fod yn gyfrifol am y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd gan gynnwys Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Mae swyddogion sy'n gyfrifol am addysg bellach yn gweithio yn rhan Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn bennaf – ond y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am bolisi ysgolion.

1.38 Ar y cam cynnar hwn, nid yw'n ymddangos bod y trefniadau newydd wedi achosi unrhyw anawsterau ymarferol, ond amlygodd y colegau i ni siarad â nhw y perygl y gallai polisi fod yn llai integredig a chydlynol dros amser.

1.39 Mae gan golegau berthynas dda gyda swyddogion yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am addysg bellach. Mae'r colegau i ni ymweld â nhw o'r farn bod y swyddogion yn gefnogol ac yn brofiadol a bod ganddynt ddealltwriaeth ragorol o'r sector. Mae'r colegau hyn hefyd o'r farn bod natur ac amseriad cyfathrebiadau yn effeithiol. Cyfeiriodd y colegau a swyddogion Llywodraeth Cymru at faint bach y sector yng Nghymru a pharhad staff yn Llywodraeth Cymru fel manteision allweddol ar gyfer cynnal cysylltiadau gwaith agos.

1.40 Mae colegau wedi sefydlu sawl rhwydwaith sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod pynciau penodol, er enghraifft, ar gyfer cyfarwyddwyr cyllid a phenaethiaid cwricwlwm. Mae'r rhwydweithiau hyn a ColegauCymru yn cynnig ffordd effeithlon i Lywodraeth Cymru ymgynghori a thrafod gyda'r sector, ac mae arweinwyr colegau o'r farn bod y trefniadau hyn yn effeithiol.

1.41 Mae'r rhan fwyaf o golegau yn darparu rhyw fath o addysg uwch a hysbyswyd am gysylltiadau da gyda sefydliadau addysg uwch, er gwaethaf rhai pryderon am gystadleuaeth rhwng y sectorau o ran y ddarpariaeth o gyrsiau galwedigaethau lefel uwch. Mae ColegauCymru wedi gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw prifysgolion Cymru yn bwriadu cynyddu rhaglenni gradd tair blynedd traddodiadol i bedair blynedd (gyda'r flwyddyn gyntaf yn gymhwyster lefel 3, a gynigir gan golegau addysg bellach yn nodweddiadol). Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar roi terfyn ar gymorth myfyrwyr a ariennir gan y cyhoedd ar gyfer cyrsiau o'r fath. Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o addysg uwch mewn colegau addysg bellach yn 2015,[16] a argymhellodd mwy o waith cydweithredol rhwng y sectorau, wedi'i ategu gan gynllunio rhanbarthol (Blwch 5).

**Blwch 5: Crynodeb o adolygiad 2015 o addysg uwch mewn colegau addysg bellach**

Canfu'r adolygiad bod colegau mewn sefyllfa dda i ddarparu hyfforddiant sgiliau lefel uwch, fel graddau sylfaen a Thystysgrifau Cenedlaethol Uwch, oherwydd eu cysylltiadau da gyda chyflogwyr lleol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y gallai colegau ddarparu cyrsiau canolradd yn hyblyg ac yn lleol. Canfu'r adolygiad y gallai colegau hefyd gyfrannu at ehangu mynediad at addysg uwch, yn enwedig i ddysgwyr a oedd angen darpariaeth ran-amser neu a oedd yn dymuno astudio'n agos i'w cartref. Argymhellodd yr adroddiad y dylid ehangu darpariaeth o'r fath mewn sectorau economaidd hollbwysig ac y dylai CCAUC a ColegauCymru weithio gyda'i gilydd i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

16 Llywodraeth Cymru, **Adolygiad o Addysg Uwch mewn Sefydliadau Addysg Bellach**, Dogfen Ymchwil Llywodraeth Cymru 063/2015, Mehefin 2015.

1.42 Mae cysylltiadau gwaith da rhwng colegau ac ysgolion yn hanfodol i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn cyfarwyddyd priodol ar eu hopsiynau yn 16 oed. Mae eu hangen hefyd i helpu dysgwyr i symud yn ddiffwdan i'r cam nesaf o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, a gallant fod o fudd mewn amrywiaeth o feysydd eraill. Er enghraifft, hysbysodd colegau am gydweithrediad da ar drafnidiaeth ysgol a choleg (Coleg Gwent), cytundeb i gymryd cyfrifoldeb am ddarpariaeth chweched dosbarth ysgol (Coleg Penybont), a chydweithio gyda Chyngor Caerdydd i adeiladu ysgol a chanolfan chweched dosbarth newydd ar safle yn nwyrain y ddinas (Coleg Caerdydd a'r Fro).

1.43 Fodd bynnag, mae cysylltiadau gwaith gydag ysgolion yn amrywio o fewn dalgylchoedd colegau hyd yn oed, a dywedodd rhai colegau y gall y berthynas ag ysgolion unigol fod yn anodd. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae colegau neu awdurdodau lleol yn ceisio cyfuno darpariaeth chweched dosbarth mewn canolfannau chweched dosbarth newydd neu golegau addysg bellach. Mynegodd rhai colegau bryder bod ysgolion yn cyfeirio disgyblion at eu dosbarthiadau chweched dosbarth eu hunain yn fwriadol er bod llwybr galwedigaethol mewn coleg yn amlwg yn fwy priodol. Mae'r sector o'r farn bod y rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i atgyfnerthu diwylliant academaidd cryf sy'n achosi dysgwyr a rhieni i weld addysg alwedigaethol fel opsiwn ail ddosbarth. Mae'r sector yn awyddus i hyn newid ac i ddatblygu system addysgol fwy integredig a chytbwys.

1.44 Fe'n hysbyswyd gan golegau bod gwrthwynebiad cryf gan ysgolion a rhieni yn aml i unrhyw gynnig a oedd yn golygu cau dosbarthiadau chwech ysgolion a throsglwyddo'r ddarpariaeth i ganolfan chweched dosbarth (y model trydyddol). Prin yw'r cynnydd y mae'r model trydyddol wedi ei wneud yng Nghymru, er bod Blaenau Gwent a Merthyr Tudful wedi cyflwyno model trydyddol llawn erbyn hyn (Blwch 6). Mae elfen o gyfuno yn digwydd neu yn yr arfaeth mewn sawl ardal arall. Gwnaethom ofyn i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) am ei safbwynt ar y mater ad-drefnu chweched dosbarth. Pwysleisiodd y Gymdeithas y tebygolrwydd y gellid gwella canlyniad llwyddiannus unrhyw adolygiad lleol trwy waith partneriaeth ac adeiladu perthynas effeithiol rhwng pob parti â budd yn seiliedig ar ddiben cyffredin a thystiolaeth glir.

**Blwch 6: Model chweched dosbarth trydyddol ym Mlaenau Gwent**

Yn 2010, ymrwymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ei hun i gau'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ei ysgolion uwchradd a throsglwyddo'r holl addysg ôl-16 i 'Ardal Ddysgu' newydd a adeiladwyd at y diben yng Nglynebwy, i gael ei rhedeg gan Goleg Gwent a'i hariannu'n rhannol trwy'r Rhaglen drosiannol, sef rhagflaenydd Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif. Roedd y Cyngor o'r farn y byddai canoli darpariaeth ôl-16 mewn safle newydd yn cynnig y manteision canlynol:

- Addysgu arbenigol ar gyfer dewis ehangach o gyrsiau safon Uwch, wedi ei wneud yn bosibl gan y nifer fwy o ddysgwyr;
- Amrywiaeth fwy o ddarpariaeth alwedigaethol, a oedd wedi bod yn gyfyngedig ym Mlaenau Gwent cyn hynny, gan olygu y bu'n rhaid i ddysgwyr deithio ymhellach i ffwrdd ar gyfer llawer o gyrsiau;
- Gwelliant i'r amgylchedd dysgu; ac
- Oherwydd y ffactorau hyn, gwelliant i gyrhaeddiad academaidd.

Fe wnaeth y Cyngor fwrw ymlaen â'r newidiadau er gwaethaf peth gwrthwynebiad gan ysgolion a rhannau o'r gymuned leol. Caewyd dosbarthiadau chwech mewn ysgolion i newydd-ddyfodiaid ym mis Medi 2012 pan agorwyd yr Ardal Ddysgu newydd. Ers hynny, mae canlyniadau safon Uwch a TGAU ar draws y fwrdeistref sirol wedi gwella, ac felly hefyd dangosyddion penodol eraill fel presenoldeb myfyrwyr. Mae'r Cyngor o'r farn bod y gwelliant ym mherfformiad academaidd Safon Uwch wedi'i briodoli'n bennaf i ganoli'r ddarpariaeth ôl-16 yn yr Ardal Ddysgu.

Mae'r effaith ariannol barhaus yn niwtral gan fod ysgolion a cholegau yn cael eu hariannu yn yr un ffordd ac ar yr un cyfraddau ag ar gyfer darpariaeth safon Uwch. Ariannwyd cost y trosglwyddiad, sef tua £1 filiwn, gan y Cyngor, i ysgolion barhau i addysgu dysgwyr yn ail flwyddyn eu cyrsiau safon Uwch yn 2012/13. Mae'r Cyngor o'r farn na chafodd diddymiad addysgu ôl-16 effaith ariannol andwyol ar yr ysgolion a effeithiwyd, a dywed bod pob un o'r tair ysgol hynny wedi cofnodi gwarged ariannol yn 2014/15.

1.45 Mae'r sector addysg bellach o'r farn gyffredinol bod ad-drefnu darpariaeth chweched dosbarth yn fwy effeithiol ac o fudd pennaf i ddysgwyr. Maent o'r farn bod canolfannau chweched dosbarth mwy yn cynnig dewis gwell, ansawdd addysgu gwell a chanlyniadau gwell yn y pen draw. Y farn gan y sector yw bod dosbarthiadau chwech bach yn cynnig amrywiaeth gyfyngedig o bynciau a maint dosbarthiadau bach iawn yn aml. Mae'r sector hefyd o'r farn bod meintiau dosbarthiadau bach yn awgrymu bod ysgolion yn defnyddio trefn croes-gymhorthdal, gan ariannu eu dosbarthiadau chwech gydag incwm a fwriedir ar gyfer addysg cyn-16.

1.46 Yng ngoleuni'r pryderon hyn a gwahanol safbwyntiau ar y model trydyddol, comisiynwyd adolygiad gan Lywodraeth Cymru o opsiynau ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth gan yr Athro Sue Maguire, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016.[17] Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod diffyg tystiolaeth gadarn i gefnogi'r syniad nad oedd dosbarthiadau chwech bach yn hyfyw. Daeth yr adroddiad i'r casgliad hefyd bod perygl y byddai ysgolion yn rhoi cymhorthdal i'w dosbarthiadau chwech trwy gyllid ar gyfer addysg ôl-TGAU a oedd yn cyfiawnhau asesiad pellach.

1.47 Nododd yr Athro Maguire bedwar opsiwn ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth, a model cwbl drydyddol ledled Cymru oedd un o'r rheini. Er bod model trydyddol wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus mewn rhannau o Gymru, roedd hyn wedi tueddu i fod mewn ardaloedd trefol lle mae trafnidiaeth i'r canolfannau chweched dosbarth newydd yn rhatach ac yn haws, ac a ategwyd gan adeiladu cyfleusterau newydd a fyddai'n rhy ddrud i'w hailadrodd ledled Cymru gyfan. Dylanwadodd amrywiaeth o ffactorau lleol, fel dymuniad i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac argaeledd opsiynau seiliedig ar ffydd, ar y gwrthwynebiad i newid. Awgrymodd yr Athro Maguire y byddai'n ddull mwy hyblyg ac ymarferol i bartneriaethau ardaloedd lleol adolygu'r ddarpariaeth a datblygu atebion wedi'u teilwra'n lleol, yn seiliedig ar dargedau ar gyfer cael gwared ar leoedd dros ben mewn ysgolion. Amlygodd hefyd yr angen i ddatblygu data perfformiad ôl-16 cymharol ar gyfer addysg bellach ac ysgolion (sydd bellach ar y gweill – paragraff 1.63a) ac i wneud rhagor o waith ymchwil i lenwi bylchau tystiolaeth a lledaenu arfer da o ran gweithio ar y cyd.

1.48 Comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil ar wahân[18] ar gysylltiadau posibl rhwng maint dosbarthiadau chwech ysgolion a chanlyniadau safon Uwch. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad oedd maint dosbarthiadau chwech yn gysylltiedig â pherfformiad safon Uwch, ac eithrio ar gyfer y graddau uchaf, gyda siawns disgybl o ennill tair gradd A* i A yn cynyddu'n raddol o 5% mewn dosbarthiadau chwech â thua 100 o ddisgyblion i 11% mewn dosbarthiadau chwech â thua 500 o ddisgyblion. Roedd hwb i'r effaith hon os oedd gan chweched dosbarth Flwyddyn 13 fawr a Blwyddyn 12 lai. Ar y llaw arall, roedd disgyblion a oedd yn mynychu dosbarthiadau chwech â Blwyddyn 12 fwy yn debygol o fod â sgoriau pwynt safon Uwch gwaeth. Mae'r rhesymau am yr effaith hon yn dal i gael eu hymchwilio.

17 Yr Athro Sue Maguire, **Papur gwyntyllu ar yr Opsiynau Posibl ar gyfer Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd Dosbarthiadau Chwech yng Nghymru**, Papur ymchwil cymdeithasol rhif 12/2016 Llywodraeth Cymru, Mawrth 2016.
18 Yr Athro James Foreman-Peck, **Effaith maint chweched dosbarth ysgolion ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 5**, Papur ymchwil cymdeithasol rhif 78/2016 Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2016.

## Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canllawiau blynyddol eglur i'r sector ond bu gan golegau bryderon am rai agweddau ar y canllawiau

1.49 Mae'r Gweinidog perthnasol yn cyflwyno llythyr cylch gwaith blynyddol i bob coleg sy'n nodi'r blaenoriaethau y gofynnir i golegau eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol. Cyflwynwyd y llythyr cylch gwaith blynyddol o 2011/12 mewn ymateb i gais gan y sector am ganllawiau mwy eglur, mwy manwl ar flaenoriaethau polisi. Nid yw colegau wedi'u rhwymo i'r canllawiau hyn, ond mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r blaenoriaethau a chamau gweithredu cysylltiedig gael eu hadlewyrchu yng nghynllun gweithredol pob coleg.

1.50 Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r llythyr cylch gwaith blynyddol greu fframwaith polisi newydd bob blwyddyn. Yn hytrach, bwriedir yn syml i'r blaenoriaethau bwysleisio agweddau penodol ar bolisi presennol a nodi camau penodol y disgwylir i golegau eu cymryd. Er enghraifft, nododd y llythyr gyfres o gamau yn 2015/16 i helpu i gynorthwyo'r agenda trechu tlodi, fel nodi a chynorthwyo dysgwyr a oedd mewn perygl o adael cyrsiau.

1.51 Mae'r llythyr cylch gwaith blynyddol yn adlewyrchu safbwyntiau'r Gweinidog ei hun ar flaenoriaethau polisi yn ogystal ag awgrymiadau gan benaethiaid isadrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru. Mae'r colegau i ni ymweld â nhw o'r farn bod llythyrau yn eglur ac maent yn eu cyfeirio'n briodol trwy eu cynlluniau gweithredol blynyddol. Roedd colegau'n gyfforddus â chynnwys y canllawiau blynyddol yn y llythyr cylch gwaith ar y cyfan, ond roedd ganddynt bryderon am agweddau penodol (Ffigur 7).

1.52 Roedd safbwynt cyson hefyd gan y colegau i ni ymweld â nhw bod llythyr blaenoriaeth 2016/17 yn fwy helaeth na rhai'r blynyddoedd cynt, a'i fod yn cyflwyno nifer sylweddol o ofynion newydd. Roedd gan golegau rai pryderon am amrywiaeth a chyfanswm y gwaith a oedd yn ofynnol, pa un a oedd y 'blaenoriaethau gwirioneddol' yn ddigon eglur, a cholled o ymreolaeth leol. O ganlyniad, dywedodd colegau ei bod yn anoddach iddynt ymgorffori cynnwys y llythyr yn eu cynlluniau cyflawni. Cydnabuwyd y pryderon hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru ac roeddent yn derbyn y byddai canllawiau â mwy o bwyslais yn ddymunol, wedi'u gosod yng nghyd-destun strategaeth fwy hirdymor ar gyfer addysg ôl-16 yn ddelfrydol, ac mae llythyr 2017/18 yn cynnwys llai o ofynion penodol. Dywedodd rhai colegau hefyd ei bod yn well ganddynt ganllawiau mwy hirdymor ar flaenoriaethau i wneud cynllunio'n haws ac yn fwy effeithiol.

Ffigur 7 – Pryderon gan golegau ynghylch canllawiau presennol Llywodraeth Cymru

| Gofyniad | Pryderon gan golegau |
|---|---|
| **Bagloriaeth Cymru**<br>Cyflwynwyd cymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru o 2015/16 gyda'r bwriad y byddai'n cael ei fabwysiadu'n gyffredinol erbyn mis Medi 2020. | • Roedd llawer o golegau o'r farn bod y polisi hwn yn afresymol o ragnodol a'i fod yn gyrru rhai dysgwyr mewn ardaloedd ar y ffin i astudio ar gyfer safon Uwch yn Lloegr yn hytrach na Chymru. |
| **Ailsefyll TGAU**<br>O 2015/16, mae'n ofynnol i lawer o ddysgwyr ôl-16 ailsefyll eu harholiadau TGAU Mathemateg a Saesneg os nad ydynt wedi ennill graddau A* i C yn y pynciau hyn. | • Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gradd A* i C mewn Mathemateg a Saesneg yn fantais fawr ar gyfer addysg bellach ac i'r farchnad gyflogaeth. Mae bellach yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr addysg bellach ailsefyll yr arholiad perthnasol os byddant wedi cael gradd D a'u bod yn dilyn cwrs blwyddyn, neu wedi cael gradd D neu E ac yn dilyn cwrs dwy flynedd.<br>• Roedd sawl coleg yn teimlo bod nad oedd y polisi yn ymarferol gan na allent ddarparu'r amser addysgu sy'n ofynnol yn realistig i ddysgwyr gyrraedd y safon angenrheidiol. Mynegwyd pryder ganddynt hefyd nad oedd Llywodraeth Cymru yn talu'r gost lawn er i £1.37 o gyllid ychwanegol gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2016 ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16. |
| **Pwyslais ar sgiliau lefel uwch**<br>Mae llythyrau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn gwneud y pwyslais ar ddatblygu sgiliau lefel uwch (lefel 3 ac uwch) yn eglur, gan fod gwaith ymchwil yn dynodi gwelliant mawr i botensial gyrfaol/enillion pobl â chymwysterau ar y lefel hon ac uwch (prin neu ddim effaith y mae cymwysterau lefel is yn ei chael).<br>Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn awyddus i golegau symud eu pwyslais tuag at gymwysterau lefel uwch, gan wthio pob dysgwr i wneud cymaint o gynnydd â phosibl. | • Roedd sawl un o'r colegau yn credu bod Llywodraeth Cymru yn amharod i ariannu cyrsiau lefel 1 ac, i raddau llai, lefel 2. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod wedi parhau i fod yn agored i ariannu cymwysterau lefel 1 a lefel 2, a'i bod i golegau gyflwyno'r achos o ran faint o ddarpariaeth yr oeddent yn teimlo oedd ei hangen.<br>• Hysbysodd colegau am alw parhaus am gyrsiau lefel is gan ddysgwyr a chyflogwyr ar draws y wlad; ac roeddent o'r farn bod y cymwysterau hyn yn sylfeini pwysig ar gyfer dysgu pellach ac yn gymwysterau annibynnol priodol i lawr o ddysgwyr nad ydynt yn academaidd eu natur.<br>• Roedd colegau hefyd yn pryderu nad oedd y pwyslais ar sgiliau lefel uwch yn cyd-fynd ag ymgyrch Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi, a oedd yn aml yn gofyn am bwyslais ar sgiliau sylfaenol a chymwysterau lefel is i gynnig llwybr allan i anweithgarwch economaidd a thlodi. |

Ffynhonnell: Ymweliadau gwaith maes Grant Thornton a Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae monitro ariannol Llywodraeth Cymru yn effeithiol ond nid oes unrhyw gyfres gyfunol o ddangosyddion i asesu perfformiad

### Mae monitro ariannol Llywodraeth Cymru yn effeithiol ac wedi cael ei wella'n ddiweddar gan ailgyflwyniad rhagolygon ariannol tymor canolig

1.53 Ym mis Ionawr 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gylchlythyr yn cyflwyno ei weithdrefnau monitro iechyd ariannol a'r gofynion cysylltiedig ar gyfer colegau. Mae'r cylchlythyr yn ei gwneud yn ofynnol i bob coleg ddarparu gwybodaeth ariannol fanwl[19] mewn fformat cyson dair gwaith y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r data a ddarparwyd gan golegau wedyn ac yn cyfrifo cymarebau ariannol allweddol a dangosyddion eraill o iechyd ariannol. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, mae swyddogion yn neilltuo pob coleg i un o bedwar categori iechyd ariannol (Blwch 7).

| Blwch 7: Esboniad o gategorïau iechyd ariannol Llywodraeth Cymru |
|---|
| Mae **Categori A** yn adlewyrchu bod sefyllfa ariannol y sefydliad a'i strategaeth ariannol yn cefnogi'r cynllun sefydliadol yn llawn. |
| Mae **Categori B** yn adlewyrchu bod sefyllfa ariannol y sefydliad a'i strategaeth ariannol yn cefnogi'r cynllun sefydliadol ar hyn o bryd, ond y gellid ei gryfhau. |
| Mae **Categori C** yn adlewyrchu bod angen gwella sefyllfa ariannol y sefydliad neu ei strategaeth ariannol er mwyn cefnogi'r cynllun sefydliadol. |
| Mae **Categori D** yn adlewyrchu bod sefyllfa ariannol y sefydliad yn wan ac nad yw'n cefnogi ei strategaeth ariannol na'r cynllun sefydliadol. |
| Mae Atodiad 5 yn crynhoi'r meini prawf ar gyfer neilltuo coleg i gategori. |

1.54 Hysbysir y coleg am y categori ond mae'n gyfrinachol i Lywodraeth Cymru fel arall, ar sail sensitifrwydd masnachol. Cyflwynir crynodeb o'r wybodaeth ariannol a ddarperir gan bob coleg a chrynodeb sector i'r rhwydwaith cyfarwyddwyr cyllid addysg bellach. Cyflwynir adroddiad blynyddol yn crynhoi canlyniadau'r monitro iechyd ariannol i'r Gweinidog perthnasol hefyd. Trafodir iechyd ariannol presennol y sector ym mharagraffau 2.2 i 2.18.

1.55 Mae'r cylchlythyr yn cynnwys canllawiau priodol ar gyfer gweithredu os bydd colegau mewn trafferthion ariannol. Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw goleg yng nghategori D, neu gategori C â sefyllfa sy'n gwaethygu, baratoi cynllun adfer. Mae Llywodraeth Cymru yn hyblyg ar union gynnwys a fformat y cynllun adfer, ond mae'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu coleg fonitro cynnydd gyda'r cynllun. Mae dau goleg wedi paratoi cynlluniau adfer ers 2012.

19 Mae'r wybodaeth yn cynnwys dadansoddiad manwl o incwm a gwariant, llifoedd arian parod, a mantolen gyda manylion asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn.

1.56 Mae gan Lywodraeth Cymru yr awdurdod i wneud cais am wybodaeth benodol a gwneud gwaith monitro ychwanegol o golegau mewn trafferthion ariannol. Fodd bynnag, mae graddau'r gweithgarwch monitro yr ymgymerir ag ef yn dibynnu ar asesiad Llywodraeth Cymru o gynllun adfer y coleg ac ansawdd ei dîm rheoli. Mae uwch swyddogion yn ymweld â cholegau mewn sefyllfa ariannol wan yn rheolaidd i drafod cynnydd eu cynlluniau adfer. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y trefniadau hyn yn briodol ac yn gymesur.

1.57 Rydym o'r farn bod gweithdrefnau monitro Llywodraeth Cymru ar gyfer asesu iechyd ariannol presennol pob coleg yn effeithiol. Mae'r broses wedi ei hen sefydlu ac yn gweithio'n ddidrafferth, ac roedd y colegau i ni ymweld â nhw yn fodlon gyda'r broses a'r paramedrau a ddefnyddiwyd.

1.58 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, paratowyd rhagolygon ar gyfer un flwyddyn i'r dyfodol yn unig, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, ond roedd yn ofynnol i golegau yn Lloegr a'r Alban baratoi rhagolygon am ddwy flynedd i'r dyfodol. Fodd bynnag, gofynnodd Llywodraeth Cymru i golegau baratoi eu rhagolygon Gorffennaf 2016 ar gyfer y tair blynedd ddilynol yn hytrach na blwyddyn i'r dyfodol. Mae CCAUC yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau addysg uwch lunio rhagolygon bob blwyddyn am bedair blynedd i'r dyfodol. Mae'n rhaid i sawl coleg gwblhau rhagolygon o'r fath nawr, naill ai oherwydd eu bod yn derbyn cyllid yn uniongyrchol gan CCAUC a bod angen iddynt eu paratoi i gael cymeradwyaeth i'w cynllun ffioedd a mynediad, neu oherwydd eu bod yn rhan o sefydliadau addysg uwch sy'n ddarostyngedig i'r un gofyniad. Yn absenoldeb cynllunio ariannol tymor canolig, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal eu hasesiad eu hunain o gydnerthedd ariannol pob coleg a'i ragolygon tebygol ar gyfer y dyfodol.

## Nid oes gan Lywodraeth Cymru un gyfres gyfunol o ddangosyddion perfformiad i fonitro'r sector yn eu herbyn eto

1.59 Cynllun gweithredol coleg yw'r sail ar gyfer gweithdrefnau monitro heb fod yn ariannol Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag arweinwyr colegau ddwywaith y flwyddyn i drafod cynnydd yn erbyn y cynllun a gytunwyd, gan ddefnyddio data ar ddysgwyr a chymwysterau a gyflwynwyd gan golegau. Mae'r swyddogion yn cymharu ymrestriadau fesul cwrs a math o gymhwyster gyda'r rhai a ragwelir yn y cynllun gweithredol ac yn cwestiynu unrhyw amrywiadau sylweddol. Ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd, mae swyddogion yn trafod cyflawniadau gwirioneddol yn erbyn targedau yn y cynllun ac yn erbyn meincnodau ehangach. Cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant yw'r tri phrif fesur o berfformiad (Blwch 8).

**Blwch 8: Esboniad o fesurau canlyniadau dysgwyr**

Y **gyfradd gwblhau** yw nifer y dysgwyr sy'n mynd yn eu blaenau i gwblhau eu cyrsiau llawn, fel cyfran o'r holl ddysgwyr sydd wedi ymrestru ar y cwrs wyth wythnos ar ôl iddo gychwyn hy ac eithrio unrhyw ymadawyr cynnar.

Y **gyfradd cyrhaeddiad** yw nifer y dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster targed ar gyfer eu cwrs, fel cyfran o'r holl ddysgwyr sy'n cwblhau eu cwrs.

Y **gyfradd llwyddiant** yw nifer y dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster targed ar gyfer eu cwrs, fel cyfran o'r holl ddysgwyr sydd wedi ymrestru ar y cwrs wyth wythnos ar ôl iddo gychwyn (ac eithrio ymadawyr cynnar eto).

1.60 Mae swyddogion hefyd yn monitro cyfraddau gadael gweithgarwch dysgu ar gyfer pob cwrs i sicrhau eu bod yn cadw'n gymharol isel. Caiff ymadawyr cynnar, a ddiffinnir fel myfyrwyr sy'n gadael o fewn wyth wythnos i ddechrau eu cwrs, eu heithrio o'r cyfrifiad hwn ac ni chânt eu cyfrif wrth gyfrifo hawl i gyllid neu gyfraddau llwyddiant (paragraff 1.22). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn casglu data ar gyfraddau gadael yn gynnar, sy'n gymharol isel, er nad yw'r rhain yn cael eu monitro'n ffurfiol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn sicr am ffigurau gwirioneddol oherwydd pryderon am gywirdeb data. Bwriedir i ddull newydd arfaethedig ar gyfer cyfrifo perfformiad fesur gadawyr cynnar ar lefel rhaglen, er y bydd angen gwelliannau i ansawdd data er mwyn rhoi hyn ar waith.

1.61 Mae Llywodraeth Cymru wedi monitro bodlonrwydd myfyrwyr trwy arolwg 'Llais y Dysgwr i Gymru', a gynhaliwyd yn flynyddol rhwng 2013 a 2015 (paragraff 2.60). Mae canlyniadau llawn yr arolwg, ynghyd â chrynodebau ar gyfer pob coleg, wedi eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi adroddiadau canlyniadau dysgwyr blynyddol ar gyfer pob coleg. Mae'r adroddiadau'n cynnwys:

- Y cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant cyffredinol o'u cymharu â chyfartaledd Cymru;
- Cyfraddau llwyddiant fesul maes pwnc a math o gwrs (wedi'u dosbarthu i bedwar categori perfformiad), o'u cymharu â chyfartaledd Cymru; a
- Gwybodaeth gyd-destunol am oed a rhyw, ethnigrwydd a lefel amddifadedd domisil y dysgwr (y ward etholiadol y mae'n byw ynddo) – i asesu proffil dysgwyr y coleg.

1.62 Prin yw'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o ran datblygu data dibynadwy a chynhwysfawr ar le mae dysgwyr yn mynd yn y pen draw - yr hyn sy'n digwydd i ddysgwyr ar ôl iddynt adael eu cyrsiau o ran mynd yn eu blaenau i addysg bellach neu gyflogaeth a'r effaith ar enillion. Nid yw'r data canlyniadau hyn yn cael eu casglu ar hyn o bryd, ac eithrio i raddau cyfyngedig ar gyfer rhaglennu dysgu seiliedig ar waith. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar arolygon achlysurol o ddysgwyr blaenorol yn rhan o werthusiadau prosiect. Mae'n anodd casglu data ar le mae dysgwyr yn mynd yn y pen draw, gan nad yw colegau mewn cysylltiad rheolaidd â dysgwyr ar ôl iddynt adael y coleg.

1.63 Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei fesurau canlyniadau[20] ar gyfer addysg bellach i fynd i'r afael â diffygion y system bresennol. Ceir tair prif ffrwd i'r gwaith:

a **Cyflawniad dysgwyr**: Mae'r gyfradd lwyddiant ar gyfer colegau addysg bellach yn cyfrif canlyniadau a enillwyd yn ystod un flwyddyn academaidd yn unig, ac nid yw'n ystyried symud i'r ail flwyddyn ar gyfer cyrsiau dwy flynedd. Nid yw'n casglu chwaith gwahaniaeth o ran graddau neu bwyntiau cymhwyster. Mewn cyferbyniad, mae mesurau canlyniadau ar gyfer cymwysterau safon Uwch a ddarperir gan ddosbarthiadau chwech ysgolion yn ystyried pwyntiau cymhwyster (yn gysylltiedig â graddau) ond nid cyfraddau cadw dysgwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn modelu mesurau newydd a fydd yn cymryd cyfraddau cadw a chyrhaeddiad dysgwyr, gan gynnwys graddau pan fo hynny'n briodol, ar gyfer y ddau sector hyn fel y gellir eu hasesu'n gyson. Mae swyddogion yn bwriadu i fesurau newydd fod ar waith erbyn 2016/17.

b **Gwerth ychwanegol**: Ceir mesur o werth ychwanegol ar gyfer addysg cyn-16 ar hyn o bryd, ond nid ar gyfer ôl-16. Mesur o'r cynnydd ychwanegol y mae dysgwyr wedi ei wneud y tu hwnt i'r lefel a ddisgwyliwyd o ystyried eu cyrhaeddiad blaenorol a ffactorau eraill fel rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd yw gwerth ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi contractio gydag ymgynghorwyr i ddatblygu model i asesu gwerth ychwanegol ar gyfer cymwysterau ôl-16, ac mae'n bwriadu cael y mesurau newydd ar waith ar gyfer 2017/18.

c **Lle mae dysgwyr yn mynd yn y pen draw**: Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Addysg a Phensiynau, sydd wedi cytuno mewn egwyddor y dylai Cymru gymryd rhan yn yr Astudiaeth Canlyniadau Addysg Hydredol. Bydd yr astudiaeth yn cyfateb data canlyniadau dysgwyr â chofnodion cynllun Talu Wrth Ennill Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sy'n dangos enillion a statws cyflogaeth unigolyn, er mwyn olrhain effaith cyrsiau ar ddysgwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl dechrau casglu data am le mae dysgwyr yn mynd yn y pen draw yn ystod 2017. Yn gyfochrog â hyn, mae hefyd yn sefydlu ei rhaglen cysylltu data ei hun i ganfod lle mae dysgwyr yn mynd yn y pen draw o ran addysg.

20 Llywodraeth Cymru, **Mesurau cyson ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru**, Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, Ionawr 2017

1.64 Mae colegau yn asesu ansawdd eu cyrsiau eu hunain. Mae'n ofynnol iddynt anfon cynllun datblygu ansawdd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn rhan o adroddiad hunanasesu cynhwysfawr. Ni chaiff yr adroddiad hwn ei asesu'n fanwl gan swyddogion Llywodraeth Cymru, sy'n dibynnu ar Estyn i gynnig trosolwg allanol o ansawdd cyrsiau, perfformiad academaidd, ac arweinyddiaeth (Blwch 9).

**Blwch 9: Esboniad o arolygiad Estyn o'r sector addysg bellach**

Rhoddodd Estyn derbyn ar arolygiadau llawn dros dro yn 2013 am gyfnod o ddwy flynedd wrth iddo adolygu'r system arolygu ar gyfer y sector yn dilyn newidiadau i fframwaith cynllunio ac ariannu Llywodraeth Cymru a sawl achos o uno colegau. Yn y cyfamser, adolygwyd adroddiad hunanasesu pob coleg gan Estyn a chadwodd arolygydd (a elwir yn 'arolygydd cyswllt') mewn cysylltiad â'r coleg gan drafod cynnydd yn rheolaidd. Cyflwynodd yr arolygydd cyswllt lythyr blynyddol i gorff llywodraethu'r coleg yn 2014, a oedd yn adroddiad cryno o'i safbwyntiau ar gynnydd y coleg i bob pwrpas, yn seiliedig ar y cyfarfodydd hyn ac ar adolygiad o ddata cyhoeddedig. Mae Estyn yn parhau i gadw cysylltiad â cholegau trwy ymweliadau arolygydd cyswllt rheolaidd.

Mae Estyn wedi dechrau cyfnod newydd o arolygiadau yn ddiweddar ar gyfer pob coleg o 2015 ymlaen. Mae'r arolygiadau yn cynnwys asesiad o berfformiad ac ansawdd darpariaeth gyffredinol colegau, adolygiad o arweinyddiaeth a rheolaeth colegau, ac asesiad mwy manwl o sampl o feysydd dysgu i asesu eu canlyniadau, ansawdd dysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth.

1.65 Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyfuno'r data a'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael yn un set o ddangosyddion perfformiad y mae'n mesur ac yn adrodd ar berfformiad y sector a cholegau unigol yn eu herbyn. Fel cyrff ymreolaethol, mae pob coleg yn penderfynu ar ei ddangosyddion perfformiad allweddol ei hun (sydd bob amser yn cynnwys y cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant a ddisgrifir ym Mlwch 8) a'i gorff llywodraethu sy'n gyfrifol am bennu amcanion perfformiad a monitro cyflawniad. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymyrryd yn y broses hon nac yn pennu targedau penodol ar gyfer y sector, gan gyfyngu ei hun i gymeradwyo a monitro'r cynllun gweithredol a gofynion penodol ar gyfer materion fel casglu data. Mae'r sefyllfa hon yn cyferbynnu â'r sefyllfa ar gyfer addysg uwch, lle mae CCAUC yn pennu amrywiaeth o dargedau sy'n berthnasol i'r sector yn ei gyfanrwydd ac yn cynnwys amcanion fel ehangu mynediad, ansawdd y ddarpariaeth, cyflogaeth graddedigion, ymchwil, a chynyddu nifer y dysgwyr rhan-amser.

1.66 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad oes ganddi ddarlun cyffredinol o berfformiad a gallu pob sefydliad. Mae rhannau eraill o'r DU wedi datblygu gwahanol ddulliau o asesu perfformiad (Blwch 10). Treialwyd proses gan swyddogion yn 2015 a oedd yn sgorio pob coleg ar sail iechyd ariannol, seilwaith, cyllid, cynllunio a darparu'r cwricwlwm, rheoli ansawdd a data, a pholisi cyffredinol, ond penderfynwyd bod angen gwneud rhagor o waith cyn y gellid ei lansio fel fframwaith perfformiad cadarn.

**Blwch 10: Monitro perfformiad addysg bellach yn yr Alban a Lloegr**

Yn **yr Alban**, mae colegau ymgorfforedig yn gyrff llywodraeth ganolog hyd braich o fewn y sector cyhoeddus (Atodiad 2). Mae'r Scottish Funding Council yn gwerthuso perfformiad rhanbarthau coleg trwy gytundebau canlyniadau sy'n nodi'r cyfraniad y bydd pob rhanbarth coleg yn ei wneud at nodau strategol a blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth yr Alban ar gyfer addysg ôl-16. Mae cytundebau canlyniadau yn para cyfnod o dair blynedd, ac yn cael eu diweddaru'n flynyddol ac yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad. Mae'r dangosyddion perfformiad yn cynnwys materion fel iechyd ariannol, cyfanswm y ddarpariaeth gyffredinol, ac ar gyfer grwpiau blaenoriaeth, ansawdd dysgu (gan gynnwys cymwysterau a symud i lefelau uwch) ac ymgysylltiad cyflogwyr. Mae'r Scottish Funding Council yn adrodd ar berfformiad ar gyfer y sector yn gyffredinol ond nid ar gyfer colegau unigol; ac mae wedi gorfodi cosbau ariannol yn y gorffennol pan nad yw canlyniadau a gytunwyd wedi cael eu sicrhau.

Mae gan golegau yn **Lloegr** yr un statws â'r rhai yng Nghymru a chânt eu goruchwylio gan yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau, sy'n defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad i asesu risg mewn colegau unigol. Mae'r dull hwn yn cynnwys tri dangosydd risg ariannol allweddol, pedwar dangosydd risg ansawdd allweddol, a mwy nag 20 o ddangosyddion risg eraill yn cynnwys materion fel contractio ac is-gontractio, ansawdd data, a phrentisiaethau. Mae'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau yn adrodd yn ôl i golegau ar ei hasesiad o'u hiechyd ariannol, ac yn codi pryderon yn ffurfiol gyda cholegau pan fydd ei dadansoddiadau'n awgrymu bod perfformiad y coleg wedi gwaethygu islaw sbardunau diffiniedig penodol i gymell sgôr 'annigonol'. Ar yr adeg hon, mae'n gallu ategu amodau ychwanegol at ei chyllid.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu'r sector i ddatblygu ei hyfforddiant a safonau arweinyddiaeth a llywodraethu ei hun, er bod gwahaniaethau yn y dull o fonitro llywodraethiad rhwng y sector addysg bellach ac addysg uwch

1.67 Mae'r **Memorandwm Ariannol**, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014, yn cynnig canllawiau eglur ar atebolrwydd am y defnydd o arian cyhoeddus gan adlewyrchu statws ymreolaethol colegau. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllaw archwilio â chanllawiau manwl ar benodiad, cyfrifoldebau a rheolaeth swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol coleg a gweithrediad ei bwyllgor archwilio. Mae'n ofynnol i archwilwyr allanol gadarnhau bod cyllid cyhoeddus wedi cael ei ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Ariannol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno cyfeiriad cyfrifon sy'n nodi fformat a datgeliadau cyfrifon blynyddol colegau. Bwriedir i'r cyfeiriad cyfrifon sicrhau cyfrifyddu cadarn a chyson gan golegau, ond nodwyd rhai anghysondebau gennym yn ffordd yr oedd taliadau cydnabyddiaeth staff uwch wedi'u cofnodi yng nghyfrifon 2014/15 colegau.[21]

21 Adroddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ar dâl uwch reolwyr yn sector cyhoeddus Cymru (gan gynnwys colegau addysg bellach, o ystyried faint o arian cyhoeddus a dderbyniwyd ganddynt) ym mis Tachwedd 2014. Argymhellodd y Pwyllgor fwy o gysondeb wrth adrodd ar dâl uwch reolwyr gan awgrymu datgeliadau penodol y dylid eu gwneud mewn adroddiadau a chyfrifon blynyddol. Derbyniwyd yr argymhellion hyn gan Lywodraeth Cymru, ond nodwyd rhai anghysondebau gennym o ran tâl uwch reolwyr a adroddwyd yng nghyfrifon cyhoeddedig colegau ar gyfer 2014/15.

1.68 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r sector i ddatblygu ei hyfforddiant a'i safonau llywodraethu ei hun trwy ariannu prosiectau ariannu a gyflawnir gan ColegauCymru. Mae'r sector wedi datblygu ei god llywodraethu ei hun (Blwch 11). Mae ColegauCymru hefyd yn cynnig sesiynau hyfforddiant llywodraethu cryno i aelodau cyrff llywodraethu yn flynyddol.

**Blwch 11: Esboniad o god llywodraethu addysg bellach**

Cyhoeddwyd 'Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru' gan ColegauCymru ym mis Ionawr 2016 gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Datblygwyd y Cod ar y cyd ag arweinwyr colegau a chynrychiolwyr myfyrwyr i ddisodli'r canllawiau mwy rhagnodol a manwl a luniwyd ym 1999 gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (CCABC), gyda rhywbeth a ystyriwyd sy'n fwy addas ar gyfer ymreolaeth fwy colegau ar ôl cyflwyno'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) yn 2014.

Mae'r Cod yn nodi gwerthoedd craidd llywodraethu colegau a saith elfen y mae arweinwyr colegau wedi ymrwymo iddynt:

- Strategaeth ac arweinyddiaeth
- Cyd-atebolrwydd
- Strategaeth ariannol  ac archwilio
- Dysgu ac addysgu
- Ymatebolrwydd
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Llywodraethu effeithiol

Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau ar gyfer pob un o'r elfennau hyn, llawer ohonynt yn seiliedig ar egwyddorion, ond hefyd â gofynion penodol. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am gorff llywodraethu annibynnol â chadeirydd anweithredol, wedi'i gefnogi gan glerc; ac i'r corff llywodraethu gymeradwyo cynllun strategol, strategaeth ariannol a rheolaethau ariannol a dirprwyaethau awdurdod priodol.

1.69 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai ei swyddogaeth yw gosod safonau sylfaenol ar gyfer y sector yn unol â deddfwriaeth, a sicrhau gwerth am arian a defnydd priodol o unrhyw gyllid cyhoedd y mae'n ei ddarparu i golegau. Yn 2009, daeth Llywodraeth Cymru ag asesiadau llywodraethu trylwyr i ben yn rhan o ymgyrch effeithlonrwydd. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y perygl o lywodraethu gwael wedi lleihau'n sylweddol, gan fod y colegau wedi aeddfedu fel sefydliadau ac yn datblygu mwy o gapasiti rheoli drwy'r rhaglen o uno colegau. Mae Llywodraeth Cymru bellach o'r farn ei bod yn amhriodol iddynt asesu safonau llywodraethu ym mhob coleg. Mae'r berthynas gref rhwng colegau a Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig rhywfaint o sicrwydd bod risgiau yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.

1.70 Mae Estyn yn asesu'r arweinyddiaeth a'r llywodraethu ym mhob coleg yn rhan o'i broses arolygu lawn. Mae Estyn wedi dod i'r casgliad bod arweinyddiaeth a rheolaeth colegau yn gadarn yn gyffredinol a bod prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith yn y tri choleg a arolygodd yn 2015 a 2016. Mae Estyn wedi dyfarnu bod dau goleg yn 'rhagorol' o ran arweinyddiaeth a rheolaeth ac wedi dyfarnu bod y coleg arall yn 'dda'.

1.71 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o adroddiad a chyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio pob coleg, a'r adroddiadau blynyddol gan archwilwyr mewnol a phwyllgor archwilio'r corff llywodraethu. Nid oes unrhyw bryderon mawr wedi codi o'r adolygiadau hyn yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r swyddogion yn cynnal adolygiadau ar wahân, mwy manwl o bryderon penodol y tynnir eu sylw atynt. Bu dau adolygiad o'r fath yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn trafod problem ariannol mewn un coleg a threfniadau llywodraethu ar gyfer sefydliad a oedd newydd uno.

1.72 Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu mentrau a fwriedir i wella arweinyddiaeth a rheolaeth yn fwy cyffredinol yn y sector (Ffigur 8).

1.73 Mae'r Ymddiriedolaeth Addysg Bellach ar gyfer Arweinyddiaeth hefyd wedi ariannu adolygiad o wth o golegau i asesu pa mor dda yr oedd y sector wedi ei baratoi i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol. Comisiynwyd yr adroddiad, **Gweddnewidiad Arweinyddiaeth Addysg Bellach yng Nghymru**, gan Goleg Gwent ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016. O ran llywodraethu, canfu'r adroddiad bod angen i golegau:

- Amrywio eu byrddau a bod yn fwy rhagweithiol wrth recriwtio aelodau bwrdd newydd;
- Datrys rhywfaint o ansicrwydd gweddilliol ynghylch swyddogaethau llywodraethwyr a rheolwyr; a
- Darparu hyfforddiant arweinyddiaeth mewn rheoli newid ac ymwybyddiaeth fasnachol.

Ffigur 8 – Mentrau arweinyddiaeth a rheolaeth diweddar a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru

| Menter | Yr hyn y mae'n ei wneud |
|---|---|
| **Arwain Cymru** | Rhaglen hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth, o'r enw 'Arwain Cymru' ar gyfer hyd at 15 o uwch reolwyr colegau y flwyddyn. Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i gynyddu effeithiolrwydd personol arweinwyr unigol yn ogystal â chynyddu capasiti yn y sector addysg bellach yn ei gyfanrwydd, o gofio bod llawer o arweinwyr colegau yn agosáu oedran ymddeol ac y bu gostyngiad i nifer y rheolwyr sy'n cymryd swyddi yn sector Cymru o'r tu allan i Gymru. Fe'i darperir gan AoC Create, yn gweithio mewn partneriaeth â ColegauCymru, ar ran Llywodraeth Cymru. £500,000 dros bum mlynedd yw cyfanswm gwerth y rhaglen. |
| **Rhaglen gydnerthedd addysg bellach** | Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu helpu'r sector i wella ei gydnerthedd nawr drwy gomisiynu ymgynghoriaeth annibynnol i golegau. Bydd y cymorth hwn yn cael ei deilwra i anghenion pob coleg, gyda phwyslais ar arweinyddiaeth, cynaliadwyedd ariannol ac ymatebolrwydd cyflogwyr. Bydd yr ymgynghorwyr yn adrodd yn ôl i bob coleg gydag argymhellion ac yn cynnig cymorth dilynol fel sy'n briodol. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys hyfforddiant a chanllawiau i'r sector yn ei gyfanrwydd, yn seiliedig ar ganlyniadau'r adolygiadau. £200,000 dros ddwy flynedd yw cyfanswm gwerth y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru wedi tendro ar gyfer yr ymgynghorwyr ond penderfynodd ohirio'r broses dendro dros dro tra ei fod yn adolygu cwmpas y prosiect. |

1.74 Ceir gwahaniaethau yn y ffordd y mae cyrff trosolwg yn mynd ati i fonitro llywodraethiad yn y sectorau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. Mae CCAUC yn gwneud gwaith monitro mwy manwl o lywodraethu ac arweinyddiaeth mewn prifysgolion nag y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o golegau, er bod y ddau sector yn mwynhau lefelau tebyg o ymreolaeth (Blwch 12). Nid ydym wedi ceisio cymharu effeithiolrwydd neu gymesuredd y gwahanol ddulliau o fonitro llywodraethiad. Rydym yn tynnu sylw at y mater gan fod gan hwn oblygiadau i unrhyw gamau pellach tuag at fwy o gydgysylltiad neu integreiddiad ar draws y ddau sector, fel y rhagwelir, er enghraifft, yn adolygiad Hazelkorn (paragraff 1.35).

**Blwch 12: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru – adolygiad risg sefydliadol o sefydliadau addysg uwch**

Mae CCAUC yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth ysgrifenedig i hysbysu ei adolygiad risg blynyddol o bob sefydliad, gan gynnwys gwybodaeth rheolaeth fewnol prifysgolion, datganiadau ariannol sydd wedi'u cyhoeddi, ystadegau ac adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r broses adolygu risg sefydliadol yn asesu trefniadau ariannol, llywodraethu a rheoli, ystadau, ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth, materion myfyrwyr ac ansawdd a chyfeiriad strategol sefydliadau. Yn seiliedig ar gyfanswm y gwaith hwn, mae CCAUC yn dosbarthu pob agwedd yn risg uchel, canolig neu isel ac yn cyflwyno adroddiad ffurfiol i bob sefydliad gydag un sgôr risg cyffredinol. Mae'r adroddiad cyfrinachol o'r sgôr risg cyffredinol yn amlinellu barn CCAUC ar unrhyw faterion sydd angen sylw a pha un a yw pob agwedd ar lywodraethu yn nodi ar ôl asesiad ei fod yn gwella, yn sefydlog neu'n dirywio.

Hefyd, mae aelodau o'r Cyngor ac uwch swyddogion o CCAUC yn cyfarfod cyrff llywodraethu prifysgolion yn ôl amserlen reolaidd (bob tair blynedd) i drafod materion allweddol sy'n wynebu pob sefydliad. Mae CCAUC o'r farn bod y cyfarfodydd hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr iddo am yr heriau a wynebir gan bob sefydliad a'r sector yn ei gyfanrwydd, a'r ffordd y mae pob corff llywodraethu yn arfer ei swyddogaeth graffu. Ategir y cyfarfodydd hyn gan ymweliadau Adolygiad Sicrwydd Sefydliadol bob tair blynedd, pan fydd swyddogion CCAUC yn adolygu amgylchedd rheoli pob sefydliad, ac ymgysylltu rheolaidd arall ag uwch reolwyr prifysgolion.

## Mae Llywodraeth Cymru ar gam cynnar o ran ystyried sut y bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn effeithio ar ei chyfeiriad, ei chyllid a'i throsolwg o addysg bellach

1.75 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y cam diweddaraf o ymsefydlu datblygu cynaliadwy yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gyhoeddi amcanion sydd â'r nod o sicrhau bod eu cyfraniad at y saith nod llesiant cenedlaethol mor fawr â phosibl. Mae hefyd yn ofynnol iddynt gymryd pob cam rhesymol i fodloni'r amcanion hynny. Mae'r Ddeddf yn nodi pum ffordd o weithio a all gefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol – integreiddio, cydweithio, meddwl hirdymor, cynnwys pobl ac atal (Ffigur 9).

1.76 Mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhwymo gan y Ddeddf ond nid yw colegau. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r mwyafrif llethol o gyllid i golegau, yn ogystal â chanllawiau a chyfeiriad polisi, ac felly dylai'r Ddeddf fod yn ddylanwad sylweddol ar y sector.

Ffigur 9 – Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru: Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol - Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.77 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am addysg bellach yn cydnabod bod eu meddyliau ynghylch y Ddeddf ar y camau cynnar, ac felly nid ydynt wedi nodi unrhyw newidiadau yr hoffent eu gwneud i drefniadau cyfeiriad, cyllid neu drosolwg eto. Bydd bodloni gofynion y Ddeddf yn her i Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae'n bosibl y gallai'r pwyslais presennol ar gynllunio a chyllidebau blynyddol ac absenoldeb strategaeth gyffredin gael ei ystyried yn anghyson ag egwyddorion y Ddeddf o wneud penderfyniadau hirdymor ac integredig.

1.78 Yn y cyfamser, mae pob coleg ac eithrio un ymhlith 390 o sefydliadau ledled Cymru sydd wedi llofnodi Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (ar 31 Mawrth 2016). Ymrwymiad cyhoeddus, gwirfoddol yw'r Siarter, gan sefydliad sydd wedi'i leoli yng Nghymru i fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel ei egwyddor drefnu ganolog ac i ymsefydlu datblygu cynaliadwy yn ei broses o wneud penderfyniadau a'i ffyrdd o weithio. Nid yw llofnodi'r Siarter yn arwain at unrhyw ymrwymiadau penodol nac yn gwneud cydymffurfiad ag unrhyw weithdrefnau ffurfiol yn ofynnol[22].

1.79 Comisiynodd ColegauCymru brosiect ymchwil yn 2016 i asesu arfer presennol y sector o ran datblygu cynaliadwy, i ystyried goblygiadau polisi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac amlygu sut y gallai'r sector addysg bellach gyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol.

1.80 Casglodd yr adroddiad[23] bod y sector mewn sefyllfa dda i ddatblygu ar sail y cryfderau presennol, a bod peth arfer rhagorol yn bodoli lle'r oedd egwyddorion cynaliadwyedd wedi'u hintegreiddio mewn prosesau rheoli penodol. Fodd bynnag, y cam nesaf oedd cymhwyso'r egwyddorion i gynllunio sefydliadol. Roedd yr adroddiad yn nodi cyfleoedd i ddefnyddio'r Ddeddf fel fframwaith ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, gwaith ar y cyd gydag addysg uwch, ymgysylltu â byrddau gwasanaethau cyhoeddus, cynllunio ariannol tymor hirach, cynllunio gweithlu a datblygu arweinwyr.

22 Gweinyddwyd y rhwydwaith o lofnodwyr y Siarter gan Cynnal Cymru ar ran arfer Llywodraeth Cymru. Gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi bod y Siarter yn cael ei adolygu'n barhaus i wneud yn siŵr ei fod yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth honno.

23 Dinas a Sir Abertawe a Netherwood Sustainable Futures, **The Practical and Policy Implications of the Wellbeing of Future Generations Act on the FE sector in Wales**, Adroddiad Ymchwil ColegauCymru, mis Ionawr 2017.

## Rhan 2

Mewn ymateb i lai o gyllid, mae colegau wedi torri darpariaeth a chostau rhan-amser, mae iechyd ariannol yn amrywio ar draws y sector ac nid yw’r effaith ar ansawdd a chanlyniadau yn eglur eto




2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio cydnerthedd ariannol y sector addysg bellach, yr ymateb i gyfyngiadau cyllid ac effaith uno colegau. Yng nghyd-destun gostyngiadau i gyllid, mae hefyd yn ystyried tystiolaeth yn ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau eraill.

## Er bod colegau yn sefydlog yn ariannol yn y byrdymor, mae eu hiechyd ariannol yn amrywio, ac mae colegau yn pryderu am gostau cynyddol ac ariannu buddsoddiad cyfalaf yn yr ystâd addysg bellach

### Er bod colegau yn sefydlog yn ariannol yn y byrdymor, mae eu hiechyd ariannol yn amrywio ac mae diffygion pensiwn a chyfraniadau cynyddol yn peri pryder mawr

2.2 Mae'r gostyngiadau i gyllid Llywodraeth Cymru wedi sbarduno gostyngiad o 6.0% mewn termau arian parod, ac 10.8% mewn termau real i incwm net y sector addysg bellach rhwng 2011/12 a 2015/16 (Ffigur 10). Er gwaethaf y pwysau ariannol hyn, mae cyllid y sector yn gadarn yn gyffredinol ac mae colegau mewn sefyllfa ariannol sefydlog yn y byrdymor. Mae colegau wedi gallu gwneud iawn am ostyngiadau i incwm o arbedion gwariant, er y bu rhywfaint o ddirywiad i berfformiad ariannol fel yr adlewyrchir mewn gwargedau a diffygion cyffredinol.

Ffigur 10 – Newidiadau i gyfanswm incwm net y sector addysg bellach rhwng 2011/12 a 2015/16




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol gan golegau i Lywodraeth Cymru


2.3 Adroddodd y sector yn ei gyfanrwydd ddiffyg gweithredu[24] o £3.7 miliwn yn 2013/14 a £4.5 miliwn yn 2014/15, o'u cymharu â gwargedau gweithredu yn y pedair blynedd flaenorol (Ffigur 11). Adroddodd y sector welliant bach i £1.7 miliwn o ddiffyg gweithredu ar gyfer 2015/16, yn erbyn gwarged a ragwelwyd o £1.9 miliwn, yn eu datganiadau ariannol ym mis Mawrth 2016. Fodd bynnag, nid yw'r ffigyrau ar gyfer 2015/16 yn cynnwys effaith prisiad actwaraidd o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a wnaed ym mis Medi 2016, sydd wedi achosi diffygion pensiwn a nodi £89 miliwn o gostau i'r cyfrifon, gan arwain at ddiffyg cyffredinol ar gyfer y flwyddyn o £91 miliwn (paragraff 2.10).

2.4 Mae'r gwarged neu'r diffyg gweithredu yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, yn rhannol oherwydd costau ailstrwythuro (ar gyfer dileu swyddi staff yn bennaf) ac mae taliadau pensiwn yn anrhagweladwy ac yn debygol o godi a gostwng. Ceir sefyllfa fwy cadarnhaol o ran gwarged sylfaenol y sector (ac eithrio costau ailstrwythuro a newidiadau i ddiffygion pensiwn), gyda gwarged o £12.9 miliwn yn 2013/14 ac £11.5 miliwn yn 2014/15, sy'n cyd-fynd yn gyffredinol â'r ddwy flynedd cynt. Adroddodd y sector warged sylfaenol o £12.5 miliwn yn 2015/16, sy'n dynodi bod colegau wedi adennill y gostyngiad i gyllid Llywodraeth Cymru ar y cyfan trwy dorri costau neu gynyddu refeniw mewn meysydd eraill.

2.5 Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu targedau ariannol ar gyfer colegau, cyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am wneud hynny. Byddai gwarged gweithredu o 3-5% bob blwyddyn yn cynhyrchu cronfeydd arian parod wrth gefn i gefnogi buddsoddiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan gymryd y pum mlynedd hyd at fis Gorffennaf 2016 yn ei gyfanrwydd, nid oedd y sector wedi cynhyrchu gwarged gweithredol tra bod gwargedau sylfaenol yn gyfartaledd o 2.5% o incwm dros y cyfnod.[25]

24 Yn yr adroddiad hwn, mae'r term gwarged gweithredu neu ddiffyg yn cyfeirio at y gwarged/diffyg a gyfrifwyd fel icnwm ac eithrio'r holl wariant ac eithrio treth gorfforaethol ac enillion neu golledion o waredu asedau sefydlog (gan gynnwys buddsoddiadau).
25 Nid yw gwariant cyfalaf wedi ei gynnwys yn uniongyrchol yn y cyfrifiad o'r gwarged/diffyg gweithredu. Caiff gwariant cyfalaf ei wasgaru ar draws oes yr asedau a ariennir a'i arwystlo yn erbyn y gwarged gweithredu fel dibrisiant.

Ffigur 11 – Gwargedau a diffygion y sector addysg bellach 2009/10 i 2015/16




Noder: achos newidiad yn y polisïau cyfrifo, cyfrifir y gwarged gweithredol yn wahahol ar gyfer 2015/16 o'i gymharu a blynyddoedd blaenorol.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol gan golegau i Lywodraeth Cymru

2.6 Mae gwargedau a diffygion gweithredu yn amrywio'n sylweddol o goleg i goleg (Ffigur 12). Adroddodd naw coleg wargedau (ar ôl taliadau ailstrwythuro a diffyg pensiwn) yn 2013/14 a 2014/15, wrth i dri choleg symud o warged i ddiffyg a thri o ddiffyg i warged. Adroddodd hanner y colegau sefyllfa well ar gyfer 2015/16, gydag wyth mewn gwarged, tri yn symud o warged i ddiffyg a dau o ddiffyg i warged. Fel canran o drosiant, Coleg Ceredigion a Choleg Caerdydd a'r Fro oedd â'r diffygion mwyaf yn 2014/15, sef 10% ac 8% yn eu trefn. Yn achos Caerdydd a'r Fro, roedd hyn oherwydd costau dileu swydd eithriadol a lleihad yn y gwerth yn sgil gwaredu eiddo, a gostyngodd y diffyg gweithredol i 4% yn 2015/16. I Goleg Ceredigion, achosodd cyfuniad o ostyngiadau cyllid a chynnydd i gostau na ellid ymdopi â nhw yn y byrdymor gynnydd mawr i'r diffyg. Parhaodd y duedd hon yn 2015/16, gyda diffyg gweithredol o 9%, ond roedd gwelliant i 3% wedi'i ragweld, ac mae balansau arian parod wedi gostwng yn sylweddol.

Ffigur 12 – Gwargedau a diffygion gweithredu a sylfaenol colegau unigol fel canran o gyfanswm eu hincwm, 2014/15 a 2015/16

| Coleg | Gwarged / (diffyg) 2014/15 fel % o'r holl incwm | | Gwarged / (diffyg) 2015/16 fel % o'r holl incwm[1] | |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithredu | Sylfaenol | Gweithredu | Sylfaenol |
| Coleg Penybont | 0.2 | 6.4 | 1.4 | 4.0 |
| Coleg Cambria | 0.8 | 6.8 | 3.1 | 7.2 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | (7.5) | (3.6) | (4.2) | (0.9) |
| Coleg Ceredigion | (9.7) | (7.4) | (8.7) | (6.1) |
| Coleg y Cymoedd | (3.2) | 0.0 | (3.8) | 0.6 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0.4 | 2.7 | 0.3 | 3.4 |
| Coleg Gwent | 0.2 | 3.9 | 2.7 | 6.7 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 2.0 | 2.9 | (3.7) | (0.4) |
| Merthyr Tudful | 2.1 | 3.9 | 1.3 | 3.3 |
| Grŵp Colegau NPTC | (1.1) | 2.0 | 0.9 | 2.0 |
| Coleg Sir Benfro | 0.3 | 2.8 | 0.1 | 2.1 |
| Coleg Sir Gâr | (5.0) | (0.6) | 3.2 | 5.3 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 1.3 | 3.3 | (0.9) | 0.9 |
| WEA Cymru[2] | 2.4 | 2.3 | (7.1) | (0.7) |
| YMCA[2] | (3.7) | (3.7) | | |
| **Cyfanswm[3]** | **(1.0)** | **2.4** | **(0.4)** | **2.8** |

Nodiadau:

1 Achos newidiad yn y polisïau cyfrifo, cyfrifir y gwarged gweithredol yn wahahol ar gyfer 2015/16 o'i gymharu a blynyddoedd blaenorol.

2 Unwyd WEA Cymru a YMCA i greu Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru ar 1 Awst 2015 (fe'i hailenwyd yn Addysg Oedolion Cymru ar 5 Tachwedd 2016).

3 Mae'r cyfansymiau ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd ac yn cynnwys addasiadau cyfuno i gael gwared ar effaith trafodion rhwng colegau.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol gan golegau i Lywodraeth Cymru

2.7 Mae colegau wedi gwella eu hylifedd (y gallu i dalu dyledion pan fyddant yn ddyledus). 2.28 oedd y gymhareb gyfredol[26] ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd ar ddiwedd 2014/15 a gostyngodd ryw fymryn i 2.03 ar ddiwedd 2015/16. Mae balansau arian parod yn y rhan fwyaf o golegau yn fwy na digon i ddiwallu anghenion cyfredol, ond maent yn amrywio'n sylweddol o goleg i goleg. Ar ddiwedd 2015/16, roedd buddsoddiadau arian parod a byrdymor (y gellir eu troi'n arian parod yn rhwydd) yn amrywio o 25 diwrnod o gyfanswm gwariant yng Ngholeg Ceredigion i 124 diwrnod yng Ngholeg y Cymoedd (Atodiad 4). Adroddodd deg coleg sefyllfa well yn 2015/16 o'i chymharu â'r flwyddyn cynt, a gwnaeth cyfartaledd y sector wella o 70 diwrnod i 75 diwrnod.

2.8 Mae cronfeydd wrth gefn cyffredinol[27] (cyn didynnu'r diffyg pensiwn) yn dal i fod yn gymharol iach ac roedd colegau'n meddu ar gronfeydd wrth gefn a oedd yn 46% o gyfanswm gwariant 2014/15, gan wella i 50% yn 2015/16. Roedd gan bum coleg lefelau cronfeydd wrth gefn sylweddol is o rhwng 22% a 31% o gyfanswm y gwariant.

2.9 Yn yr un modd â llawer o gyflogwyr eraill, mae'r sector yn wynebu diffyg sylweddol ar ei gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio a ariannwyd. Mae'r rhan fwyaf o staff academaidd wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Pensiwn Athrawon a'r rhan fwyaf o staff gweinyddol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Blwch 13).

**Blwch 13: Esboniad o gynlluniau pensiwn**

Cynllun a ariennir yw'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol lle mae'r cyfraniadau yn cael eu buddsoddi gyda'r nod o gynnal cronfa o werth digonol i dalu'r holl bensiynau o ddychweliadau buddsoddi pan fyddant yn ddyledus. Caiff y cynllun ei brisio'n rheolaidd gan actiwarïaid sy'n cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng gwerth gwirioneddol y cynllun (yn seiliedig ar werth marchnad buddsoddiadau yn y gronfa) a'r gwerth sydd ei angen i fodloni ymrwymiadau'r cynllun (yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch disgwyliad oes, codiad cyflog ac enillion buddsoddi). Mae'n rhaid datgelu unrhyw brinder yng ngwerth y gronfa (y diffyg) yng nghyfrifon y cyrff sy'n rhan o'r cynllun, ond nid yw newidiadau i werth y diffyg yn effeithio ar y cyfrif incwm a gwariant oni bai fod cyfraniadau arian parod cyflogwyr at y cynllun yn cael eu newid yn rhan o gynllun hirdymor i leihau'r diffyg. Mae staff addysg bellach yn cynrychioli cyfran fach o gyfanswm aelodau'r cynllun ac felly prin yw dylanwad y sector dros agweddau allweddol ar y cynllun, fel lefel cyfraniadau a buddion.

Nid yw'r Cynllun Pensiwn Athrawon wedi'i ariannu a chaiff yr holl bensiynau eu hariannu gan gyfraniadau a delir yn flynyddol gan gyflogeion a chyflogwyr yn hytrach nag enillion buddsoddi. O'r herwydd, nid oes unrhyw gronfa i'w phrisio ac nid oes angen i golegau gyfrifyddu ar gyfer unrhyw warged neu ddiffyg.


26 Mesur hylifedd a gyfrifir fel asedau cyfredol (arian parod, dyledwyr a stociau – y gellir eu troi'n arian parod yn gymharol gyflym) yw'r gymhareb gyfredol, wedi'i rannu gyda rhwymedigaethau cyfredol (symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn). Mae cymhareb fwy nag un yn golygu bod yr asedau cyfredol yn fwy na'r rhwymedigaethau cyfredol ac felly gallu y sefydliad fodloni ei ymrwymiadau ariannol pan fyddant yn ddyledus, cyn belled ag y bo cyfran ddigonol o'r asedau cyfredol yn arian parod ar unrhyw un adeg.

27 Ac eithrio cronfeydd wrth gefn ailbrisio, sy'n adlewyrchu cynnydd i werth eiddo yn hytrach na gwargedau o weithrediadau arferol colegau.

2.10 £266 miliwn oedd cyfanswm y diffyg pensiwn yn 2015/16, cynnydd o £103 miliwn o'r flwyddyn cynt, yn dilyn gwerthusiad actiwaraidd o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn 2016. Mae'r cynnydd yn y diffyg yn adlewyrchu newid gorfodol mewn polisi cyfrifyddu sy'n ei gwneud yn ofynnol i rwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol gael eu nodi yng nghyfrifon colegau ar y sail bod y gronfa yn cael ei buddsoddi mewn buddsoddiadau risg isel, adenillion isel, tra bo buddsoddiadau twf uwch yn cael eu defnyddio yn nodweddiadol gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Hefyd, gostyngodd buddsoddiad heb risg yn sylweddol yn 2016, gan greu cynnydd pellach mewn rhwymedigaethau.

2.11 Bydd cyfraniadau pensiwn cyflogwyr yn cynyddu o fis Ebrill 2017 i ariannu'r cynnydd mewn rhwymedigaethau sy'n codi o'r gostyngiad mewn adenillion heb risg. Mae maint y cynnydd yn amrywio fesul coleg, ond mae'n cynrychioli pwysau cost sylweddol i'r holl golegau. Mae diffyg pensiwn yn gynaliadwy yn y byrdymor oherwydd y bydd y rhwymedigaethau'n dod yn daladwy dros gyfnod hir, ond mae maint y diffyg yn cael yr effaith o leihau cyfanswm cronfeydd wrth gefn colegau yn sylweddol – o 38% o'r cyfanswm gwariant ym mis Gorffennaf 2015 i 11% o'r cyfanswm gwariant ym mis Gorffennaf 2016, ac roedd gan dri coleg gronfeydd wrth gefn negyddol. Mae gan y sefyllfa hon y potensial i'w gwneud yn anodd i golegau â chronfeydd wrth gefn isel neu negyddol godi cyllid preifat ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf gan na fyddant o bosibl yn gallu cynnig digon o sicrwydd i fenthycwyr ar gyfer benthyciadau.

2.12 Roedd asesiad Llywodraeth Cymru o iechyd ariannol cyffredinol pob coleg, ym mis Ebrill 2016, yn dangos bod mwyafrif y colegau mewn iechyd ariannol cryf neu gadarn:




Bydd y categorïau hyn yn cael eu diweddaru ym mis Chwefror 2017 i adlewyrchu'r sefyllfa sy'n amlygu ei hun o gyfrifon archwiliedig 2015/16, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru tua diwedd 2016.

2.13 Mae colegau yn tueddu i gael eu dosbarthu yng nghategori B oherwydd diffygion gweithredu a/neu gronfeydd wrth gefn â chynhaliaeth arian parod gymharol isel. Dosbarthwyd dau goleg yng nghategori C, yn bennaf oherwydd pryderon ynghylch eu sefyllfa arian parod neu faint eu diffygion gweithredu. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn hyderus bod un o'r colegau categori C yn debygol o godi i gategori B.

## Mae cyflwr yr ystâd addysg bellach yn amrywio'n sylweddol ac mae colegau o'r farn bod buddsoddiad cyfalaf yn risg busnes allweddol

2.14 Canfu diweddariad diweddar i arolwg a gynhaliwyd yn 2009 fod y rhan fwyaf o'r ystâd mewn cyflwr boddhaol neu dda ac roedd tua 29% o'r arwynebedd llawr mewn cyflwr gwael neu ofnadwy, ac 14% wedi'i ddosbarthu rhwng boddhaol neu wael (Ffigur 13). Mae data arolwg tebyg ar gyfer ysgolion yn dangos bod tua 53% o ysgolion uwchradd mewn cyflwr gwael neu ofnadwy. Aseswyd gan golegau mai £192 miliwn oedd cyfanswm y gost o adfer a chynnal a chadw'r ystâd addysg bellach. Roedd y gost hon yn amrywio'n eang iawn o ddim ym Merthyr Tudful (lle mae'r holl adeiladau yn gymharol newydd ac mewn cyflwr da) i £447,000 yng Ngholeg Penybont a £67 miliwn yng Ngholeg Gwent.

Ffigur 13 – Cyflwr yr ystâd addysg bellach, fel yr adroddwyd gan golegau

| Categori | Arwynebedd (metrau sgwâr) | % o gyfanswm yr arwynebedd | Cost i'w gynnal neu ei adfer (£000) | % o gyfanswm y gost |
|---|---|---|---|---|
| Da | 119,082 | 17 | 1,312 | 1 |
| Da neu foddhaol | 10,665 | 1 | 0 | 0 |
| Boddhaol | 250,981 | 35 | 12,504 | 7 |
| Boddhaol neu wael | 96,283 | 14 | 17,797 | 9 |
| Gwael | 148,987 | 21 | 103,501 | 54 |
| Gwael neu ofnadwy | 39,321 | 56 | 37,234 | 19 |
| Ofnadwy | 17,954 | 3 | 15,434 | 8 |
| Di-ddosbarth | 28,923 | 4 | 4,428 | 2 |
| **Cyfanswm** | **712,196** | **100** | **192,209** | **100** |

Nodiadau:

1 Hunanaseswyd cyflwr gan golegau yn 2016 i ddiweddaru canlyniadau arolwg allanol a gynhaliwyd gan arolygwyr proffesiynol yn 2009. Mae datganiadau'r colegau'n cael eu dilysu ar sail sampl (10% o adeiladau) gan arolygwyr a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd costau cynnal a chadw ac adfer a amcangyfrifir yn cael eu cynnwys yn yr ymarfer dilysu hefyd, ac efallai y bydd anghysondebau yn y ffordd y mae colegau wedi paratoi amcangyfrifon cost.

2 Dosberthir cyflwr ar gyfer pob adeilad fel a ganlyn:

A Da: yn perfformio fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon

B Boddhaol: yn perfformio fel y bwriadwyd yn dangos mân-ddirywiad

C Gwael: yn dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd

D Ofnadwy: oes wedi dod i ben a/neu berygl difrifol o fethiant sydd ar fin digwydd

3 Mae llawer o golegau wedi dosbarthu rhan o'u safleoedd i fwy nag un categori, fel y dangosir uchod, i adlewyrchu amodau amrywiol o fewn adeilad penodol. Sylwer fod 'Rhwng boddhaol a gwael' yn cynnwys ychydig bach o le sydd wedi ei ddosbarthu yn y categorïau 'boddhaol' a 'gwael'.

4 Nid yw rhai mannau wedi eu dosbarthu o gwbl, mannau awyr agored fel meysydd parcio yn bennaf.

5 Arwynebedd llawr dan do gros yw'r arwynebedd.

Ffynhonnell: Datganiadau cyflwr ystâd a gyflwynwyd gan golegau i Lywodraeth Cymru yn 2016

2.15 Mae colegau angen cyllid allanol ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr fel rheol, naill ai gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grantiau neu o fenthyg masnachol. Mae cyfran gwariant cyfalaf y sector a ariannwyd gan grantiau Llywodraeth Cymru wedi tueddu i leihau yn y blynyddoedd diwethaf, o gyfartaledd o 64% yn y ddwy flynedd hyd at 31 Gorffennaf 2011 i 29% yn y cyfnod pum mlynedd dilynol, gan wneud colegau'n fwy dibynnol ar eu cronfeydd wrth gefn ac ar fenthyg masnachol i gyllido eu cynlluniau. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sawl prosiect mawr trwy Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif, gan gynnwys:

- Coleg Caerdydd a'r Fro: campws newydd yn Heol Dumballs, canol Caerdydd, a gwblhawyd yn 2015 am gost o £44 miliwn gyda grant o £20 miliwn gan Lywodraeth Cymru;
- Coleg y Cymoedd: campws newydd yn Aberdâr yn costio £22 miliwn gyda grant o £11 miliwn gan Lywodraeth Cymru; a
- Choleg Cambria: campws newydd yn costio £8.25 miliwn gyda grant o £4.12 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

2.16 Bydd colegau hefyd yn elwa o rownd nesaf Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif, ond mae maint a natur y cyllid yn ansicr ar hyn o bryd, ac amlygodd mwyafrif y colegau i ni ymweld â nhw fuddsoddiad cyfalaf fel un o'r risgiau pwysicaf sy'n wynebu eu busnes. Roeddent yn pryderu bod cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru (paragraffau 1.14 i 1.17) yn annigonol i adfer yr ystad i gyflwr da, a bod cyllid refeniw yn gyffredinol yn annigonol i gynnal a chadw'r ystad. Dywedodd rhai colegau eu bod yn lleihau eu cronfeydd wrth gefn i ariannu gwaith cynnal a chadw hanfodol a disodli asedau mater o drefn, neu i ariannu gwaith mân yr oedd angen ei wneud i sicrhau bod eu safleoedd yn hygyrch i bobl ag anableddau.

2.17 Caiff gallu colegau i ariannu gwariant cyfalaf o ffynonellau eraill ei gyfyngu gan gronfeydd wrth gefn statig neu ostyngol a chyfyngiadau ariannol cyffredinol sy'n ei gwneud yn anoddach i fenthyg yn fasnachol i ariannu prosiectau mawr. Mae rhai colegau wedi sicrhau buddsoddiad masnachol sylweddol (Coleg Caerdydd a'r Fro yn fwyaf amlwg, a fenthyciodd £20 miliwn er mwyn helpu i ariannu'r gwaith o adeiladu ei gampws yng nghanol y ddinas) tra bod rhai colegau yn berchen ar dir ac eiddo y gellid eu gwerthu er mwyn helpu i ariannu gwaith ailddatblygu. Fodd bynnag, mae llawer o golegau yn poeni y byddai benthyg i adnewyddu'r ystad yn eu gorymestyn mewn cyfnod o ostyngiadau i gyllid craidd. Ni fyddai'r gost o wasanaethu benthyciadau yn cael ei thalu gan incwm cynyddol o niferoedd cynyddol o fyfyrwyr. Caiff y sefyllfa ei gwaethygu gan ansicrwydd ynghylch setliadau ariannu yn y dyfodol. Gallai ystyriaethau o'r fath hefyd atal benthycwyr masnachol rhag benthyca.

2.18 Nid ydym wedi archwilio manylion cynlluniau buddsoddi cyfalaf colegau na threfniadau rheoli asedau yn rhan o'r adolygiad hwn. Mewn ymateb i ryddhad Llywodraeth Cymru o gyllid cyfalaf yn 2016, nododd y colegau i ni ymweld â nhw sylwadau am yr amserlenni byr dan sylw ac nad oedd hyn yn caniatáu asesiad mwy manwl o anghenion a chynigion o ansawdd gwell i gael eu cyflwyno. Mae hyn yn dynodi ei bod yn bosibl y gallai colegau gryfhau eu prosesau cynllunio cyfalaf a rheoli asedau fel eu bod mewn sefyllfa well i ymateb os daw cyllid cyfalaf ar gael.

## Mae rheolaeth ariannol yn gadarn yn gyffredinol, ond mae colegau o'r farn na fyddant yn gallu parhau i ddiogelu pobl 16 i 19 mlwydd oed os caiff rhagor o doriadau eu gwneud, os bydd cynnydd o ran datblygu incwm nad yw ar ffurf grantiau yn newidiol, ac nad yw cynllunio ariannol tymor canolig wedi ei ddatblygu'n dda

### Ceir adroddiadau rheolaidd ac ansawdd rhesymol o wybodaeth ariannol yn y sector ond nid yw cynllunio ariannol tymor canolig wedi ei ddatblygu'n dda

2.19 Mae rheolaeth ariannol yn gadarn yn gyffredinol gydag adroddiadau rheolaidd a gwybodaeth ariannol o ansawdd rhesymol. Mae ansawdd rhagolygon byrdymor colegau yn gyffredinol dda, gyda'r rhan fwyaf o golegau yn adrodd cyfanswm incwm a gwariant yn 2014/15 yr un fath neu'n agos at y ffigurau a amcanestynnwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Adroddodd tri choleg bod diffygion yn erbyn eu hamcanestyniadau oherwydd gwahaniaethau amseru wrth ddyfarnu neu dalu grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a dderbyniwyd yn hwyrach nag yr oeddent yn ei ddisgwyl, ac a gafodd effaith ariannol sylweddol ar un o'r colegau hyn.

2.20 Mae'n ymddangos bod y capasiti a'r sgiliau angenrheidiol gan golegau i reoli cyllid, er i rai colegau llai fynegi pryder i ni fod eu hadrannau cyllid yn cael eu hymestyn ac na ellid eu lleihau ymhellach heb newid i wasanaethau a rennir gyda cholegau eraill neu sefydliadau eraill.

2.21 Roedd y rhan fwyaf o'r colegau i ni ymweld â nhw wedi gwneud ychydig iawn o gynnydd tuag at y math o gynllunio tymor canolig a amlinellir ym Mlwch 14. Safbwynt cyffredin gan golegau yw bod dyraniadau cyllid blynyddol Llywodraeth Cymru, a natur ansicr ffrydiau cyllid eraill, yn gwneud cynllunio ariannol tymor canolig yn anodd iawn. Roedd colegau yn amharod i ragamcanu mwy na blwyddyn i'r dyfodol heb i Lywodraeth Cymru ddarparu dyraniadau ariannol dangosol neu ganllawiau penodol ar y tybiaethau refeniw y dylent eu mabwysiadu. Yn ei rhagolygon diweddaraf i Lywodraeth Cymru, mae colegau wedi tybio y bydd grantiau craidd yn aros yn sefydlog. Er ein bod yn cydnabod yr ansicrwydd a wynebir gan golegau, nid yw'r rhain yn unigryw i'r sector ac mae cynllunio tymor canolig yn cael ei fabwysiadu ar draws lawer o gyrff sector cyhoeddus.

**Blwch 14: Cynllunio ariannol tymor canolig**

Adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol ar gydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yn ddiweddar[28] a chanfu fod mwyafrif yr awdurdodau yn:

- Modelu ysgogwyr gwariant allweddol (newidiadau poblogaeth a galw am wasanaethau, er enghraifft), ffynonellau incwm (rhagolygon incwm a grantiau llywodraeth, er enghraifft), canlyniadau refeniw gofynion cyfalaf ac adnoddau a'r defnydd o falansau; ac
- Mae modelu yn seiliedig ar ragfynegiadau a thybiaethau rhesymol o ran chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, galw am wasanaethau yn y dyfodol a chostau darparu gwasanaethau.

Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Cyfoeth Naturiol Cymru[29] fod cyfyngiadau i gyllidebau yn y dyfodol, toriadau i gyllid craidd yn ystod y flwyddyn a phwysau ariannol pellach yn cynyddu'r perygl o ostyngiad i wasanaethau a'r perygl y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn methu â chyflawni ei ganlyniadau, oni bai bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn modelu amrywiaeth o senarios cyllideb i gynllunio ar gyfer yr amrywiadau hyn mewn cyllidebau.

2.22 Er bod y sector yn wynebu llawer o ansicrwydd, mae'n debygol o wynebu cyfnod parhaus o gyfyngiad ariannol yn y cyfnod presennol o gyni cyllidol a dylai colegau ddal i allu cynllunio ar gyfer effaith bosibl toriadau i gyllid, trwy fodelu ar sail amrywiaeth o dybiaethau. Byddai hyn yn cynnig awgrym o gydnerthedd ariannol tymor canolig i golegau unigol ac i'r sector.

28 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru 2015-16, Awst 2016
29 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwefror 2016

## Mae colegau wedi ymateb yn effeithiol i setliadau ariannu llai trwy dorri costau a newid y ddarpariaeth o gyrsiau, ond maent o'r farn bod eu cwmpas yn gyfyngedig i wneud rhagor o arbedion heb dorri'r ddarpariaeth i grwpiau sydd wedi cael eu diogelu hyd yn hyn

2.23 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae colegau wedi cynllunio a darparu arbedion sylweddol, trwy leihau costau staff yn bennaf. Hefyd, darparwyd arbedion trwy leihau cost gwasanaethau swyddfa gefn neu gymorth a thrwy arbedion caffael. Mae'r rhan fwyaf o golegau yn defnyddio consortiau prynu (gan gynnwys y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol) ac mae rhai colegau yn rhannu gwasanaethau caffael gyda'u hawdurdod lleol erbyn hyn (Coleg Sir Benfro) neu o fewn eu sefydliad unedig (Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr), sydd wedi helpu i sicrhau arbedion. Mae maint yr arbedion o fentrau o'r fath wedi bod yn gymharol fach, ac mae'r cyfle i wneud arbedion caffael yn cael ei gyfyngu trwy fod â chyfran gymharol isel o wario yn ôl disgresiwn yn y sector. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n cynnal adolygiad o'r dirwedd gaffael yng Nghymru, a fydd yn cynnwys y sector addysg bellach.

2.24 Mae gostyngiadau i'r sail gostau yn barhaol ar y cyfan ond bu'n rhaid eu cynllunio ar sail fyrdymor oherwydd gorwelion ariannu. Mae rhai risgiau'n gysylltiedig â hyn, er enghraifft, yr angen posibl i ail-recriwtio staff yn y dyfodol. Mae colegau hefyd wedi newid natur y ddarpariaeth o gyrsiau. Mae sawl coleg wedi lleihau oriau addysgu, er bod y cwmpas ar gyfer gostyngiadau pellach wedi'i gyfyngu gan amseroedd addysgu gofynnol cyrff achredu. Mae'r rhan fwyaf o golegau hefyd yn datblygu deunyddiau e-ddysgu i ategu dulliau addysgu traddodiadol. Roedd y rhan fwyaf o golegau yn datblygu deunyddiau e-ddysgu yn annibynnol er bod rhai yn gweithio gyda cholegau y tu allan i Gymru. Gallai datblygu deunyddiau dysgu cymysg (sy'n ymgorffori e-ddysgu yn rhan o bortffolio cytbwys o ddulliau addysgu) gynnig cyfle da i weithio ar y cyd, o ystyried maint y buddsoddiad cychwynnol sydd ei angen i ddatblygu deunyddiau o ansawdd da. Yn rhan o'r rhaglen Datrysiadau Creadigol, mae'r sector wedi cynnig sawl mesur i hybu datblygiad deunyddiau dysgu cymysg, gan gynnwys cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae swyddogion wedi cytuno i gynnal trafodaethau pellach i archwilio benthyciadau cyfanredol, hyfforddiant staff ac i annog arloesedd trwy drefnau ansawdd ac arolygu.

2.25 Dywedodd rhai colegau wrthym, er ei bod yn anodd ymdopi â'r gostyngiadau i gyllid, roedd ganddynt effeithiau buddiol hefyd. Er enghraifft, roedd Grŵp Llandrillo Menai wedi cynnal adolygiad cwricwlwm mawr yr oedd o'r farn oedd wedi helpu'r coleg i ganolbwyntio llawer mwy ar effeithiolrwydd y cyrsiau yr oedd yn eu cynnig a'r gwerth i ddysgwyr. Mae'r cyfyngiadau cyllid hefyd wedi cymell dull mwy masnachol o ymdrin â darpariaeth ran-amser yn arbennig, ac roedd y coleg yn fodlon bellach bod ganddo'r lefel gywir o ddarpariaeth, wedi'i chanolbwyntio yn y meysydd cywir.

2.26 Mae pwysau am i fyny ar gostau wedi mantoli rhai o'r arbedion yn rhannol, a chynnydd i gyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiynau cyflogwyr, a hawliau cytundebol o dan y Contract Cyflogaeth Cyffredin yn fwyaf nodedig (Blwch 15).

**Blwch 15: Esboniad o bwysau tuag i fyny ar gostau**

Mae diddymu'r ad-daliad contractio allan ym mis Ebrill 2016 wedi cynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr 3.4 pwynt canran. Mae cyfraniadau cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol hefyd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn helpu i dalu costau cynyddol y ddarpariaeth o bensiynau.

Mae pob coleg wedi ei rwymo gan y contract cyflogaeth cyffredin a gytunwyd rhwng yr undebau llafur a ColegauCymru, sydd wedi cysoni telerau ac amodau staff ar draws y sector. Daeth y contract i rym ar 1 Medi 2016 ac mae'n cyflwyno graddfa gyflog gyffredin ar gyfer yr holl staff. Ceir nifer o bwyntiau cynyddrannol ar bob graddfa gyflog, ac mae'r staff yn symud i fyny un gynyddran bob blwyddyn tan y byddant wedi cyrraedd yr uchafswm ar gyfer eu gradd. Mae cost y cynyddrannau cytundebol hyn yn ychwanegol i gost cynnydd blynyddol i werth pob graddfa gyflog, ac yn bwysau am i fyny sylweddol ar gostau ynddi ei hun.

Mae colegau yn amcangyfrif bod effaith gyffredinol y newidiadau hyn wedi ychwanegu tua 5% o gyfanswm gwariant ar dâl at eu costau sylfaenol. Mae'r sector yn disgwyl pwysau parhaus o ran costau, yn sgil costau pensiwn cynyddol ac yn sgil y contract cyflogaeth cyffredin. Mae colegau yn debygol o wynebu cynnydd ychwanegol yng nghyfraniadau cyflogwyr ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o fis Ebrill 2017 (paragraff 2.11). Mae colegau hefyd yn gwynebu costau cynyddol o ganlyniad i Ardoll Brentisiaethau Llywodraeth y DU, y bydd colegau yn gorfod ei thalu o fis Ebrill 2017 ymlaen.

2.27 Roedd consensws ymhlith yr holl golegau i ni ymweld â nhw y byddai unrhyw doriadau pellach i gyllid yn gofyn am doriadau i'r ddarpariaeth amser llawn ar gyfer pobl 16-19 mlwydd oed, sef y grŵp oedran y mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio ei ddiogelu. Mae hyn oherwydd bod y rhan fwyaf o ddarpariaeth ran-amser wedi cael ei thorri eisoes ac mae colegau o'r farn bod yr arbedion effeithlonrwydd y mae'n rhwydd eu gwneud wedi cael eu gwneud eisoes. Amlygwyd amrywiaeth o gamau posibl gan golegau y byddai angen iddynt eu cymryd i ymateb i doriadau pellach i gyllid, fel cyfuno'r ddarpariaeth ymhellach mewn llai o leoliadau mewn ardaloedd gwledig, diddymu neu leihau trafnidiaeth â chymhorthdal, a lleihau nifer y cyrsiau a gynigir.

## Mae toriadau i wariant wedi arwain at ostyngiadau mawr yn y gweithlu ac mae gan lawer o'r staff sy'n weddill gyfrifoldebau ehangach neu wahanol

2.28 Costau staff yw'r prif gategori gwariant i golegau, ac maent yn gyfrifol am 65% o gyfanswm y gwariant. Bu angen i golegau leihau niferoedd staff i reoli'n unol â chyllidebau llai. Mae'r rhan fwyaf o golegau wedi cynnal rhaglennu dileu swyddi gwirfoddol, yn enwedig yn 2013/14 a 2014/15. Newidiodd rhai colegau staff (ar sail wirfoddol) o swyddi amser llawn i swyddi rhan-amser hefyd.

2.29 Gostyngodd niferoedd staff o lefel uchaf o 9,332 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn 2012/13 i 7,756 yn 2015/16, gostyngiad o 16.9%. Bu'r gostyngiadau mwyaf ym meysydd cymorth dysgu ac addysgu (37%), arlwyo a gwasanaethau preswyl (36%) a gwasanaethau gweinyddol a chanolog (29%), gyda staff addysgu yn cael eu torri tua 12% (Ffigur 14).

Ffigur 14 – Newidiadau staff fesul categori ym mhob coleg, 2012/13 i 2015/16

| Categori | Swyddi cyfwerth ag amser llawn yn 2012/13 | Swyddi cyfwerth ag amser llawn yn 2015/16 | Newid fel % o 2012/13 |
|---|---|---|---|
| Addysgu | 5,418 | 4,794 | (11.5) |
| Cymorth dysgu ac addysgu | 1,150 | 722 | (37.2) |
| Gwasanaethau cymorth eraill | 383 | 423 | 10.5 |
| Gwasanaethau gweinyddol a chanolog | 1,343 | 960 | (28.5) |
| Adeiladau | 338 | 288 | (14.9) |
| Arlwyo a phreswyl | 173 | 110 | (36.3) |
| Gweithgareddau cynhyrchu incwm | 445 | 379 | (14.8) |
| Arall | 83 | 80 | (4.0) |
| **Cyfanswm** | **9,332** | **7,756** | **(16.9)** |

Sylwer: Bydd cyfanswm y staff yn uwch gan fod rhai staff yn gweithio'n rhan-amser.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol gan golegau i Lywodraeth Cymru

2.30 Mae colegau hefyd wedi lleihau amser addysgu ac wedi cyfuno rhai swyddi rheoli ac addysgu. Cydnabuwyd gan arweinwyr colegau yn ystod ein hymweliadau gwaith maes bod y newidiadau hyn wedi arwain at golli staff hynod brofiadol, a bod gan y staff sy'n weddill gyfrifoldebau a llwythi gwaith cynyddol yn aml. Daeth hyn ar adeg pan fu'n rhaid i'r proffesiwn ymdrin â newidiadau i arferion gweithio yn deillio o ddiwygiadau polisi, fel y pwyslais mwy ar addysgu llythrennedd a rhifedd ar gyrsiau galwedigaethol. Dywedodd y colegau wrth fod rhaglenni diswyddo wedi hwyluso ymadawiad rhai aelodau staff a oedd yn anghyfforddus â'r newidiadau hyn.

2.31 Ymgynghorwyd â'r undebau llafur sy'n cynrychioli staff yn y sector i ganfod eu barn ar effaith gostyngiadau i gyllid a chysylltiadau diwydiannol yn gyffredinol. Mynegodd y ddau undeb llafur a ymatebodd (y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr a'r Undeb Prifysgolion a Cholegau) bryder am golli staff profiadol a'r cynnydd yn sgil hynny i lwythi gwaith y staff a oedd yn weddill, yr oeddent yn teimlo oedd wedi rhoi staff gradd reoli yn arbennig o dan bwysau difrifol. Roeddent hefyd yn pryderu am ansicrwydd cynyddol yn eu swyddi a diffyg datblygiad gyrfaol. Nid oedd yr undebau'n priodoli'r problemau hyn i reolwyr colegau, ond i'r cyfyngiadau ariannol ar y sector.

2.32 Roedd y ddau undeb o'r farn bod cysylltiadau diwydiannol yn gyffredinol dda ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd, gyda thrafodaethau adeiladol ar faterion pwysig a fforwm Cymru gyfan effeithiol i gytuno ar delerau ac amodau. Croesawyd cyflwyniad y contract cyflogaeth cyffredin ganddynt, yn amodol ar weithrediad cyflym cytundebau sydd heb eu bodloni fel amser i ffwrdd yn gyfnewid am amser a weithiwyd i staff rheoli. Roedd yr undebau o'r farn bod y dull cenedlaethol o ymdrin â thelerau ac amodau yng Nghymru, ynghyd â pherthynas waith adeiladol, wedi helpu i osgoi anghydfod diwydiannol. Fe'n hysbyswyd gan yr undebau bod y berthynas gyda cholegau unigol yn fwy cymysg, er eu bod yn ffafriol yn gyffredinol.

## Mae colegau wedi gwneud cynnydd amrywiol o ran datblygu incwm nad yw'n incwm grantiau, ac mae rhai mewn sefyllfa well nag eraill i gynyddu incwm a benthyg masnachol


2.33 Mewn ymateb i'r gostyngiad i gyllid craidd Llywodraeth Cymru, mae colegau yn ceisio cynyddi ffynonellau incwm eraill. Ceir tair prif ffynhonnell o incwm nad yw'n incwm grant, pob un rhwng 8% a 12% o incwm gros y sector yn 2015/16:

- Contractau dysgu seiliedig ar waith wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru;
- Ffioedd dysgu a chontractau addysg; a
- Ffrydiau incwm eraill fel contractau y mae colegau wedi eu hennill ar sail gystadleuol, ac incwm o weithrediadau colegau eu hunain, fel arlwyo, cynadleddau a lleoliadau preswyl, a ffermydd.

Daw incwm o gontractau a enillwyd ar sail gystadleuol o gyrff sector cyhoeddus yn aml, ac er nad yw colegau yn adrodd ar incwm o gontractau hyfforddiant sector preifat i Lywodraeth Cymru ar wahân, fe'n hysbyswyd ganddynt fod incwm o'r fath yn gymharol isel ar hyn o bryd.

2.34 Hyd yn hyn, nid yw'r gostyngiad i gyllid grant Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyfateb gan gynnydd i'r ffynonellau incwm eraill yn eu cyfanrwydd (Ffigur 15). Mae incwm o gyrff sector cyhoeddus eraill wedi dod o dan bwysau wrth i gyllidebau gael eu torri, er enghraifft, ar gyfer contractau hyfforddiant ac addysg neu gymorthdaliadau trafnidiaeth.

Ffigur 15 – Newid i ffynonellau incwm rhwng 2011/12 a 2015/16




Sylwer: Mae 'Grantiau Llywodraeth Cymru' yn cynnwys contractau dysgu'n seiliedig ar waith, heb gynnwys is-gontractio rhwng colegau. Mae 'ffrydiau incwm eraill' yn cynnwys contractau y mae colegau wedi eu hennill drwy gystadleuaeth, ac incwm o weithrediadau colegau eu hunain, fel arlwyo, cynadleddau a lleoliadau preswyl, a ffermydd.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol gan golegau i Lywodraeth Cymru

2.35 Roedd y colegau i ni ymweld â nhw yn pryderu am y gostyngiad i gyllid a'r rhagolygon mwy hirdymor i'r sector, ac o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi diogelu cyllid i ysgolion tra nad oedd cyllid ar gyfer addysg uwch wedi ei ddiogelu a'u bod, yn eu tyb nhw, wedi cael eu targedau ar gyfer arbedion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae rhai meysydd cyllid addysg bellach wedi cael eu diogelu, a dim ond darpariaeth ran-amser a chyllid a neilltuwyd sydd wedi cael eu torri.

2.36 **Mae contractau dysgu seiliedig ar waith**, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi cael eu diogelu rhag toriadau ac mae gan Lywodraeth Cymru bolisi o gynyddu niferoedd prentisiaeth (paragraff 1.9). Mae colegau yn gweithio mewn consortia gyda'i gilydd a darparwyr sector preifat eraill i wneud cais am gontractau dysgu seiliedig ar waith gan Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn cynnig ffynhonnell bosibl o dwf incwm. Mae chwech o'r 19 prif gontractwr yng Nghymru yn golegau (Coleg Cambria, Coleg Caerdydd a'r Fro, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Gŵyr Abertawe, Grŵp Colegau NPTC a Choleg Sir Benfro).

2.37 Cynyddodd cyfran y cyllid dysgu'n seiliedig ar waith a oedd ar gael a enillwyd gan golegau o 36% yn 2011/12 i 40% yn 2016/17.[30] Arweiniodd hyn at gynnydd o 19% (mewn termau arian parod) i swm y cyllid a sicrhawyd ar gyfer dysgu'n seiliedig ar waith yn ystod y cyfnod. Cynyddodd yr incwm net (ar ôl talu isgontractwyr) £1.2 miliwn neu 4% rhwng 2011/12 a 2015/16.

2.38 Mae incwm net dysgu'n seiliedig ar waith (ar ôl talu isgontractwyr) fel cyfran o gyfanswm yr incwm yn amrywio o goleg i goleg, o 3.0% i 12.8%, gyda chyfartaledd o 7.6%. Ceir amrywiad blynyddol sylweddol ar lefel colegau hefyd, gyda rhai colegau yn disgwyl cynyddu eu hincwm yn sylweddol yn 2015/16 tra bod eraill wedi gweld gostyngiadau i werth y contractau a enillwyd. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn tua £25 miliwn o gyllid Ewropeaidd bob blwyddyn tuag at gost contractau dysgu seiliedig ar waith ar hyn o bryd, felly mae'r sector wedi ei amlygu i unrhyw leihad i'r cyllid hwn yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn elwa o gyllid UE ar gyfer sawl prosiect arall sy'n gysylltiedig â sgiliau, y bydd rhai ohonynt yn cael eu bwydo ymlaen i golegau.

2.39 Mae gan gyhoeddiad Llywodraeth y DU o ardoll prentisiaethau gorfodol ar gyflogwyr, a fydd ar waith o fis Ebrill 2017, hefyd y potensial i gynyddu refeniw i'r sector gan ysgogi mwy o fuddsoddiad gan gyflogwyr o ran hyfforddiant. Fodd bynnag mae maint y cyfle yn aneglur ar y cam cynnar hwn. Yn ogystal, bydd y colegau eu hunain yn ddarostyngedig i dalu'r ardoll.

30 Heb gynnwys effaith prynu ACT, y darparwr dysgu seiliedig ar waith mwyaf yng Nghymru, gan Goleg Caerdydd a'r Fro, sy'n cynyddu'r gyfran i 58% yn 2016/17.

2.40 Mae rhai colegau wedi ceisio cynyddu **ffioedd dysgu**, ond cyfyngir ar y cwmpas i godi refeniw sylweddol gan anallu neu amharodrwydd darpar ddysgwyr i dalu cost lawn eu haddysg. Ar draws y sector, cynyddodd yr incwm o ffioedd dysgu a'r contract addysg £1.9 miliwn neu 3.9% rhwng 2011/12 a 2015/16, gyda chynnydd o £8.2 miliwn mewn incwm addysg uwch yn gwrthbwyso gostyngiad o £6.3 miliwn mewn ffioedd dysgu a chontractau eraill. Mae ffioedd addysg uwch (sydd fel rheol yn llawer uwch na'r rhai ar gyfer cyrsiau addysg bellach), ynghyd â chontractau a enillwyd gan brifysgolion i gyflenwi cyrsiau addysg uwch, yn gyfran sylweddol o incwm rhai colegau (Blwch 16). Nod Llywodraeth Cymru yw ehangu'r ddarpariaeth lefel 4 a 5 ym maes addysg bellach, a gallai hyn gynnig ffynhonnell bosibl o gyllid cynyddol i'r sector.

**Blwch 16: Colegau sy'n darparu cyrsiau addysg uwch**

Enillodd pedwar coleg (Penybont, Coleg Sir Gâr, Grŵp Llandrillo Menai a Merthyr Tudful) 10% neu fwy o gyfanswm eu hincwm o gyrsiau addysg uwch yn 2015/16, o'i gymharu â chyfartaledd o 6.2% ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd. Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Merthyr Tudful wedi cael eu cynorthwyo trwy uno â phrifysgolion yn eu hardaloedd, ac mae Coleg Penybont wedi datblygu sefyllfa gadarn trwy dyfu yn llwyddiannus ei ddarpariaeth breiniol gyda Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

2.41 Mae colegau hefyd yn cynhyrchu incwm o amrywiaeth o **ffynonellau eraill**, fel grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac amrywiaeth o weithgareddau masnachol. Mae cyfanswm yr incwm o'r ffynonellau eraill hyn wedi gostwng £4.7 miliwn neu 9.6% rhwng 2011/12 a 2015/16.

2.42 Mae colegau yn gweithio gyda'i gilydd a chyda sefydliadau addysg uwch i ymgeisio am grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a ddyfernir i brosiectau cydweithredol yn nodweddiadol. Mae'r cyllid Undeb Ewropeaidd hwn ar gyfer hyfforddiant ac addysg wedi darparu ffrwd refeniw sylweddol i lawer o golegau. Gostyngodd incwm o £9.5 miliwn yn 2013/14 i £4.8 miliwn yn 2015/16, ond disgwylir i incwm gynyddu i £11.6 miliwn yn 2016/17 ac aros ar y lefel honno tan 2020. Bydd ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn dod â'r ffrwd arian hon i ben ond mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i warantu cyllid ar gyfer yr holl brosiectau a gymeradwywyd cyn y dyddiad y bydd y DU yn tynnu'n ôl. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn ceisio sicrhau cyllid amgen gan y DU er mwyn gallu parhau i fynd ar ôl amcanion datblygu econoamidd rhanbarthol wedi i'r DU adael yr UE, ond yn anorfod, mae cwmpas a swm unrhyw gyllid amgen yn sicr ar hyn o bryd.

2.43 Roedd yr holl golegau i ni ymweld â nhw yn awyddus i gynhyrchu mwy o incwm masnachol o'r sector preifat. Fodd bynnag, gostyngodd nifer y rhaglenni dysgu a ariannwyd gan gyflogwyr neu ddysgwyr eu hunain rhwng 2012/13 a 2014/15, gan ostwng o 21% i 15% o gyfanswm y dysgwyr, gan awgrymu, yn gyffredinol, nad yw colegau wedi bod llwyddo i ddisodli darpariaeth a ariennir yn gyhoeddus gyda darpariaeth a ariennir yn breifat. Serch hynny, mae'r sector yn ei gyfanrwydd yn gwneud cynnydd o ran datblygu ffrydiau incwm masnachol newydd. Cynyddodd cyfanswm yr incwm o 'weithgareddau cynhyrchu incwm eraill' £2.9 miliwn i £19.5 miliwn yn 2015/16 o'r flwyddyn cynt, sef dwywaith y £9.5 miliwn a gofnodwyd yn 2011/12.

2.44 Mae sawl coleg wedi recriwtio staff penodol i ddatblygu incwm masnachol (Blwch 17), trwy gwmnïau mewn perchnogaeth breifat lwyr fel rheol, i gynnal eu gweithrediadau busnes, gan y gallai'r endidau hyn recriwtio staff ar delerau mwy hyblyg ac am gost is na'r coleg ei hun.

**Blwch 17: Astudiaethau achos refeniw masnachol**

Mae **Grŵp Colegau NPTC** wedi gwneud cynnydd sylweddol trwy ei gaffaeliad o fusnesau cynhyrchu incwm fel ysgol iaith, a thrwy dargedu myfyrwyr rhyngwladol. Dechreuodd y grŵp ei waith yn [2010?] trwy gaffael Language Specialists International Ltd (LSI) ac mae wedi gwneud mwy o gynnydd na cholegau eraill yng Nghymru felly. Mae LSI yn rhedeg ysgol iaith yn Portsmouth a gwnaeth elw net o £415,000 yn 2013/14 a £737,000 yn 2014/15. Mae'r cwmni wedi gwneud cyfanswm o £3 miliwn mewn rhoddion i'r coleg rhwng 2010/11 a 2014/15. Mae lefel y rhoddion wedi amrywio dros y cyfnod, ond mae'r coleg yn credu bod rhagolygon da ar gyfer twf trwy sefydlu ysgol iaith dramor ac ehangu cyrsiau mewn Saesneg gweithredol. Yn fwy diweddar, mae'r coleg wedi caffael tri busnes arall, y gwnaeth un ohonynt elw yn 2014/15, ac mae buddiannau busnes allanol y Coleg wedi cyfrannu £592,000 at ei gronfeydd wrth gefn yn 2014/15.

Mae **Coleg Caerdydd a'r Fro** wedi cynyddu ei ymdrechion yn fwy diweddar, gan sefydlu tîm â phrofiad gwerthu a datblygu masnachol i fanteision ar gyfleodd newydd a gyflwynir gan yr economi leol gymharol fywiog. Mae'r Coleg wedi sefydlu partneriaethau gyda sawl cyflogwr yn yr ardal ac mae'n manteisio ar gyfleoedd a gyflwynir gan ei gampws newydd yng nghanol Caerdydd ar gyfer gweithgareddau manwerthu a llogi lleoliadau. Mae gan y coleg darged o gynyddu incwm masnachol o £3.4 miliwn yn 2014/15 i £8.6 miliwn yn 2016/17, a sicrhaodd £6.3 miliwn o incwm masnachol yn 2015/16 yn erbyn targed o £5.4 miliwn.

2.45 Mae cynnydd o ran cynhyrchu incwm masnachol mewn mannau eraill yng Nghymru wedi bod yn gymysg. Mae'r rhan fwyaf o golegau yn cael rhywfaint o incwm o gyrsiau iechyd a diogelwch a ariennir gan gyflogwyr, er enghraifft. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o golegau wedi ei chael yn anoddach datblygu darpariaeth arbenigol hirdymor ar gyfer cyflogwyr, sy'n debygol o wneud mwy o elw, o fod yn fwy diogel ac yn llai agored i gystadleuaeth o ran pris. Mae darpariaeth o'r fath yn ddibynnol i raddau helaeth ar bresenoldeb cyflogwyr mawr ag anghenion hyfforddiant arbenigol, ond mae cwmnïau o'r fath yn brin yn y rhan fwyaf o Gymru wledig. Er enghraifft, mae Grŵp Llandrillo Menai yn datblygu mentrau ar y cyd â'r cwmnïau mawr sy'n rhan o brosiect Horizon Nuclear ar Ynys Môn, ond prin yw'r cyfleoedd sydd ganddo mewn rhannau eraill o'i ddalgylch sy'n wledig ar y cyfan. Yn yr un modd, hysbysodd Coleg Ceredigion ei bod yn anodd datblygu incwm masnachol yn ei ardal ddaearyddol, lle mae cyflogwyr sector cyhoeddus a busnesau llai yn flaenllaw. Roedd rhai cwmniau mawr wedi lleihau nifer eu contractau hyfforddiant gyda cholegau hefyd. Yn fwy cyffredinol, nododd colegau bod llawer o gyflogwyr yn amharod i gyd-fuddsoddi yn sgiliau eu cyflogeion (paragraff 1.11), yn enwedig cwmniau bach a'r rhain yn y gorllewin a'r cymoedd a oedd wedi elwa o ddarpariaeth â chymhorthdal helaeth ers blynyddoedd lawer.

## Bwriadwyd i achosion o uno colegau sicrhau cydnerthedd ariannol ac ansawdd y ddarpariaeth, ac er mai prin fu'r gwerthuso ffurfiol, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y manteision hynny wedi cael eu gwireddu

2.46 Rhwng mis Medi 2008 a mis Awst 2015, gostyngodd nifer y colegau yng Nghymru o 25 i 14 trwy gyfres o achosion o uno (Atodiad 3). Ysgogwyd yr achosion hyn o uno gan ystyriaethau strategol, a sicrhau cydnerthedd ariannol ac ansawdd y ddarpariaeth yn benodol.

2.47 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwerthuso'r manteision sydd wedi deillio o'r achosion o uno yn systematig ac nid yw'r colegau unigol wedi gwneud hynny chwaith, ac eithrio Coleg Sir Gâr. Yn gyffredinol, canfuwyd gennym wrth adrodd ar fanteision, nad oedd cilegau wedi mesur y rhain mewn termau ariannol na thermau eraill. Serch hynny, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod yr achosion o uno wedi bodloni'r amcanion strategol.

2.48 Mae'r achosion o uno wedi arwain at lai o golegau a cholegau mwy, sydd wedi helpu i gryfhau cydnerthedd ariannol y sector trwy leihau pa mor agored yw colegau llai i bwysau ariannol (ceir proffil o bob coleg yn Atodiad 4). Mae cydnerthedd ariannol gwell yn amlwg ym mhroffil cyffredinol y sgoriau iechyd ariannol a briodolwyd i golegau gan Lywodraeth Cymru dros amser. Roedd yr effaith yn arbennig o amlwg ar gyfer colegau llai, a oedd yn wan yn ariannol, yn uno gyda sefydliad mwy a oedd yn gryfach yn ariannol.

2.49 Fodd bynnag, mae Coleg Ceredigion yn wynebu heriau ariannol arbennig yn rhannol oherwydd mai dyma'r prif goleg lleiaf o bell ffordd. Mae Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr yn dal i fod yn sefydliadau ar wahân ac annibynnol yn ariannol, er eu bod wedi uno'n un grŵp gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

2.50 Dynododd ein hymweliadau safle bod achosion o uno colegau wedi cael eu cyflawni yn unol â chynlluniau a disgwyliadau ariannol, ac nid adroddwyd unrhyw gostau uno na gynlluniwyd sylweddol i ni. Cadarnhaodd mwyafrif y colegau i ni ymweld â nhw bod yr uno hefyd wedi sicrhau arbedion, er na fesurwyd y rhain gan sawl coleg ac nid oedd y rhai a wnaeth yn eglur ynghylch amserlen yr arbediad na pha un a oedd yn hirdymor.

2.51 Roedd safbwyntiau'r colegau i ni ymweld â nhw ar faint y manteision yn amrywio yn dibynnu ar y math o uno. Ystyrir bod achosion o uno colegau yn cynnig mwy o fanteision nag achosion o uno colegau a sefydliadau addysg uwch, er na adroddwyd unrhyw ganlyniadau ariannol andwyol sylweddol ar gyfer yr olaf (Ffigur 16).

Ffigur 16 – Safbwyntiau'r sector addysg bellach ar fanteision uno

| Math o uno | Manteision a adroddwyd i ni |
|---|---|
| **Uno colegau** | • Manteision ariannol a adroddwyd yn eang.<br>• Ceir rhywfaint o le ar gyfer manteision ariannol ychwanegol wrth i'r sefydliadau newydd aeddfedu – yn enwedig yn y swyddfa gefn.<br>• Mae rhai colegau wedi cyfuno'r ddarpariaeth ar un safle, er enghraifft, trwy fodel canolfan ragoriaeth, yn enwedig ar gyfer cymwysterau lefel uwch a/neu y rhai â gofynion buddsoddi cyfalaf sylweddol (ee gweithdai).<br>• Mae cyfuno campysau wedi cynnig rhai manteision, ond mae hyn wedi'i gyfyngu'n gyffredinol gan yr angen i barhau i ddarparu i boblogaethau lleol â phwyslais ar y safleoedd coleg priodol. |
| **Uno sefydliad addysg bellach a sefydliad addysg uwch** | • Mae'r manteision ariannol yn fwy cyfyngedig – nid oes unrhyw groes-gymhorthdal o ran refeniw a nodir bod aelodau'r grŵp addysg bellach yn hunan-ariannu o ran refeniw.<br>• Mae mwyafrif y manteision wedi dod o arbedion effeithlonrwydd swyddfa gefn, er bod cynnydd wedi bod yn gyfyngedig mewn rhai achosion ac y bu manteision yn araf yn dod i'r amlwg.<br>• Nodir bod gwelliant i brofiad y myfyriwr – yn enwedig y cyfle ar gyfer dysgu gydol oes – yn fantais hefyd. |


Ffynhonnell: Gwaith maes Swyddfa Archwilio Cymru a Grant Thornton, Mawrth i Ebrill 2016

## Bu gostyngiad mawr i nifer y dysgwyr, yn bennaf oherwydd toriadau i ddarpariaeth ran-amser, ac er bod y sector wedi cynnal ei berfformiad o ran dangosyddion ansawdd a chanlyniadau hyd yn hyn, nid yw effaith gostyngiadau mwy diweddar i gyllid yn eglur eto

### Mae gostyngiadau i gyllid Llywodraeth Cymru wedi arwain at ostyngiad mawr i nifer y dysgwyr rhan-amser, er bod darpariaeth amser llawn ar gyfer pobl 16-19 mlwydd oed wedi cael ei diogelu

2.52 Yn 2015/16, yn seiliedig ar ddata dros dro, roedd 130,850 o ddysgwyr wedi eu hymrestru mewn colegau addysg bellach, ac roedd 47,870 ohonynt ar gyrsiau amser llawn, 67,090 ar gyrsiau rhan-amser a 15,890 ar raglenni dysgu seiliedig ar waith. Rhwng 2010/11 a 2015/16, mae nifer y dysgwyr amser llawn wedi cynyddu 1.9% tra bod nifer y dysgwyr rhan-amser wedi gostwng 59,230 neu 46.9% (Ffigur 17). Gostyngodd nifer y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn 7.7% rhwng 2010/11 a 2014/15 (nid yw'r ffigurau ar gyfer 2015/16 ar gael eto). Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu penderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru a'i chamau i ddiogelu darpariaeth amser lawn i bobl 16-19 mlwydd oed (paragraff 1.4). Mae'r gostyngiad i nifer y dysgwyr rhan-amser yn parhau tueddiad sy'n amlwg ers 2006/07.

Ffigur 17 – Nifer y dysgwyr mewn colegau addysg bellach, 2005/06 i 2014/15




Sylwer: Nid oedd data ar gyfer dysgwyr cyfwerth ag amser llawn ar gael ar gyfer 2005/06 na 2015/16. Mae data 2015/16 yn ddata dros dro.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.53 Mae cyfanswm y dysgwyr wedi gostwng 58,845 (31%) rhwng 2010/11 a 2015/16, bron yn gyfan gwbl oherwydd gostyngiad i nifer y dysgwyr rhan-amser. Arweiniodd y gostyngiad o 50% i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth ran-amser yn 2015/16 (paragraff 1.4) at ostyngiad o 21% i nifer y dysgwyr rhan-amser, ar ben gostyngiad o 16% yn ystod y flwyddyn cynt.

2.54 Mae colegau wedi diddymu llawer o gyrsiau rhan-amser, ac mae ffioedd dysgu uwch (a wnaed yn angenrheidiol yn sgil tynnu cyllid cyhoedd yn ôl) wedi lleihau'r galw am lawer o gyrsiau rhan-amser eraill. Mae colegau wedi cynnal nifer ac amrywiaeth y cyrsiau amser llawn ar y cyfan trwy gydol y cyfnod o ostyngiadau i gyllid. Fodd bynnag, mae arfer yn amrywio. Nid yw rhai colegau wedi diddymu unrhyw gyrsiau oni bai fod y cymwysterau perthnasol wedi cael eu diddymu neu eu disodli. Ond mae colegau eraill wedi lleihau amrywiaeth y pynciau a gynigir, neu wedi lleihau nifer y safleoedd y darperir rhai cyrsiau ohonynt. Mae colegau mewn ardaloedd gwledig yn wynebu heriau penodol o ran cynnal darpariaeth amser llawn (Blwch 18).

**Blwch 18: Heriau sy'n wynebu colegau mewn ardaloedd gwledig**

Mae Coleg Ceredigion wedi ei chael yn anodd ymdrin â gostyngiadau i gyllid oherwydd ei faint bach, sydd wedi cyfyngu ei gwmpas i leihau gorbenion. Cyrsiau galwedigaethol yn bennaf y mae'r coleg yn eu darparu gydag ychydig o ddarpariaeth Safon Uwch ac un rhaglen addysg uwch, ac ychydig iawn o ddarpariaeth ran-amser sydd ganddo. O ganlyniad, bu'n rhaid i'r coleg addasu'r ddarpariaeth alwedigaethol amser llawn er mwyn cyd-fynd â chyllidebau termau real is. Fodd bynnag, mae'r coleg yn awyddus i gadw cymaint o gyrsiau â phosibl er mwyn cynnal niferoedd myfyrwyr, y mae ei incwm yn ddibynnol arnynt.

Mae Ceredigion yn ardal wledig â chysylltiadau trafnidiaeth gwael ac mae'r coleg wedi ceisio cynnal hygyrchedd trwy barhau i redeg cymaint o gyrsiau â phosibl yn y lleoliadau a ddefnyddiwyd hyd yma. Mae'r sylfaen boblogaeth isel a gwasgaredig yn ddaearyddol wedi golygu derbyn meintiau dosbarth llai nag y byddai wedi bod yn wir mewn llawer o ardaloedd llai gwledig o Gymru. Fodd bynnag, cyfunwyd rhai dosbarthiadau ac fe'u cynhelir ar ddim ond un o brif gampysau'r coleg, neu'r ddau, gyda'r coleg yn cynnig trafnidiaeth â chymhorthdal. Mae'r coleg hefyd wedi cyfuno lefel 1 a lefel 2 ar gyfer rhai cyrsiau, a addysgir mewn blynyddoedd olynol yn nodweddiadol, yn un dosbarth; ac yn cyfuno rhai cyrsiau tebyg fel Sgiliau TG a Sgiliau Busnes yn un cwrs. Fodd bynnag, mae'r arloesiadau hyn wedi arwain at rywfaint o adborth negyddol gan ddysgwyr.

Nid yw colegau eraill sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig wedi wynebu anawsterau o'r un maint. Fodd bynnag, mae gan Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Sir Benfro a Grŵp Colegau NPTC (sy'n gwasanaethu Powys) oll bolisi o gynnal y ddarpariaeth er mwyn osgoi teithiau hwy i ddysgwyr, hyd yn oed os bydd hyn yn arwain at feintiau dosbarth cymharol fach. Mae Grŵp Llandrillo Menai hefyd wedi cyfuno rhywfaint o'i ddarpariaeth mewn llai o leoliadau am resymau effeithlonrwydd, ac mae'n darparu dosbarthiadau ar y cyd ar gyfer rhai cyrsiau mewn ardaloedd gwledig er mwyn sicrhau y cynnigir cwricwlwm eang.

## Mae’r gostyngiad mawr i ddarpariaeth ran-amser wedi, fel yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl, cael effaith negyddol ar gydraddoldeb trwy gyfyngu mynediad i rai grwpiau

2.55 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb wrth ystyried gostyngiadau i gyllid i’r sector addysg bellach ym mis Hydref 2013 a mis Tachwedd 2014. Nododd yr asesiadau, o ystyried canolbwynt y toriadau, y byddai dau grŵp yn cael eu heffeithio’n negyddol:

- pobl hŷn na 18 oed – diogelu’r ddarpariaeth ar gyfer pobl 16 i 18 mlwydd oed; a
- benywod – canolbwyntiodd y toriadau i gyllid ar ddarpariaeth ran-amser a dysgu cymunedol i oedolion, y mae gan y ddau ohonynt ganran uwch o ddysgwyr benywaidd.

2.56 Er mwyn lliniaru’r effaith ar grwpiau arbennig o agored i niwed, diogelwyd addysg sylfaenol i oedolion, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill, a dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol neu ddifrifol rhag y toriadau i’r ddarpariaeth ran-amser gan Lywodraeth Cymru. Nododd yr asesiadau effaith y byddai effaith y newidiadau yn cael eu monitro ac y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu mesurau i liniaru unrhyw effaith negyddol weddilliol ar bobl dros 18 oed a menywod, a dywedodd asesiad effaith 2012/13 y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllid o’r gyllideb cyflogaeth a sgiliau i gefnogi’r ddarpariaeth pan fo’n briodol. Dywedodd swyddogion wrthym nad oedd colegau wedi codi unrhyw bryderon penodol gyda Llywodraeth Cymru, ac felly nid oedd angen unrhyw gamau lliniaru ychwanegol.[31]

2.57 Y safbwynt gan golegau yw bod y gostyngiad i gyrsiau rhan-amser wedi cael effaith andwyol ar oedolion incwm isel, yn enwedig menywod incwm isel, a fyddai’n elwa o fynediad at addysg bellach ond yn cael trafferth yn talu’r ffioedd uwch y mae colegau yn eu codi am gyrsiau erbyn hyn. Nododd colegau hefyd yr effaith andwyol ar rieni sengl sy'n tueddu i ddibynnu mwy ar gyrsiau rhan-amser. Nid oes data ar gael i nodi’r effaith ar y grwpiau penodol hyn. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd gostyngiad pendant i nifer y dysgwyr dros 19 oed ar gyrsiau rhan-amser rhwng 2012/13 a 2015/16 – 27.7% ar gyfer dynion a 37.0% ar gyfer menywod – sy’n dynodi bod menywod wedi cael eu heffeithio mwy i ryw raddau.

31 Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo symiau sylweddol o raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020 i helpu grwpiau dan anfantais ar draws y farchnad lafur, ond nid yw’r prosiectau hyn o reidrwydd yn cynnwys hyfforddiant sgiliau ac nid ydynt yn ddewis amgen uniongyrchol ar gyfer colli darpariaeth ran amser.

2.58 Dywedodd colegau wrthym fod effaith y newidiadau hefyd yn ei gwneud yn anoddach i helpu i roi sylw i'r agendâu cyflogaeth a thlodi, a rhai o'r nodau llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn fwy cyffredinol, gwnaeth rhai colegau sylwadau ar fanteision dysgu cymunedol i oedolion i gydlyniant cymunedol, hyd yn oed os na wnaeth llawer o'r cyrsiau a ddarperir (cyrsiau 'diddordeb' neu 'hobi') gyfrannu'n uniongyrchol at sgiliau sy'n werthfawr yn economaidd. Er enghraifft, dywedodd Coleg Penybont bod dysgu cymunedol yn cadw'r gymuned yn weledol ac yn hygyrch yn y gymuned, a chollwyd y manteision anghyffwrdd hyn i raddau helaeth ar ôl i'r ddarpariaeth hon gael ei diddymu.

## Mae'r sector wedi cynnal ei berfformiad o ran dangosyddion ansawdd a chanlyniadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond nid yw effaith y gostyngiadau mwy diweddar i gyllid yn eglur eto

2.59 Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu arolwg blynyddol o ddysgwyr addysg bellach,[32] o'r enw arolwg Llais y Dysgwr, i asesu eu barn ar yr addysg y maent yn ei derbyn. Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf yn 2009 ar sail sampl, a chynhaliwyd arolygon yn flynyddol o 2013 i 2015. Roedd yr arolygon sampl a llawn yn cynnwys gwahanol gwestiynau ar y cyfan, gan gyfyngu'r cymariaethau y gellir eu gwneud yn ôl i 2009. Fodd bynnag, roedd y ddau yn gofyn i ddysgwyr roi eu barn ar eu bodlonrwydd cyffredinol â'u profiad dysgu, gyda'r gyfran a oedd yn credu ei fod yn 'dda iawn' neu'n 'dda' ('hynod fodlon' neu 'bodlon iawn' yn yr arolwg cyntaf) yn cynyddu o 74% yn 2009 i 80% yn 2015.[33]

2.60 Ers 2013, cyflwynwyd yr arolygon i'r holl ddysgwyr amser llawn a seiliedig ar waith a sampl o 25% o ddysgwyr rhan amser, dysgu cymunedol i oedolion a Chymraeg i Oedolion. Y gyfradd ymateb (o'r rhai a oedd wedi'u cynnwys yn y sampl) oedd 68% ar gyfartaledd ar draws y tair blynedd. Mae canfyddiadau'r arolygon yn dangos bod y sector wedi cynnal lefelau bodlonrwydd, neu wedi eu gwella rhyw fymryn, rhwng 2013 a 2015 (Ffigur 18). Mae'r canfyddiadau hyn yn dynodi nad yw cyfyngiadau ariannol wedi arwain at unrhyw ddirywiad i ansawdd addysg hyd yn hyn, yn nhyb y dysgwyr eu hunain.

32 Mae'r arolwg wedi'i ohirio ar hyn o bryd ond fe'i cynhaliwyd yn flynyddol rhwng 2013 a 2015.
33 Roedd yr arolwg cyntaf yn 2009 yn cynnwys 5,742 o ymatebwyr a samplwyd o'r boblogaeth lawn o ddysgwyr addysg bellach. Roedd yr arolygon dilynol o'r holl boblogaeth dysgwyr yn cynnwys rhwng 53,000 a 62,000 o ymatebwyr.

Ffigur 18 – Dangosyddion dethol o Arolwg Llais y Dysgwr, 2013 i 2015

| Cwestiwn | % a atebodd 'da iawn' neu 'da' | | |
|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 |
| Barn ar y profiad dysgu cyffredinol | 78 | 78 | 80 |
| Barn ar: | | | |
| - Ansawdd addysgu | 81 | 81 | 81 |
| - Gwybodaeth a chyngor | 73 | 72 | 79 |
| - Iechyd a lles | 77 | 77 | 81 |
| - Ymatebolrwydd | 70 | 69 | 71 |
| - Cymorth a chefnogaeth | 75 | 75 | 75 |

Sylwer: Mae barn ar fodlonrwydd cyffredinol â'r profiad dysgu yn cynnwys yr holl ddysgwyr amser llawn a rhan-amser mewn addysg bellach ar gyfer 2014 a 2015 a dysgwyr amser llawn yn unig ar gyfer 2013.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Arolygon Llais y Dysgwr Cymru


2.61 Mae adroddiadau diweddar gan Estyn yn dynodi safonau rhagorol neu dda yn y tri choleg a arolygwyd yn 2015 a 2016 (Blwch 19). Adroddodd adolygiadau perfformiad blynyddol Estyn yn 2014 (Blwch 9 ar dudalen 32) yn ffafriol ar safonau mewn colegau hefyd, ac nid oedd yr un ohonynt yn cynnig unrhyw achos pryder penodol.

**Blwch 19: Canfyddiadau arolygiad Estyn**

Mae Estyn wedi arolygu tri choleg ers i arolygiadau llawn o golegau ailgychwyn yn 2015: Coleg Caerdydd a'r Fro (Mawrth 2015), Coleg Cambria (Tachwedd 2015) a Choleg Penybont (Mawrth 2016). Dyfarnwyd bod Coleg Penybont a Choleg Cambria yn 'rhagorol' o ran perfformiad cyfredol a rhagolygon ar gyfer gwelliant, a dyfarnwyd bod Coleg Caerdydd a'r Fro yn 'dda' ar gyfer y ddwy agwedd. Dyfarnwyd bod bob un o'r tri choleg yn 'rhagorol' neu'n 'dda' ar draws meysydd allweddol canlyniadau a darpariaeth ddysgu.

2.62 Mae'r sector wedi gwella ei berfformiad ar fesurau canlyniadau allweddol rhwng 2006/07 a 2015/16, wrth i gyfraddau cwblhau gynyddu'n gyffredinol o bum pwynt canran, cyfraddau cyrhaeddiad o 22 pwynt canran, a chyfraddau llwyddiant o 23 pwynt canran (Ffigur 19). Digwyddodd y rhan fwyaf o'r gwelliant hwn cyn 2010/11, ond bu mân welliant ym mhob un o'r tri o ddangosyddion yn y blynyddoedd dilynol, ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn efallai fod rhywfaint o'r gwelliant cynharach wedi bod oherwydd gwelliannau i ansawdd data. Mae'r canlyniadau hyn yn dynodi nad yw cyfyngiadau ariannol wedi cael effaith negyddol ar ganlyniadau hyd at 2015/16.

Ffigur 19 – Perfformiad o ran mesurau canlyniadau dysgwyr, 2006/07 i 2014/15




Ffynhonnell: Adroddiadau canlyniadau dysgwyr a gyhoeddwyd yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru o ddata a gyflwynwyd gan golegau

2.63 Mae gan rai penaethiaid cwricwlwm bryderon ynghylch gostyngiad i amseroedd addysgu ar gyfer llawer o gyrsiau (paragraff 2.24), yr oeddent yn teimlo fyddai'n lleihau amser ar gyfer ymarfer sgiliau galwedigaethol yn benodol, o ystyried bod yn rhaid rhoi sylw i'r holl gynnwys academaidd. Roeddent yn pryderu y byddai'r sefyllfa, dros amser, yn torri cyfran y dysgwyr sy'n ennill teilyngdod neu ragoriaeth ar eu cyrsiau. Nid yw data ar gyflawniad yn cael eu casglu ar y lefel fanylder hon gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd (er ei bod yn bwriadu gwneud hyn yn y dyfodol – paragraff 1.63a) felly bydd yn anodd gwerthuso'r effaith.

2.64 Mae'r wybodaeth am ganlyniadau a bodlonrwydd dysgwyr yn galonogol. Fodd bynnag, rydym ni ac Estyn o'r farn ei bod yn rhy gynnar i werthuso'n llawn yr effaith ar ostyngiadau i gyllid ar safonau neu ganlyniadau, o gofio bod gostyngiadau i gyllid yn gymharol ddiweddar wrth i'r toriadau mwyaf difrifol gael eu gwneud yn 2015/16; ac o gofio bod llawer o raglenni dysgu yn cymryd blwyddyn neu ddwy flynedd i'w cwblhau. Cyflwynwyd llawer o'r newidiadau yn y ddarpariaeth o raglenni a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn 2014/15 neu 2015/16 a bydd unrhyw effaith yn cymryd amser i gael ei throsglwyddo i fesurau canlyniadau neu fodlonrwydd. Serch hynny, yr arwyddion cynnar ar gyfer y colegau hynny sydd wedi canolbwyntio'n gryf ar wella ansawdd, fel y cydnabyddir gan adroddiadau arolygu Estyn yn ddiweddar, yw eu bod wedi gwneud rhai newidiadau i'w darpariaeth o gyrsiau i liniaru yn erbyn y newidiadau mewn cyllid.

# Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio

Atodiad 2 – Llywodraethiad colegau addysg bellach a swyddogaeth Llywodraeth Cymru

Atodiad 3 – Achosion o uno colegau fesul ardal awdurdod lleol

Atodiad 4 – Data allweddol colegau addysg bellach

Atodiad 5 – Categorïau iechyd ariannol ar gyfer colegau



# Atodiad 1 – Dulliau archwilio

## Cwmpas yr adolygiad

Mae cwmpas ei gwaith yn cynnwys y 14 o golegau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n bodoli'n benodol i ddarparu addysg bellach ar sail ddielw. Mae'n cynnwys cymwysterau safon Uwch a chymhwyster bagloriaeth Cymru, ond nid yw darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion wedi ei chynnwys yng nghwmpas ein hadolygiad. Fodd bynnag, mae Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant yn cael ei gynnwys gan ei fod yn cynnig addysg bellach i ddysgwyr ôl-16 yn bennaf ac yn cael ei reoleiddio fel coleg addysg bellach. Nid yw darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac eithrio colegau, a darparwyr addysg breifat wedi eu cynnwys yng nghwmpas yr adolygiad chwaith.

Mae colegau yn penodi eu harchwilwyr allanol eu hunain ac y tu allan i drefn archwilio statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hawliau mynediad at y diben o archwilio cyllid cyhoeddus a ddarperir i golegau gan Lywodraeth Cymru neu'r cyrff y mae'n eu noddi.

Penodwyd y cwmni archwilio Grant Thornton gennym i ategu ein hadolygiad.

## Adolygu a dadansoddi dogfennau a data

Adolygwyd amrywiaeth o ddogfennau a data yn ymwneud â'r sector yn ei gyfanrwydd gennym, gan gynnwys:

- Y prif ddogfennau polisi a strategaeth sy'n effeithio ar y sector: **Cymwys am Oes**, y **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**, y **Datganiad Polisi ar Sgiliau** a'r **Cynllun Gweithredu Sgiliau**;
- Adolygiadau neu adroddiadau ymchwil annibynnol a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant ôl-16 a darpariaeth chweched dosbarth yng Nghymru;
- **Canllaw ar y Fframwaith Cyllido a Chynllunio ôl-16** Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg a hyfforddiant a chanllawiau a rheoliadau eraill ar gyfer y sector;
- Llythyrau dyraniadau ariannol blynyddol a llythyrau Gweinidogol yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y sector; a
- Dogfennau cyllideb a dyraniadau gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg bellach.

Mae colegau yn cyhoeddi ac yn darparu amrywiaeth eang o ddata a gwybodaeth i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys datganiadau ac amcangyfrifon ariannol, datganiadau llywodraethu, cynlluniau busnes, ac amrywiaeth o ddata ar gyrsiau a dysgwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu rhai dadansoddiadau o'r data a gwybodaeth hyn. Derbyniwyd ac adolygwyr yr holl wybodaeth hon gennym, gan gynnal ein dadansoddiad ein hunain i asesu iechyd ariannol colegau unigol a'r sector yn ei gyfanrwydd ac i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau sydd gan Lywodraeth Cymru i fonitro a chefnogi'r sector.

Anfonwyd cais am wybodaeth i bob coleg i gael eu safbwyntiau ar leihad costau, gweithio ar y cyd a chyfathrebiad gyda Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd am rywfaint o wybodaeth ategol gan golegau unigol hefyd, er enghraifft astudiaethau dichonoldeb ar achosion o uno, prisiadau uno a chynllunio arbed costau.

## Cyfweliadau a chyfarfodydd

Archwiliwyd materion a godwyd trwy ein hadolygiad o ddogfennau a data mewn cyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac mewn cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o'r sector addysg bellach, gan gynnwys presenoldeb mewn cyfarfod Cyfarwyddwyr Cyllid y sector.

Ymwelwyd â naw o golegau fel y nodir isod a chawsom gyfarfodydd ag uwch arweinwyr colegau, gan gynnwys y Pennaeth neu'r Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac uwch reolwyr sy'n gyfrifol am gynllunio'r cwricwlwm. Gydag un eithriad, cynhaliwyd yr ymweliadau â cholegau ar ein rhan gan archwilwyr o Grant Thornton. Ymwelodd staff Swyddfa Archwilio Cymru â Choleg Penybont i osgoi gwrthdaro buddiannau posibl gan fod Grant Thornton yn cyflawni swyddogaeth archwilio allanol y coleg.

| Colegau yr ymwelwyd â nhw yn rhan o'r adolygiad |
|---|
| Coleg Penybont |
| Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Coleg Ceredigion |
| Coleg Gwent |
| Grŵp Llandrillo Menai |
| Coleg Merthyr Tudful |
| Grŵp Colegau NPTC |
| Coleg Sir Benfro |
| Coleg Sir Gâr |

Ymgysylltwyd â CCAUC hefyd o ran eu trosolwg o'r tri choleg a reolir gan brifysgolion ac i gymharu trosolwg Llywodraeth Cymru o golegau gyda'r dull a ddilynir gan CCAUC ar gyfer sefydliadau addysg uwch (fel y crynhowyd yn flaenorol yn ein hadroddiad **Cyllid Addysg Uwch** yn 2013).

Yn olaf, trafodwyd gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Audit Scotland eu hadroddiadau diweddar ar addysg bellach (**Overseeing Financial Sustainability in the Further Education Sector, a gyhoeddwyd yn 2015**, a dau adroddiad o'r enw **Scotland's Colleges**, a gyhoeddwyd yn 2015 a 2016) i nodi unrhyw faterion cyffredin a gwahaniaethau amlwg.

# Atodiad 2 – Llywodraethiad colegau addysg bellach a swyddogaeth Llywodraeth Cymru

Sefydlodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gorfforaethau addysg bellach a Cholegau neilltuedig yng Nghymru o fis Ebrill 1993. Roedd hyn yn golygu nad oedd colegau Cymru o dan reolaeth awdurdodau lleol mwyach, a daethant yn gorfforaethau ar wahân yn gyfreithiol. Derbyniodd colegau gyllid trwy Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru i gychwyn. O dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, sefydlwyd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, a ddaeth i gael ei adnabod fel Dysgu ac Addysg Cymru (ELWa). Cymerodd ELWa gylch y cylch gwaith o gynllunio ac ariannu dysgu ôl-16 drosodd. Yn 2006, unwyd ELWa â Llywodraeth Cymru a chymerodd Llywodraeth Cymru drosodd gyfrifoldeb am ariannu colegau yn uniongyrchol.

Yn dilyn Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, dosbarthwyd colegau ar gyfer cyfrifon cenedlaethol fel ‘sefydliadau dielw yn gwasanaethu cartrefi’ (NPISH) ac roeddent yn rhan o’r sector preifat o safbwynt cyfrifon cenedlaethol. Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y byddai’n ailddosbarthu colegau i’r sector llywodraeth gyffredinol yn hytrach na’r sector NPISH. Roedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn teimlo y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar y sector addysg bellach. Gwnaeth Ddeddf Addysg 2011 ddiwygiadau i lywodraethiad corfforaethau addysg bellach yn Lloegr a oedd yn ddigonol i’r Swyddfa Ystadegau Gwladol eu hailddosbarthu y tu allan i’r sector cyhoeddus.

Yn 2014, dychwelodd colegau Cymru i statws NPISH yn dilyn Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014. Diwygiodd y Ddeddf ddeddfwriaeth flaenorol i gynyddu ymreolaeth ac annibyniaeth colegau ac roedd coleg bellach yn gallu:

- Addasu neu ddisodli ei offeryn a’i erthyglau llywodraethu, cyn belled â’u bod bob amser yn cynnwys safonau gofynnol penodol.
- Penderfynu diddymu ei hun a throsglwyddo ei eiddo, ei asedau a’i rwymedigaethau i sefydliad arall, yn amodol ar ofynion ymgynghori.
- Benthyg cyllid heb ganiatâd Llywodraeth Cymru ymlaen llaw.
- Sefydlu trefniadau is-gorff (fel cwmni) i ymgymryd ag unrhyw ran o fusnes y coleg.
- Penodi ei holl lywodraethwyr ei hun ac eithrio dau aelod wedi’u hethol gan staff coleg a dau gan ei ddysgwyr. Yn y gorffennol, roedd gan Lywodraeth Cymru yr hawl i benodi dau aelod o’r corff llywodraethu. Fodd bynnag, cyflwynodd y Ddeddf bwerau ymyrryd estynedig a oedd yn caniatau i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ddiddymu ei hun o dan amgylchiadau penodol.

Mae deg coleg yn Gorfforaethau Addysg Bellach Elusennau wedi’u Heithrio, rheolir tri choleg gan sefydliadau addysg uwch erbyn hyn ac mae Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru sydd newydd uno (a ailenwyd yn Addysg Oedolion Cymru ers hynny) yn gweithredu ar draws Gymru gyfan.

Yn yr Alban, mae colegau yn cael eu dosbarthu yn rhan o'r sector cyhoeddus erbyn hyn ac felly mae ganddynt lai o ymreolaeth a hyblygrwydd dros eu cyllid na cholegau yng Nghymru a Lloegr. Er enghraifft, mae'n ofynnol iddynt gynllunio i adennill eu costau ar sail adnoddau ymhob blwyddyn ariannol, ni chânt gronni cronfeydd arian parod (sydd wedi eu rhoi i sefydliadau hyd braich) ac mae'n ofynnol iddynt adrodd yn fwy rheolaidd i Gynghorau Ariannu'r Alban.

Lleihaodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 bwerau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel Prif Reoleiddiwr y 10 elusen wedi'u heithrio yn y sector. Mae'r swyddogaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hybu monitro cydymffurfiad â deddfwriaeth elusennau ac i hysbysu'r Comisiwn Elusennol os bydd diffyg cydymffurfio.

Mae'r trosolwg o golegau yn wahanol i'r hyn sy'n berthnasol ar gyfer sefydliadau addysg uwch ac mae gan CCAUC swyddogaeth sylweddol sydd wedi canolbwyntio ar drefniadau ariannu, ond a fydd yn cynnwys rhai swyddogaethau rheoleiddiwr o dan **Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015** a fydd yn cael eu trosglwyddo o Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, bydd gan CCAUC rai swyddogaethau rheoleiddio ar gyfer y tri choleg sy'n rhan o sefydliadau addysg uwch a bydd hefyd yn gyfrifol am ariannu a rheoleiddio cyrsiau addysg uwch cymeradwy a allai gael eu darparu mewn colegau. Dechreuodd trefniadau pontio ar 1 Medi 2015, a bydd y Ddeddf newydd yn cael ei chyflwyno'n llawn ar 1 Awst 2017.

Nodwyd trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer monitro iechyd ariannol colegau yng Nghylchlythyr 24/2006 (Financial Health Monitoring for Further Education Institutions) a chanllawiau mwy diweddar 006/2015 ('Accounts Direction to Further Education Institutions for 2014/15). Mae'r dogfennau hyn yn nodi'r disgwyliadau adrodd a llywodraethu sydd gan Lywodraeth Cymru o golegau a swyddogaeth Llywodraeth Cymru o fonitro'r sefydliadau. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng cyfarwyddwyr cyllid colegau a Llywodraeth Cymru, wedi'u hwyluso gan ColegauCymru.

Llywodraethir defnydd colegau o gyllid cyhoeddus gan y **Memorandwm Ariannol**, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014. Mae'n ddogfen hon yn:

- Nodi cyfrifoldebau cyffredinol swyddog cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a chyrff llywodraethu colegau;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r coleg ddefnyddio cyllid cyhoeddus at y dibenion y cawsant eu dyrannu ar eu cyfer yn unig, ac i ad-dalu cyllid nad yw'n cael ei ddefnyddio at y dibenion hyn;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gymeradwyo a monitro strategaeth ariannol sydd y bwriedir iddi sicrhau diddyledrwydd y coleg, ac i reoli cyllid yn ddarbodus; a
- Darparu canllawiau ar ofynion cyfrifyddu.

Estyn sy'n gyfrifol am arolygu colegau unigol, ar sail cylch tair blynedd ar hyn o bryd. Mae'r arolygiadau yn cynnwys asesiad o berfformiad cyffredinol ac ansawdd darpariaeth colegau, adolygiad o arweinyddiaeth a rheolaeth coleg, ac asesiad mwy manwl o sampl o feysydd dysgu i asesu ansawdd addysgu ac arfer rheoli.

# Atodiad 3 – Achosion o uno colegau fesul ardal awdurdod lleol

| Awdurdod lleol | Colegau ym mis Medi 2008 | Dyddiadau uno | Colegau ym mis Awst 2015[1] |
|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent**<br>**Sir Fynwy**<br>**Casnewydd**<br>**Torfaen** | Coleg Gwent | Amherthnasol | Coleg Gwent |
| **Caerdydd** | Coleg Catholig Dewi Sant | Amherthnasol | Coleg Catholig Dewi Sant |
| | Coleg Glan Hafren | Awst 2011 | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| **Bro Morgannwg** | Coleg y Barri | | |
| **Rhondda Cynon Taf** | Coleg Morgannwg | Awst 2013 | Coleg y Cymoedd |
| **Caerffili** | Coleg Ystrad Mynach | | |
| **Merthyr Tudful** | Coleg Merthyr Tudful | Mai 2006 gyda Phrifysgol Morgannwg (Prifysgol De Cymru erbyn hyn) | Coleg Merthyr Tudful[2] |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Coleg Penybont | Amherthnasol | Coleg Penybont |
| **Powys** | Coleg Powys | Awst 2013 | Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Coleg Castell-nedd Port Talbot | | |
| **Abertawe** | Coleg Abertawe<br>Coleg Gorseinon | Awst 2010 | Coleg Gŵyr Abertawe |
| **Sir Gaerfyrddin** | Coleg Sir Gâr | Awst 2013 gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Coleg Sir Gâr[2] |
| **Sir Benfro** | Coleg Sir Benfro | Amherthnasol | Coleg Sir Benfro |
| **Ceredigion** | Coleg Ceredigion | Ionawr 2014 gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant | Coleg Ceredigion[2] |

| Awdurdod lleol | Colegau ym mis Medi 2008 | Dyddiadau uno | Colegau ym mis Awst 2015[1] |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | Coleg Menai | Ebrill 2010 – Coleg Llandrillo Cymru a Choleg Meirion-Dwyfor<br>Ebrill 2012 – Coleg Llandrillo Cymru a Choleg Menai | Grŵp Llandrillo Menai |
| **Gwynedd** | Coleg Menai<br>Coleg Meirion-Dwyfor | | |
| **Sir Ddinbych** | Coleg Llandrillo Cymru | | |
| **Conwy** | | | |
| **Sir y Fflint** | Coleg Glannau Dyfrdwy<br>Coleg Garddwriaeth Cymru<br>Coleg Llysfasi | Awst 2009 – Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Garddwriaeth Cymru<br>Awst 2010 – Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Llysfasi<br>Awst 2013 – Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl Wrecsam | Coleg Cambria |
| **Wrecsam** | Coleg Iâl Wrecsam | | |
| **Cymunedol** | Coleg Cymunedol YMCA<br>WEA De Cymru<br>WEA Coleg Harlech | Ionawr 2014 – WEA De Cymru a WEA Coleg Harlech i ffurfio WEA Cymru<br>Awst 2015 – WEA Cymru a Choleg Cymunedol YMCA | Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru (ailenwyd yn Addysg Oedolion Cymru ar 5 Tachwedd 2016) |

Nodiadau:

1 Efallai fod gan golegau gampysau mewn sawl lleoliad yn yr ardal y maent yn ei gwasanaethu. Nid yw uno o reidrwydd yn awgrymu bod y ddarpariaeth wedi ei chanoli ar un campws neu ar nifer lai o gampysau.

2 Mae'r coleg yn rhan o grŵp sy'n cynnwys sefydliad addysg uwch, ond mae'n ymreolaethol i raddau helaeth ac yn annibynnol at ddibenion adrodd ariannol.

Ffynhonnell: Papur briffio ColegauCymru, Mawrth 2014 a gwefannau colegau

# Atodiad 4 – Data allweddol colegau addysg bellach

Niferoedd myfyrwyr rhagarweiniol ar gyfer 2015/16. 2015/16 archwiliedig ar gyfer dangosyddion ariannol.

| Coleg | Nifer y dysgwyr amser llawn | Nifer y dysgwyr rhan amser a seiliedig ar waith | Cyfanswm incwm (£000) | Gwarged/ (diffyg) gweithredu (£000) | Hylifedd (diwrnodau arian parod)[1] |
|---|---|---|---|---|---|
| Coleg Penybont | 2,470 | 3,050 | 26,416 | 360 | 39 |
| Coleg Cambria | 6,245 | 11,285 | 53,345 | 1,652 | 101 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 4,325 | 5,445 | 44,600 | (1,859) | 62 |
| Coleg Ceredigion | 685 | 355 | 4,940 | (429) | 25 |
| Coleg y Cymoedd | 5,035 | 3,695 | 36,607 | (1,390) | 124 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 4,510 | 6,760 | 36,472 | 115 | 89 |
| Coleg Gwent | 7,500 | 8,735 | 51,744 | 1,419 | 75 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 6,445 | 15,085 | 70,303 | (2,618) | 58 |
| Coleg Merthyr Tudful | 1,765 | 845 | 13,816 | 178 | 78 |
| Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot | 4,190 | 7,170 | 49,617 | 436 | 64 |
| Coleg Sir Benfro | 1,720 | 4,185 | 26,728 | 32 | 77 |
| Coleg Sir Gâr | 2,855 | 3,000 | 30,349 | 961 | 79 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 1,320 | 20 | 6,646 | (62) | 46 |
| Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru[2] | 0 | 17,985 | 6,885 | (490) | 94 |

Nodiadau:

1 Mesur hylifedd a gyfrifir fel nifer y diwrnodau o gyfanswm y gwariant y gall buddsoddiadau byrdymor ac arian parod dalu amdanynt, ac eithrio gorddrafftiau banc, yw diwrnodau arian parod. Mae cyfanswm y gwariant yn cynnwys costau nad ydynt yn arian parod megis dibrisiad a rhai taliadau pensiynau.

2 Ffurfiwyd Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru (a ailenwyd yn Addysg Oedolion Cymru ers hynny) ar 1 Awst 2015 trwy uno WEA Cymru a YMCA. Cyfansymiau'r sefydliadau blaenorol yw nifer y myfyrwyr.

# Atodiad 5 – Categorïau iechyd ariannol ar gyfer colegau

| Categori | Meini prawf ar gyfer neilltuo i'r categori |
|---|---|
| **A – Mae sefyllfa ariannol y sefydliad a'i strategaeth ariannol yn cefnogi'r cynllun sefydliadol yn llawn** | • Mae'r strategaeth ariannol yn cefnogi'r cynllun sefydliadol yn llawn gyda thargedau a chamau i ddarparu digon o arian parod a gwargedau gweithredu i ariannu gweithgarwch parhaus, i ariannu buddsoddiadau ac i gynhyrchu cronfa ariannol wrth gefn.<br>• Gwargedau gweithredu o flwyddyn i flwyddyn a mewnlifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu ar lefel sy'n gyson â'r strategaeth ariannol.<br>• Balansau arian parod wedi'u haddasu[1] yn gyfwerth â gwariant un mis.<br>• Asedau cyfredol net.[2]<br>• Balans cadarnhaol ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol cyn y diffyg pensiwn.<br>• Mae diffygion net neu all-lifoedd arian parod yn digwydd dim ond oherwydd buddsoddiadau a gynlluniwyd neu benderfyniadau strategol. |
| **B – Mae sefyllfa ariannol y sefydliad a'i strategaeth ariannol yn cefnogi'r cynllun sefydliadol ar hyn o bryd, ond y gellid ei gryfhau** | • Mae'r strategaeth ariannol yn cefnogi'r cynllun sefydliadol ar hyn o bryd gyda thargedau a chamau i ddarparu digon o arian parod a gwargedau gweithredu i ariannu gweithgarwch parhaus, i ariannu buddsoddiadau ac i gynhyrchu cronfa ariannol wrth gefn, a cheir cynllun i roi sylw i unrhyw wendidau yn y sefyllfa ariannol.<br>• Mae canlyniadau gweithredu a llifoedd arian parod o flwyddyn i flwyddyn yn rhoi sefyllfa o fantoli'r cyfrifon a cheir cynllun eglur ar sut i ddychwelyd i'r lefel sy'n ofynnol o dan y strategaeth ariannol.<br>• Balansau arian parod wedi'u haddasu yn gyfwerth â gwariant un mis.<br>• Asedau cyfredol net.<br>• Balans cadarnhaol ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol cyn y diffyg pensiwn.<br>• Mae diffygion net neu all-lifoedd arian parod yn digwydd dim ond oherwydd buddsoddiadau a gynlluniwyd neu benderfyniadau strategol ac yn cael eu hariannu'n llawn o gronfeydd arian parod wrth gefn. |

| Categori | Meini prawf ar gyfer neilltuo i'r categori |
|---|---|
| **C – Mae angen gwella sefyllfa ariannol y sefydliad neu ei strategaeth ariannol er mwyn cefnogi'r cynllun sefydliadol** | • Mae'r strategaeth ariannol gyfredol yn cefnogi'r cynllun sefydliadol ar hyn o bryd gyda thargedau a chamau i ddarparu arian parod digonol.<br>• Nid yw'r strategaeth ariannol yn cefnogi'r cynllun ariannol neu mae'n methu â nodi targedau a chamau i ddarparu gwargedau arian parod a gweithredu digonol i ariannu gweithgarwch parhaus, i ariannu buddsoddiadau ac i gynhyrchu cronfa ariannol wrth gefn.<br>• Diffygion neu wargedau gweithredu ailadroddus nad ydynt yn bodloni'r targedau a nodir yn y strategaeth ariannol. Gwariant (cyfredol neu a ragwelir yn y ddwy flynedd nesaf)<br>• Rhagwelir rhwymedigaethau cyfredol net.<br>• Rhagwelir cronfeydd wrth gefn negyddol cyn diffygion pensiwn.<br>• Ceir diffygion gweithredu neu all-lifoedd arian parod sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd ac eithrio'n rhan o fuddsoddiadau a gynlluniwyd neu benderfyniadau strategol, neu nid ydynt wedi'u hariannu'n llawn o gronfeydd arian parod wrth gefn. |
| **D – Mae sefyllfa ariannol y sefydliad yn wan ac nid yw'n cefnogi ei strategaeth ariannol na'r cynllun sefydliadol** | • Nid yw'r strategaeth ariannol yn cefnogi'r cynllun ariannol ac mae'n methu â nodi targedau a chamau i ddarparu gwargedau arian parod a gweithredu digonol i ariannu gweithgarwch parhaus, i ariannu buddsoddiadau ac i gynhyrchu cronfa ariannol wrth gefn. Nid oes cynllun effeithiol i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon.<br>• Mae angen rhagdalu grant neu fenthyciad allanol i fodloni rhwymedigaethau pan fyddant yn ddyledus.<br>• Nid yw canlyniadau gweithredu a/neu lifoedd arian parod net yn bodloni'r targedau yn y strategaeth ariannol neu nid oes cynllun effeithiol i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon.<br>• Mae balansau arian parod wedi'u haddasu yn llai nag un mis o wariant (cyfredol neu a ragwelir yn y ddwy flynedd nesaf).<br>• Rhagwelir rhwymedigaethau cyfredol net.<br>• Rhagwelir cronfeydd wrth gefn negyddol cyn diffygion pensiwn.<br>• Nid yw gwelliannau i'r sefyllfa ariannol wedi cael eu cadarnhau eto yn y datganiadau ariannol blynyddol wedi'u harchwilio. |

Nodiadau:

1 Diffinnir balansau arian parod wedi'u haddasu yma fel arian parod mewn llaw heb rwymedigaethau sy'n daladwy o fewn blwyddyn.

2 Asedau cyfredol net: y swm y mae dyledwyr, buddsoddiadau hylif ac arian parod (sy'n dderbyniadwy neu'n wireddadwy o fewn blwyddyn) yn fwy na chredydwyr a benthyciadau sy'n daladwy o fewn blwyddyn. Mae hwn yn fesur allweddol o hylifedd neu allu i dalu rhwymedigaethau pan fyddant yn ddyledus.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **Financial Health Monitoring Procedures for Further Education Institutions (Cylchlythyr 24/2006)**, Ionawr 2007

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls
in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus / Public Accounts Committee

PAC(5)-12-17 P3

Huw Morris
Director, Skills, Higher Education and Lifelong Learning
Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Huw Vaughan Thomas
Auditor General for Wales
Wales Audit Office
24 Cathedral Road
CARDIFF
CF11 9LJ

Date: 20 March 2017

Dear Huw

**Response to the report 'Welsh Government oversight of FE colleges' finances and delivery' (28 February 2017)**

I would like to thank you for this report. Whilst reductions in funding to the FE sector over recent years are acknowledged in the report, I am pleased that it highlights the good relationships forged between the sector and officials in Welsh Government which has minimised the impact on learners wherever possible.

The report recognises that the Welsh Government's funding allocation and oversight arrangements are sound, but would benefit from a more integrated and long-term approach. Many of the 7 recommendations in the report were already in progress and will be considered in further detail in line with the additional evidence highlighted in the report.

We accept the recommendations, but due to the Welsh Government wide implications of some of them, I am not in a position to be able to respond fully to each recommendation. I intend to send you our full response to each recommendation shortly.

The contents of the report will also be shared with lead officials responsible for considering the outcomes of the Hazelkorn review and the development of a single, overarching strategy for post-16 education.

Finally I would like to note that the engagement between WAO and Welsh Government officials from the initial interview stage through to the drafting of the final report has been active and constructive.

Yours Sincerely

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 825899
Huw.morris@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

Huw Morris
*Group Director SHELL*

c.c Cabinet and Plenary Mailbox
The PAC Chair
WG CGU Mailbox

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon